# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Dyddiad: Dydd Iau, 11 Ionawr 2024

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Naomi Stocks**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPlant@senedd.cymru

# Hybrid

## Rhag-gyfarfod preifat

(09.15 - 09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 - sesiwn dystiolaeth 1

(09.30 - 11.00) (Tudalennau 1 - 61)

Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

Lynne Neagle AS, y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

Hywel Jones, Cyfarwyddwr Cyllid, Grwp Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru

Amelia John, Cyfarwyddwr Dros Dro, Cymunedau a Threchu Tlodi, Llywodraeth Cymru

Albert Heaney, Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru, Llywodraeth Cymru

Irfon Rees, Cyfarwyddwr Iechyd a Lles, Llywodraeth Cymru

Alex Slade, Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

Papur 1 - Llywodraeth Cymru

**3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitemau 4 ac 8 ar agenda'r cyfarfod hwn.**

(11.00)

**4 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 – trafod y dystiolaeth**

(11.00 - 11.10)

**Egwyl**

(11.05 - 11.10)

**5 Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) - sesiwn dystiolaeth 4**

(11.10 - 12.00) (Tudalennau 62 - 83)

Chris Parry, Llywydd; Laura Doel, Ysgrifennydd Cenedlaethol Cymru, Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) Cymru

Laura Doel, Ysgrifennydd Cenedlaethol Cymru, Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) Cymru

Catherine Falcus, Swyddog Polisi Addysg ac Arweinyddiaeth, Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

Papur - Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) Cymru (Saesneg yn unig)

**6 Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) - sesiwn dystiolaeth 5**

(12.05 - 13.00) (Tudalennau 84 - 95)

Mary van den Heuvel, Uwch-swyddog Polisi Cymru, yr Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU)

Urtha Felda, Swyddog Polisi a Gwaith Achos, Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT)

Ioan Rhys Jones, Ysgrifennydd Cyffredinol, Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

**Dogfennau atodol:**

Papur - Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)

Papur preifat

## 7 Papurau i'w nodi

(13.00 - 13.05)

**7.1 Craffu ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru**

(Tudalennau 96 - 97)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

**7.2 Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr**

(Tudalen 98)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg

**7.3 Gwybodaeth gan Randdeiliaid**

(Tudalennau 99 - 100)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog y Gymraeg ac Addysg

**7.4 Gwybodaeth gan Randdeiliaid**

(Tudalen 101)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Senedd Ieuenctid Cymru

**7.5 Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical**

(Tudalennau 102 - 109)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

**7.6 Craffu cyffredinol ar waith Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**

(Tudalennau 110 - 113)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog y Gymraeg ac Addysg

**7.7 Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru**

(Tudalennau 114 - 115)

**Dogfennau atodol:**

Gwybodaeth ychwanegol gan Llamau (Saesneg yn unig)

**7.8 P-06-1359 Dylid cynnig yr un cymorth ariannol ar gyfer gofal plant i rieni sy'n gweithio yng Nghymru â'r hyn sydd ar gael yn Lloegr a Deiseb P-06-1362 Dylid darparu cynnig cyfatebol yng Nghymru i'r cynnig gofal plant newydd yn Lloegr, sef 15 awr, ar gyfer plant 2 flwydd oed o fis Ebrill 2024**

(Tudalennau 116 - 117)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau

**7.9 Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical**

(Tudalennau 118 - 119)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

**7.10 Sesiwn graffu gyda Gofal Cymdeithasol Cymru**

(Tudalennau 120 - 122)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru

**7.11 Arolygiaeth Gofal Cymru: Craffu Blynyddol**

(Tudalennau 123 - 124)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Brif Arolygydd Arolygiaeth Gofal Cymru

**7.12 Sesiwn graffu gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru**

(Tudalennau 125 - 126)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**7.13 Tlodi Plant**

(Tudalennau 127 - 133)

**Dogfennau atodol:**

Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar Dlodi Plant

**7.14 Gwybodaeth gan Randdeiliaid**

(Tudalennau 134 - 135)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog y Gymraeg ac Addysg

**7.15 Cymorth Iechyd Meddwl mewn Addysg Uwch**

(Tudalennau 136 - 139)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr ar y cyd gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

**7.16 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?**

(Tudalennau 140 - 153)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd

**7.17 Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical**

(Tudalennau 154 - 163)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

**7.18 Gofal planhigion a rhieni**

(Tudalennau 164 - 166)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan  Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

## 8 Bil Preswyl Awyr Agored (Cymru) – trafod y dystiolaeth

(13.00 – 13.15)

**Dogfennau atodol:**

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Gwybodaeth i lywio'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Cynnwys


1. Dyraniadau i blant a phobl ifanc .......... 2
2. Asesiadau Effaith .......... 5
3. Y Rhaglen Lywodraethu .......... 10
4. Cynllun Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy .......... 18
5. Cronfa Newid Plant sydd â Phrofiad o Ofal .......... 22
6. Gweithlu Gofal Cymdeithasol Plant .......... 23
7. Iechyd Plant .......... 25
8. Costau byw .......... 33
9. Costau deddfwriaeth .......... 35

## 1. Dyraniadau i blant a phobl ifanc

**Cais 1**

Dyraniadau ym Mhrif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd drwy Weithredu, a Llinell Wariant yn y Gyllideb (fel sy'n uniongyrchol berthnasol i blant a phobl ifanc):

- Cyllideb Ddrafft 2024-25
- Dyraniadau Cyllideb Derfynol 2023-24
- Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24
- Rhagolygon alldroeon 2023-24
- Cyllideb ddangosol 2025-26 (os pennwyd)

Disgrifiad o unrhyw newidiadau i'r llinell sylfaen yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25 o'r Gyllideb Atodol Gyntaf, Mehefin 2023.

**Ymateb**

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2023-24 | 2023-24 Cyllideb Atodol Gyntaf | Rhagolygon Alldro P8 2023-24 | Cyllideb Ddrafft 2024-25 |
|---|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m | £m |
| Cymru Iachach – (Y Blynyddoedd Cynnar) – BEL 0060 | 7.200 | 7.200 | 6.493 | 6.850 |
| Cymorth ar gyfer Gofal Plant a Chwarae – BEL 310 | 100.951 | 99.727 | 88.404 | 82.378* |
| Cymorth ar gyfer Hawliau Plant – BEL 311 | 1.020 | 1.020 | 0.920 | 1.020 |
| Cefnogi Plant – BEL 410 | 3.865 | 3.865 | 3.883 | 3.865 |
| Cefnogi Teuluoedd a Phlant – BEL 1085 | 11.710 | 11.710 | 5.465 | 5.960* |
| Grant Plant a Chymunedau – BEL 1087 | 171.045 | 172.269 | 171.861 | 174.583* |
| CAFCASS Cymru – BEL 1268 | 15.195 | 15.195 | 15.195 | 15.873 |
| **CYFANSWM** | 310.986 | 310.986 | 292.221 | 290.529 |

**Sylwer – mae elfennau o'r gyllideb yn symud o BEL 310 a BEL 1085 i BEL 1087 yn 24-25 wrth i grantiau symud i'r prif Grant Plant a Chymunedau.*

**Cymru Iachach – (Y Blynyddoedd Cynnar) – BEL 0060**

**Gostyngiad o £0.350m yn y gyllideb**

Cafodd gostyngiad cymesur ei wneud yn y BEL hon fel rhan o'r adolygiad o'r gyllideb a'r ymarfer ailflaenoriaethu a gynhaliwyd yn MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2024-25. Cafodd yr effeithiau eu hystyried a'u trafod â Gweinidogion. Bydd hyn hefyd yn berthnasol isod lle cyfeirir at 'ostyngiadau yn y gyllideb'.

**Cymorth ar gyfer Gofal Plant a Chwarae – BEL 310**

Gostyngiad o £14.7m yn y gyllideb o gyllideb ddangosol 2024-25, sef £99.151m, a throsglwyddiad cyllideb o £2.073m yn y Prif Grŵp Gwariant i BEL 1087 – Grant Plant a Chymunedau. Hefyd mae trosglwyddiad cyllideb wedi'i gynnwys ar gyfer Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 o £1.224m yn symud i'r Grant Plant a Chymunedau ar sail anghylchol.

Cafodd y gostyngiad yn y gyllideb ei gwneud o brif linell y gyllideb Cynnig Gofal Plant, £11.2m, llinell y gyllideb Cynlluniau Braenaru'r Blynyddoedd Cynnar, £3m, a'r gyllideb AGC / GCC a'r Gweithlu, £0.5m

**Cymorth ar gyfer Hawliau Plant – BEL 311**

Dim newid

**Cefnogi Plant – BEL 410**

Dim newid

**Cefnogi Teuluoedd a Phlant – BEL 1085**

Gostyngiad o £4m yn y gyllideb a symudiad cyllideb o £1.1m yn y Prif Grŵp Gwariant i BEL 1087 – Grant Plant a Chymunedau.

O ran y gostyngiad o £4m yn y gyllideb, daw £3.5m o Bwndeli Babi a £0.5m o'r gyllideb Cyfathrebu â Phlant a Theuluoedd.

**Grant Plant a Chymunedau – BEL 1087**

Gostyngiad o £7.085m o ddyraniad cyllideb ddangosol y Grant Plant a Chymunedau 2024-25 o £178.495m

Trosglwyddiad cyllideb rhwng Llinellau Gwariant yn y Gyllideb o £3.173m o'r Prif Grŵp Gwariant, o BEL 310 a BEL 1085, gyda grantiau'n cael eu hychwanegu at y Grant Plant a Chymunedau mwy, gan olygu mai cyfanswm cyllideb 2024-25 yw £174.583m.

**CAFCASS Cymru – BEL 1268**

Cynnydd o £0.678m yn y gyllideb sy'n ymwneud ag addasiad y llinell sylfaen ar gyfer dyfarniad cyflog 2023-24 i staff CAFCASS.

## 2. Asesiadau Effaith

**Cais 2**

- **Asesiad cyfun o’r Effaith ar Hawliau Plant ar draws pob portffolio:** Yr Asesiad cyffredinol o’r Effaith ar Hawliau Plant a gynhaliwyd i lywio’r dyraniadau yng Nghyllideb ddrafft 2024-25.
- **Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:** Yr Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2024-25.
- **Effeithiau eraill:** Manylion a/neu enghreifftiau o unrhyw newidiadau a wnaed i ddyraniadau yn MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ôl ystyried cydraddoldeb, cynaliadwyedd, y Gymraeg, a Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol.

**Ymateb**

Mae’r Asesiad Effaith Integredig Strategol a gyhoeddwyd fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2024-25 yn rhoi ystyriaeth briodol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn. Mae’r dull integredig sy’n sail i’r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn ein galluogi i gael gwell dealltwriaeth o effeithiau croestoriadol ac anfwriadol penderfyniadau gwario, ac i gynyddu effaith unrhyw gyllid sydd ar gael, gan leihau effeithiau anghymesur ar unrhyw grŵp neu ardal benodol. Mae perygl y bydd ystyried maes effaith ar ei ben ei hun yn arwain at ganlyniadau anfwriadol, fel effaith negyddol mewn un maes yn cael ei sbarduno gan effaith gadarnhaol mewn maes arall.

Mae hyn yn hollbwysig er mwyn dangos bod Llywodraeth Cymru’n bodloni gofynion Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru). Mae cyhoeddi Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant yn cyd-fynd â’r gofynion y mae Llywodraeth Cymru ei hun wedi’u rhoi ar waith, sydd wedi sefydlu’r Asesiad hwn fel y mecanwaith ‘y cytunir arno’ i helpu Gweinidogion i gyflawni’r dyletswyddau o dan y Mesur hwnnw yn y Cynllun Hawliau Plant ei hun ac yn y llawlyfr cysylltiedig ar y Cynllun i staff Llywodraeth Cymru.

Mae realiti llwm yr amgylchiadau ariannol eithriadol yr ydym yn eu hwynebu wedi golygu bod angen dull mwy sylfaenol o weithredu. Rydym wedi ail-lunio’r dyraniadau

gwariant dangosol yn ein cyllideb i ddarparu cyllid ac amddiffyniad ychwanegol i'r gwasanaethau sydd bwysicaf i bobl a chymunedau ledled Cymru, sef y GIG a'r setliad llywodraeth leol craidd sy'n ariannu ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, a gwasanaethau bob dydd eraill. Rydym wedi gwneud hynny yn unol â'n hegwyddorion, sef:

- Diogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen, craidd cyn belled ag y bo modd.
- Sicrhau'r budd mwyaf i aelwydydd sy'n cael eu taro galetaf.
- Blaenoriaethu swyddi, lle bynnag y bo hynny'n bosibl.
- Gweithio mewn partneriaeth â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus i wynebu'r storm ariannol hon gyda'i gilydd.
- Ail-ffocysu cyllid draw oddi wrth feysydd nad ydynt wedi'u datganoli, y dylai Llywodraeth y DU fod yn eu hariannu.

Rydym wedi defnyddio'r dull hwn i sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio cyllid lle gall gael yr effaith fwyaf cadarnhaol yn yr amgylchiadau a chymryd camau i sicrhau ein bod yn lliniaru effeithiau uniongyrchol ar bobl a lleoedd, cyn belled ag y bo modd. O wario mwy mewn rhai meysydd, mae llai i'w wario mewn meysydd eraill. Pan fo angen gwneud penderfyniadau anodd, rydym wedi ceisio canfod y meysydd hynny lle mae'r effeithiau cymharol yn llai na'u dewisiadau eraill ac rydym wedi ceisio cymryd camau i liniaru'r effeithiau cyn belled ag y bo modd. O ystyried yr amgylchiadau, ni fu modd osgoi effeithiau negyddol ym mhob achos.

Mae rhagor o fanylion yn yr Asesiad Effaith Integredig Strategol, Atodiad A yn y ddolen isod:

Naratif Cyllideb Ddrafft 2024-2025 (llyw.cymru)

Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae'n bwysig nodi bod dros £10.5 biliwn (93% o'r Prif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) yn cael ei ddyrannu i gyllid uniongyrchol i'r GIG, a bod nifer o linellau eraill y gyllideb yn cefnogi gwasanaethau'r GIG hefyd. Ar ôl cyhoeddi'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2024-25, cyhoeddwyd dyraniad y gyllideb i Fyrddau Iechyd ac mae gofyn iddynt gyflwyno eu cynlluniau ar gyfer 2024/-25, gan

gadw i'r cyllidebau sydd ar gael. Bydd pob penderfyniad gan y byrddau iechyd yn destun asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, penderfyniadau ar gydbwysedd risg ac ymgyngoriadau posibl, os bydd penderfyniadau'n effeithio ar wasanaethau. Bydd pob bwrdd iechyd yn wynebu heriau gwahanol o ran anghenion y boblogaeth leol a chyfluniad gwasanaethau. Bydd y camau a gymerir i reoli unrhyw bwysau costau yn amrywio yn ôl sefydliad a byddant yn destun penderfyniad lleol.

Gweledigaeth *Cymru Iachach* yw canolbwyntio mwy ar atal ac ymyrryd yn fuan. Rydym yn parhau i gefnogi hyn drwy gymorth cyffredinol a chymorth wedi'i dargedu. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni drwy Magu Plant. *Rhowch amser iddo*, sydd wedi cael ei ehangu i gefnogi rhieni plant o 0 i 18 oed; cymorth parhaus ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu drwy'r cynllun a'r ymgyrch *Siarad Gyda Fi*; a rhagor o fuddsoddiad i leihau neu liniaru effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Yn nyraniad MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, caiff cyllid ei ddyrannu i gefnogi ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu mewn cysylltiad â'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.

Mae ein cefnogaeth i'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yn cyfrannu at yr holl nodau llesiant, ac yn benodol at y rhai sy'n ymwneud â Chymru lewyrchus ac iachach. Mae buddsoddi mewn gofal plant a chwarae o ansawdd uchel yn gallu helpu plant ifanc i ddatblygu'n oedolion iach ac egnïol. Mae'n datblygu eu llesiant gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol, ac yn lliniaru effeithiau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae gofal plant hefyd yn gallu galluogi rhieni i weithio a hyfforddi, ac yn codi teuluoedd allan o dlodi.

Mae ein Cynnig Gofal Plant yn cefnogi amcanion llesiant Llywodraeth Cymru, yn benodol i wneud y canlynol:

- Cefnogi pobl a busnesau i ysgogi ffyniant.
- Hybu iechyd da a llesiant i bawb.
- Helpu pobl ifanc i wireddu eu potensial.
- Datblygu uchelgais ac annog dysgu i fyw.

Rydym wedi parhau i lunio ein dyraniadau cyllideb i gyd-fynd â chamau gweithredu ataliol, gan ganolbwyntio ar ymyriadau cadarnhaol sy’n diogelu ac yn adeiladu ar y sylfeini presennol, gan gynnwys ein hymrwymiad i hawliau plant. Gwelir tystiolaeth o hyn, er enghraifft, drwy ein buddsoddiad parhaus yng ngwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru; ein buddsoddiad parhaus mewn gwasanaethau atal allweddol fel rhaglenni imiwneiddio ar gyfer plant; a gweithgareddau hybu iechyd ehangach ar gyfer plant a phobl ifanc fel yr amlinellir yn adran 7 isod.  Fodd bynnag, rydym wedi gorfod lleihau cyllidebau a fydd yn effeithio ar blant, fel yr esbonnir yn yr enghreifftiau isod.

Y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae, gan gynnwys y Cynnig Gofal Plant a’r Gweithlu

Mae’r Cynnig Gofal Plant i Gymru yn cael ei arwain gan y galw ac mae £2.5m yn cael ei ddyrannu fel Grant Cymorth Ychwanegol. Mae gostyngiadau yn y gyllideb ar gyfer 2024-25 wedi cael eu modelu ar y defnydd yn 2023-24. O ystyried bod y rhaglen yn seiliedig ar y galw, bydd cyllideb ychwanegol yn cael ei dyrannu os bydd angen.

Rhaglen Drawsnewid Integreiddio’r Blynyddoedd Cynnar

Mae Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar yn canolbwyntio ar ddatblygu system blynyddoedd cynnar fwy cydgysylltiedig ac ymatebol sy’n rhoi anghenion unigryw pob plentyn wrth galon y system, ac sy’n cynnwys y cyfnod cyn-geni hyd at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (0-7).

Rydym wedi bod yn gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru i ystyried sut i ddarparu gwasanaethau’r blynyddoedd cynnar mewn ffordd fwy systematig, gan ddefnyddio’r gwersi a ddysgwyd o’n rhaglenni presennol, fel Dechrau’n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf.

Mae mwyafrif y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cymryd rhan yn y rhaglen fel cynllun braenaru, gan brofi elfennau craidd system blynyddoedd cynnar a threialu gwahanol fodelau a dulliau gweithredu amlasiantaeth, gan adeiladu ar yr hyn sy’n gweithio’n dda mewn rhaglenni sydd eisoes yn bodoli, fel Dechrau’n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf.

Bydd y cyllid hwn yn dod i ben fis Mawrth 2024 nawr, sy'n golygu y bydd y rhaglen yn dod i ben flwyddyn yn gynharach na'r disgwyl.

Roedd disgwyl y byddai gan y rhaglen derfyn amser o'r cychwyn cyntaf, gan mai rhaglen beilot yw hi, a'r bwriad oedd y byddai'n dod i ben diwedd 2024-25. Er y bydd y rhaglen yn dod i ben yn gynharach na'r disgwyl, byddwn yn gweithio'n agos gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i nodi'r cymorth anariannol mwyaf priodol i'w galluogi i wreiddio'r dysgu fel rhan o'u model busnes fel arfer.

Rhaglen Bwndeli Babi

Bwriad y Rhaglen oedd cynnig cymorth i tua 26,000 o rieni newydd a darpar rieni. Gyda chyllideb is, bydd angen targedu'r Rhaglen ar sail ddaearyddol lai fel Dechrau'n Deg a/neu dynnu cynnwys Bwndeli er mwyn lleihau costau. Os caiff ei darparu mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, gellid cefnogi tua 8,000 o rieni newydd a darpar rieni.

Bydd y gostyngiad yn y gyllideb yn golygu na fydd rhai teuluoedd, sydd mewn perygl o dlodi neu'n profi tlodi sy'n byw y tu allan i'r ardal darged, yn elwa ar y cymorth a gynigir drwy'r Rhaglen.

## 3. <u>**Y Rhaglen Lywodraethu**</u>

**Cais 3**

Dyraniadau yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25 a’r sefyllfa ddiweddaraf o ran cyllid ar gyfer:

**3.1 - Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu:** Gwasanaethau eirioli i rieni y mae eu plant mewn perygl o ymuno â’r system ofal.

Dyraniadau ar gyfer cyflwyno cymorth i rieni y mae eu plant ar gyrion gofal, sydd i’w darparu yn unol â fframwaith cenedlaethol.

**Ymateb**

Dyrannwyd cyllid o £506,000 o’r Gronfa Newid Plant sy’n Derbyn Gofal yn 2024-25 ar gyfer cyflwyno cymorth eiriolaeth annibynnol a phroffesiynol i rieni y mae eu plant ar gyrion gofal, gyda’r nod o leihau nifer y plant sy’n ymuno â’r system ofal yng Nghymru. Cyfanswm y cyllid a ddyrannwyd i’r ymrwymiad hwn ar draws pedair blynedd 2022/23-2025/26 yw £1,606,400.

**3.2 - Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu:** Ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol ar gyfer plant ag anghenion cymhleth.

Dyraniadau ar gyfer 2024-25 ar gyfer y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer yr wyth prosiect sydd bellach yn weithredol (a sawl lleoliad ychwanegol y mae hyn yn ei ariannu).

Dyraniadau ar gyfer cyflawni unrhyw brosiectau newydd (a sawl lleoliad newydd ychwanegol y mae hyn yn ei ariannu).

**Ymateb**

Ers cyhoeddi adroddiad blynyddol y Rhaglen Lywodraethu ym mis Gorffennaf eleni, mae saith prosiect rhanbarthol ychwanegol wedi dod yn weithredol. Cyfanswm nifer y prosiectau sydd bellach yn weithredol yw 15, sy’n darparu 26 o welyau ar gyfer plant ag anghenion cymhleth. Mae’r prosiectau’n cael eu hariannu drwy wahanol

ffrydiau cyllido gan gynnwys y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, yn ogystal â chyllid craidd. Felly, nid yw gwybodaeth am gyfanswm y dyraniadau cyllid ar gyfer y prosiectau yn cael ei chadw'n ganolog.

**3.3 - Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu:** Dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal.
Dadansoddiad blynyddol o sut mae'r ymrwymiad i wario £68m yn cael ei ddadansoddi yn ôl cyfanswm dros dair blynedd, 2022-23, 2023-24, 2024-25.

- **Yr alldro terfynol ar gyfer 2022-23** / dadansoddiad o bwy gafodd y dyraniadau hynny ac at ba ddiben (yn ôl awdurdod lleol a'r trydydd sector).

- **Rhagolygon alldro ar gyfer 2023-24** / dadansoddiad o bwy gafodd y dyraniadau hynny ac at ba ddiben (yn ôl awdurdod lleol a'r trydydd sector).

- **Dyraniadau manwl wedi'u cynllunio ar gyfer 2024-25** (neu'r broses ar gyfer penderfynu ar hynny).

**Ymateb**

Dadansoddiad Blynyddol o £68m

| | |
|---|---|
| 2022/23 | £13m |
| 2023/24 | £26m |
| 2024/25 | £29m |

Yn 2022-23 gofynnwyd i awdurdodau lleol gyflwyno ceisiadau tair blynedd am gyllid (2022/23-2024/25) i'w helpu i gyflawni'r ymrwymiad i ddileu elw a'u helpu i leihau nifer y plant mewn gofal a chefnogi plant sy'n derbyn gofal, a'u teuluoedd.

Cafodd y ceisiadau hyn eu hasesu gan swyddogion a'u defnyddio i bennu dyraniad y £68m dros y tair blynedd i awdurdodau lleol yng Nghymru. Roedd y ceisiadau'n canolbwyntio'n glir ar adeiladu darpariaeth gofal preswyl a maeth mewnol neu nid-er-elw, ar symud plant allan o ofal preswyl yn ôl i leoliad teulu, ar ddarparu gwasanaethau lleol ac wedi'u dylunio, gan gynnwys darpariaeth arbenigol i blant ag

anghenion mwy cymhleth ac, yn anad dim, ar wella canlyniadau i blant. Dyma rai enghreifftiau o'r mathau o gynigion a gafwyd:

- Gwell cymorth i ofalwyr maeth, gan gynnwys datblygu gwasanaethau cefnogi arbenigol.
- Gwella'r ystod o ddewisiadau gofal maeth i blant.
- Mwy o recriwtio ac asesu gofalwyr maeth awdurdodau lleol.
- Lleoliadau maeth Camu i Lawr.
- Adeiladu darpariaeth a gwytnwch gofal preswyl mewnol, gan gynnwys uwchsgilio staff ac ymarferwyr awdurdodau lleol.
- Datblygu gwasanaethau seibiant byr mewnol.
- Trosi Lleoliadau gyda Rhieni yn Orchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig.
- Datblygu/Ehangu Timau Cymorth mewn Argyfwng.
- Diddymu Gorchmynion Gofal.

Yn 2022-23, cafodd y cyllid a ddyrannwyd ei wario'n llawn ar y gweithgareddau hyn i gefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddileu elw. Rhagwelir y bydd cyllid yn cael ei ddefnyddio'n llawn unwaith eto yn 2023-24.

**3.4 - Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu:** Cymorth arbenigol i blant ag anghenion cymhleth a allai fod ar gyrion y system ofal.

Mae manylion y 32 prosiect a nodwyd hyd yma gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cwmpasu Cymru gyfan a sut mae'r rhain yn cael eu hariannu gan Gronfa Integreiddio Rhanbarthol Iechyd a Gofal Cymdeithasol fel y nodir yn Adroddiad Blynyddol diweddaraf y Rhaglen Lywodraethu.

**Ymateb**

Ar gyfer ein Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, roedd blwyddyn gyntaf (2022-23) y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn un o drawsnewid, wrth inni gyfuno ffrydiau cyllido a oedd ar wahân yn flaenorol i sicrhau bod adnoddau'n cyd-fynd yn well, er mwyn inni gael yr effaith fwyaf bosibl a lleihau'r baich gweinyddol. O ganlyniad, mae llawer o'r 32 prosiect gwreiddiol bellach wedi'u cyfuno i'r 20 rhaglen waith a restrwyd. Er ei

bod yn ymddangos bod hyn yn ostyngiad mewn prosiectau, mae lefel y buddsoddiad cyffredinol ym mlwyddyn 2 (2023-24) yn dal yn debyg i flwyddyn 1 y Gronfa.

Mae cyllid y Gronfa yn mynd i bob un o'r saith Bwrdd Iechyd Lleol sy'n gweithredu fel 'bancwyr' ar gyfer y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol: mae partneriaid yn tynnu'r cyllid hwn i lawr yn ôl yr angen, gyda ffurflenni cyllid a chyfarfodydd chwarterol wedi'u trefnu i drafod cynnydd yn erbyn y cynllun yn ystod y flwyddyn. Felly, nid yw'n bosibl rhagamcanu'r union ddyraniad y bydd rhanbarthau'n ei roi tuag at y model gofal perthnasol ym mlwyddyn 3 (2024-25), ond ni fyddem yn disgwyl unrhyw newidiadau mawr ar hyn o bryd.

O dan y Model Gofalu 'Cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel, a chymorth therapiwtig i blant sydd â phrofiad o ofal', cyfanswm rhagamcanol y dyraniad 2023-4 erbyn diwedd y flwyddyn yw £18,243,533, a fydd, yn ein barn ni, yn eithaf tebyg ar gyfer 2024-25. Rhennir y dyraniad fel a ganlyn:

<u>Caerdydd a'r Fro £2,084,429</u>

- Cymorth iawn, yr amser iawn, y person iawn
- Plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth – cymuned

<u>Cwm Taf Morgannwg £802,796</u>

- Prosiect Dewis.
- Gwasanaeth Cymorth Therapiwtig MAPSS.
- Model Newid Systemig.

<u>Gwent £1,474,163</u>

- Iechyd a Datblygiad Emosiynol Plant.
- Ymyrraeth Gynnar a Chadernid i Blant.

<u>Gogledd Cymru £9,867,139</u>

- Ymyrraeth gynnar.
- Gwasanaethau dychwelyd ac atal.
- Meithrin gwytnwch teuluoedd i atal problemau rhag dwysáu.

- Cymorth preswyl dwys i blant ag anghenion cymhleth.
- Cymorth arbenigol i blant ag anghenion cymhleth / arbenigol.
- Timau cymorth dwys i blant ag anghenion cymhleth.

<u>Powys £610,000</u>

- Ar gyrion gofal.

<u>Gorllewin Morgannwg £1,894,177</u>

- Gwasanaeth Therapiwtig Newydd.
- Gweithio gyda'n Gilydd – Rhanbarthol.
- Ar ôl mabwysiadu – Rhanbarthol.

<u>Gorllewin Cymru £1,510,829</u>

- Camu i fyny / Camu i lawr.
- Ar gyrion gofal.
- Anghenion cymhleth.

**3.5 - Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu:** Ariannu gofal plant i ragor o deuluoedd lle mae rhieni mewn addysg a hyfforddiant, neu ar gyrion gwaith.

Dyraniadau cyffredinol ar gyfer y Cynnig Gofal Plant yn 2024-25.
Cost y 438 o deuluoedd ychwanegol yn 2023-24 a chyfanswm y costau a ddyrannwyd yn 2024-25 ar gyfer yr amcangyfrif o 3,000 yn rhagor o deuluoedd cymwys fel y cyfeirir ato yn Adroddiad Blynyddol diweddaraf y Rhaglen Lywodraethu.

**Ymateb**

Yn 2024-25, mae dros £76m yn cael ei ddyrannu i raglen Cynnig Gofal Plant Cymru. Mae hyn yn cynnwys prif grant y Cynnig Gofal Plant, Grant Gweinyddu Awdurdodau Lleol, Grant Cymorth Ychwanegol y Cynnig Gofal Plant, a chostau rhaglenni digidol a mewnol. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o tua £11m o gyllideb 2023-24.

Erbyn diwedd y flwyddyn academaidd 22/23, rhoddwyd cymorth i 675 o deuluoedd ychwanegol oherwydd bod y Cynnig wedi'i ehangu i gynnwys rhieni cymwys sydd mewn addysg/hyfforddiant. Mae rhieni mewn addysg a hyfforddiant yn cael eu hariannu o fewn prif grant y Cynnig Gofal Plant. Oherwydd y ffordd y mae'r data a'r wybodaeth fonitro'n cael eu datblygu o dan y System Ddigidol Genedlaethol, ar hyn o bryd nid yw'n bosibl dadgyfuno'r costau hyn o gyfanswm grant y Cynnig Gofal Plant.

Mae'r cyfraddau defnydd presennol yn adlewyrchu tua 55% o rieni cymwys, ac mae'r gyllideb a ddyrannwyd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru gyflawni'r holl rwymedigaethau presennol a pharhau i hybu defnydd, gan annog rhagor o rieni cymwys i fanteisio ar y cymorth sydd ar gael iddynt.

**3.6 - Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu:** Mynd ati'n raddol i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar er mwyn cynnwys pob plentyn dwyflwydd oed, gan roi pwyslais penodol ar gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg.

Dyraniadau a'r hyn y bwriedir iddynt ei gyflawni yn 2024-25.
Gwybodaeth ynghylch a fydd yn cynnig 30 awr llawn i bob plentyn dwyflwydd oed, ac erbyn pryd y bydd hyn yn cael ei ddarparu.

**Ymateb**
Mae gofal plant yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru, a'n huchelgais yw cynnig darpariaeth gofal plant a blynyddoedd cynnar i bob plentyn dwyflwydd oed yng Nghymru.

Mae ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i fynd ati'n raddol i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar er mwyn cynnwys pob plentyn dwyflwydd oed, gan roi pwyslais penodol ar gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg. Mae hyn yn cael ei gyflawni drwy'r rhaglen Dechrau'n Deg sy'n cynnig 12.5 awr o ofal plant o ansawdd uchel a ariennir gan y llywodraeth bob wythnos am 39 wythnos y flwyddyn. Ein huchelgais yw bod hyn yn cael ei gynnig yn gyffredinol i bob plentyn dwyflwydd oed. Darperir rhagor o wybodaeth am ddyraniad 2024-25 ar gyfer Dechrau'n Deg mewn ymateb i 3.7 isod.

Mae Cynnig Gofal Plant Cymru yn darparu 30 awr o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y llywodraeth am hyd at 48 wythnos y flwyddyn ar gyfer rhieni cymwys sydd mewn addysg/hyfforddiant, a rhieni plant 3 a 4 oed yng Nghymru sy’n gweithio. Mae Dechrau’n Deg a’r Cynnig Gofal Plant yn rhaglenni ar wahân ond cysylltiedig.

O ran gofal plant Dechrau’n Deg, fel rhan o’n Cytundeb Cydweithredu â Phlaid Cymru, rydym wedi ymrwymo i ehangu’r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ar gyfer pob plentyn dwyflwydd oed ledled Cymru.

Dechreuodd cam presennol y rhaglen ehangu ym mis Ebrill 2023 ac mae’n canolbwyntio’n benodol ar ehangu gofal plant Dechrau’n Deg i ragor o blant dwyflwydd oed.
Mae canolbwyntio adnoddau ar ein cymunedau mwyaf difreintiedig, yn y lle cyntaf, yn sicrhau bod cymorth yn cyrraedd y teuluoedd mwyaf anghenus cyn gynted ag y bo modd.

**3.7 - Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu:** Dechrau’n Deg

Refeniw a chyfalaf

**Ymateb**

<u>Dechrau’n Deg - Refeniw</u>

Mae cyllideb Dechrau’n Deg yn rhan o’r Grant Plant a Chymunedau. Mae’r Grant Plant a Chymunedau yn helpu awdurdodau lleol i ystyried sut i ddarparu eu gwasanaethau mewn ffordd fwy strategol. Gall hyblygrwydd yn y grant hwn gefnogi a hybu cynllunio a chomisiynu ar y cyd i wneud defnydd mwy effeithiol o’r cyllid er mwyn cyflawni nodau ac amcanion y rhaglenni cyfansoddol.

Mae’r Grant Plant a Chymunedau yn mynd i’r afael ag anghenion y plant, y bobl ifanc a’r oedolion mwyaf difreintiedig a/neu agored i niwed yn ein cymdeithas drwy amrywiaeth o ddulliau ymyrraeth gynnar, atal, a chymorth.

Nod y rhaglenni yn y grant hwn yw lliniaru neu ddileu anfanteision pobl difreintiedig a/neu agored i niwed i'w galluogi i gael yr un cyfleoedd mewn bywyd ag eraill, ac i gyfrannu at Gymru sy'n fwy cyfartal.

Y gyllideb ar gyfer y Grant yn 2024-25 yw £174.583m. O hyn, mae £142.028m yn Gyllid Hyblyg ar gyfer wyth rhaglen, gan gynnwys cynnig craidd Dechrau'n Deg.

Yn 2024-25 byddwn yn buddsoddi £32.555m i ehangu Dechrau'n Deg. Bydd £24.3m ohono'n helpu dros 5,200 o blant ychwanegol i gael gafael ar ofal plant Dechrau'n Deg o ansawdd uchel i gefnogi effeithiau cadarnhaol hirdymor ar fywyd y plant a'r teuluoedd hynny ledled Cymru sy'n wynebu'r heriau mwyaf.

Rhaglen Gyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar

Cafodd y Rhaglen Gyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar ei rhoi ar waith ym mis Hydref 2022 ac mae ar gael tan fis Mawrth 2025, gyda chyfanswm dyraniad cyllideb o £70m. Mae'r rhaglen yn cefnogi Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant, a'i nod yw gwella ac ehangu darpariaeth gofal plant newydd a'r ddarpariaeth sydd eisoes yn bodoli.

Mae'r gyllideb wedi'i rhannu'n ddwy ffrwd gyllido benodol: cyllid grantiau bach a chyllid cyfalaf mawr. Bydd y dyraniadau cyllideb sydd ar gael ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 yn £10m ar gyfer cyllid grantiau bach. Bydd yr holl ddarparwyr gofal plant a chwarae sydd wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn gymwys i wneud cais drwy broses weinyddu eu hawdurdod lleol. Defnyddir yr elfen grantiau bach i gefnogi prosiectau ac eitemau hyd at £20,000, ac mae'r cyfanswm fesul prosiect yn seiliedig ar nifer y lleoedd gofal plant AGC yn y lleoliad.

Bydd dyraniad cyllideb o £15m ar gyfer 2024-25 ar gael i brosiectau cyfalaf mawr ar gyfer cynigion o hyd at £20,000 ac mae'n amrywio o waith adnewyddu bach i gyflwyno estyniadau ac adeiladau annibynnol ar gyfer darpariaethau gofal plant. Mae'r cyllid ar gael i ddarparwyr sydd wedi cofrestru ag AGC ac mae'n rhaid i awdurdodau lleol gyflwyno achos cyfiawnhad busnes i wneud cais am gyllid cyfalaf drwy dîm cyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar.

## 4. Cynllun Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy

**Cais 4**

Cyfanswm y Cynllun a dadansoddiad o'r holl grantiau sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc.

**Ymateb**

Cyfanswm gwerth y cyllid drwy'r Cynllun Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy yn 2024-25 yw £9,299,209, ac mae £2,912,428 ohono'n ymwneud â grantiau sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc.

Dyma ddadansoddiad o'r grantiau hyn:

| | | |
|---|---|---|
| Gweithredu dros Blant | Skills **PLUS** (Skills+): Gwasanaeth ar gyfer pobl ifanc 14-24 oed sydd â phrofiad o ofal yw Skills+. Bydd y prosiect yn darparu **Llwybrau** pwrpasol sy'n helpu pobl ifanc â phrofiad o ofal i bontio i fod yn oedolyn, drwy amrywiaeth o ymyriadau cysylltiedig sydd wedi'u cynllunio'n benodol i leihau eu gwendidau a'u cyflenwi â'r gwytnwch a'r sgiliau/adnoddau i'w helpu i ymdopi'n gadarnhaol â heriau byw'n annibynnol. | **£599,747** |
| Cymorth i Fenywod Cyfannol | Ar Trac: Bydd Ar Trac yn cefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi profi neu fod yn dyst i gam-drin domestig, ac sy'n dangos anawsterau o ran eu perthynas â'u teulu a'u cyfoedion. Drwy fynd i'r afael â'r anawsterau hyn ac adeiladu ar gryfderau yn ystod plentyndod, nod Ar Trac yw lleihau effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig a gwella | **£619,762** |

| | | |
|---|---|---|
| | llesiant corfforol a meddyliol yn nes ymlaen mewn bywyd.<br><br>Mae’r prosiect yn cael ei ddarparu gan asiantaethau cam-drin domestig lleol sydd â chyfoeth o brofiad a dealltwriaeth o’u cymunedau lleol, ac a fydd yn gallu addasu’r prosiect yn lleol i fodloni anghenion plant a phobl ifanc yn well. | |
| Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig Cymru | Cefnogi Plant a Phobl Ifanc Du ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru: Nod y gwasanaeth yw gwella canlyniadau llesiant Plant a Phobl Ifanc Du ac Ethnig Leiafrifol sydd ag anghenion gofal cymdeithasol drwy wasanaeth cymorth sy’n ystyriol o hil, ffydd a diwylliant, sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy’n seiliedig ar hawliau, gan adeiladu ar waith Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig Cymru gyda Phlant a Phobl Ifanc Du ac Ethnig Leiafrifol yn Abertawe.<br><br>Mae’r gwasanaethau’n wasanaeth atgyfeirio i Blant a Phobl Ifanc Du a Lleiafrifoedd Ethnig 0-25 oed sydd ag anghenion cymorth ‘ychwanegol’ neu ‘luosog’, gan weithio’n uniongyrchol gyda nhw drwy ymyrraeth gynnar ac atal i gyflawni canlyniadau llesiant penodol: sicrhau hawliau, gwella iechyd corfforol a meddyliol, cefnogi’r broses o bontio i fod yn oedolyn annibynnol, a diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod. | **£138,552** |
| Sefydliad Lucy Faithfull | Cadw Plant yn Ddiogel rhag Cam-drin Rhywiol – addysg, hyfforddiant ac adnoddau cyhoeddus i wella gallu rhieni, gofalwyr a’r rhai sy’n gweithio gyda phlant a theuluoedd i atal niwed rhywiol, a chymryd camau priodol os oes ganddynt bryder | **£97,152** |

| | | |
|---|---|---|
| Sefydliad Lucy Faithfull | Ymyrraeth gynnar i deuluoedd agored i niwed neu sydd mewn perygl: prosiect atal a gweithredu'n gynnar ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin plant yn rhywiol: Cadw plant yn ddiogel rhag cam-drin rhywiol – addysg, hyfforddiant ac adnoddau cyhoeddus i wella gallu rhieni, gofalwyr a'r rhai sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd i atal niwed rhywiol, a chymryd camau priodol os oes ganddynt bryder | **£94,612** |
| Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol | Rhaglen Eiriolaeth Rhieni: Cefnogi cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu cymorth ymyriadau teuluol gyda'r nod o leihau nifer y plant sy'n ymuno â'r system ofal yng Nghymru. Prif nod y prosiect yw ymyrraeth ataliol a sicrhau bod hawliau'r plentyn yn cael eu cynnal yn llawn. | **£297,399** |
| Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol | Project Unity: Torri'r cylch o blant mamau sydd â phrofiad o ofal yn cael eu rhoi mewn gofal, ac atal plant rhag bod yn destun prosesau diogelu plant. Drwy ddarparu cymorth cofleidiol dwys a meithrin rhwydweithiau cymorth gan gymheiriaid. | **£343,707** |
| Platfform (yn ffurfiol - Gofal ) | Prosiect Pobl Ifanc 13-16 oed: Bydd Prosiect Pobl Ifanc Platfform, mewn cydweithrediad â Vibe Youth a Barod, yn darparu lle diogel i bobl ifanc 13-16 oed gael saib, anadlu a chysylltu. Drwy ddarparu rhaglen llesiant deuddeg wythnos, cymorth gan gymheiriaid a chymorth un-i-un, bydd pobl ifanc yn cael cyfle i archwilio beth mae iechyd meddwl a llesiant yn ei olygu iddyn nhw. Bydd pobl ifanc yn cael cyfle i gwrdd ag eraill sy'n wynebu heriau tebyg ac i rannu straeon am adfer a strategaethau dydd i ddydd ar gyfer llesiant. Bydd y prosiect yn rhoi cyfle i bobl ifanc hyfforddi i | **£362,397** |

| | | |
|---|---|---|
| | fod yn fentoriaid cymheiriaid ac yn rhoi llwyfan i bobl ifanc ddylanwadu ar gyfeiriad y prosiect. | |
| Y Rhwydwaith Maethu | Cymunedau Maethu: Mae **Cymunedau Maethu** yn ddull system gyfan o gefnogi plant sy'n derbyn gofal a'u teuluoedd maeth ar hyd a lled Cymru. Wrth ei wraidd mae model arloesol, cydgynhyrchu, sy'n hwyluso dull rhannu pŵer o ddylunio, darparu a gwerthuso rhaglenni. Bydd y prosiect yn grymuso'r gymuned faethu i wella canlyniadau llesiant i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal o fewn y fframwaith llesiant cenedlaethol | **£279,429** |
| Whizz-Kidz | Moving On: Gwella bodlonrwydd a hapusrwydd bywyd pobl ifanc sy'n defnyddio cadair olwyn yng Nghymru drwy raglenni sgiliau chwaraeon a seiliedig ar symudiadau mewn lleoliadau iechyd ac addysg. | **£79,671** |

## 5. Cronfa Newid Plant sydd â Phrofiad o Ofal

**Cais 5**

Cyfanswm y Gronfa a dadansoddiad o’r holl ddyraniadau.

**Ymateb**

| **Prosiect** | **Dyraniad ar gyfer 2024/25 - £3,820,853** |
|---|---|
| Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | £669,492 |
| Maethu Cymru | £2,074,999 |
| Camu i fyny, Camu i lawr | £301,300 |
| Maethu Lles | £269,062 |
| Eiriolaeth Rhieni | £506,000 |
| **Cyfanswm** | **£3,820,853** |

## 6. Gweithlu Gofal Cymdeithasol Plant

**Cais 6**

Unrhyw ddyraniadau sy'n gysylltiedig â helpu awdurdodau lleol i fynd i'r afael ag ansefydlogrwydd y gweithlu ym maes gofal cymdeithasol plant, fel cyfraddau swyddi gwag a defnyddio staff asiantaeth, a nodwyd yn ein Hadroddiad ar Ddiwygio Radical ar gyfer Plant sydd wedi bod mewn Gofal ac adolygiad cyflym diweddar Arolygiaeth Gofal Cymru o drefniadau amddiffyn plant Medi 2023

**Ymateb**

Fel llywodraeth, rydym yn canolbwyntio ar greu sylfaen gadarn y gallwn adeiladu ein gweithlu gofal cymdeithasol arni.

Nod ein cyllid sylweddol drwy Gofal Cymdeithasol Cymru yw arwain a chefnogi gwelliannau mewn gofal cymdeithasol drwy recriwtio a chadw gweithlu proffesiynol o ansawdd uchel. Mae'r meysydd gwaith gyda chyllid wedi'i ddyrannu sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol i blant yn cynnwys:

Buddsoddiad o £10 miliwn dros dair blynedd yn y bwrsari i weithwyr cymdeithasol i sicrhau bod y radd mewn gwaith cymdeithasol yn gyraeddadwy yn ariannol, ac yn yrfa ddeniadol. Mae rhagor wedi manteisio ar y bwrsari i weithwyr cymdeithasol yn 2023-24 o'i gymharu â 2022-23. Rydym yn hyderus bod y cynnig cynyddol o gymorth wedi helpu i ddenu mwy o fyfyrwyr i ddilyn gwaith cymdeithasol fel gyrfa, ac y bydd hyn yn parhau yn 2024-25.

Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r grant hwn ar gael i gefnogi awdurdodau lleol ac mae'n cynnig cyfleoedd i ariannu rhaglenni ardderchog fel y 'cynllun datblygu eich hun' sy'n cefnogi cyflogaeth am dâl a hyfforddiant gwaith cymdeithasol wedi'i ariannu. Mae'r nifer sy'n manteisio ar y cynllun hwn wedi cynyddu bob blwyddyn ac mae Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn amcangyfrif cynnydd yn nifer y myfyrwyr "datblygu eich hun" ar gyfer blwyddyn academaidd 2023-24.

Mae cyllid Gofal Cymdeithasol Cymru yn cael ei ddarparu i Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gyflawni darn o waith sy'n canolbwyntio ar delerau ac amodau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol, gan gynnwys dulliau gweithredu cenedlaethol. Pwrpas hyn yw cefnogi a denu unigolion i'r proffesiwn, a lleihau symudiad staff cymwysedig rhwng awdurdodau lleol oherwydd amrywiadau mewn telerau ac amodau.

I gydnabod y rôl bwysig y mae awdurdodau lleol yn ei chwarae o ran darparu gwasanaethau cymdeithasol craidd, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid rheolaidd i'r sector ar ffurf grant Gweithlu a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Mae'r meini prawf ar gyfer defnyddio'r grant wedi'u gosod yn fras. Mae awdurdodau lleol wedi gallu defnyddio'r cyllid i gefnogi codiadau cyflog, ond hefyd ar gyfer ymyriadau eraill sydd â'r nod o gefnogi darpariaeth gwasanaethau gofal cymdeithasol cynaliadwy i sicrhau eu bod mewn sefyllfa well i ateb galw cynyddol neu annisgwyl. Y dyraniad i awdurdodau lleol ar gyfer 2024-25 yw £34.4 miliwn.

Daw'r rhaglenni gwaith cadarnhaol hyn gyda'r realaeth y bydd yn cymryd amser i deimlo'r effaith yn y gweithlu, ond mae hyn yn addawol ar gyfer dyfodol gofal cymdeithasol plant.

## 7. Iechyd Plant

**Cais 7**

Dyraniadau yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25 a’r sefyllfa ddiweddaraf o ran cyllid ar gyfer:

- Iechyd y cyhoedd fel y mae’n berthnasol i blant a phobl ifanc, gan gynnwys brechu.
- Strategaeth gordewdra.
- Gwasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc, a gwasanaethau i gefnogi iechyd meddwl amenedigol a’r berthynas rhwng rhieni a phlant.
- Gwasanaethau anhwylderau bwyta.
- Atal hunanladdiad fel y mae’n berthnasol i blant a phobl ifanc.
- Camddefnyddio sylweddau, gan gynnwys fepio ymysg plant a phobl ifanc.
- Gwasanaethau niwroddatblygiadol.

**Ymateb**

Gwasanaethau niwrowahaniaeth (Gwasanaethau awtistiaeth)

Drwy ein Rhaglen Gwella Niwrowahaniaeth, rydym yn parhau i flaenoriaethu gwelliannau mewn gwasanaethau niwrowahaniaeth, gan gynnwys gwasanaethau niwroddatblygiadol i blant. Cyhoeddais gyllid ychwanegol o £12m dros dair blynedd hyd at fis Mawrth 2025, ac mae £6m ar gael yn 2024-25. Drwy’r rhaglen wella, rydym wedi darparu canllawiau clir i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar y trawsnewid gofynnol.

Er bod cyllid y rhaglen wella yn creu capasiti ychwanegol mewn gwasanaethau diagnostig sy’n cael eu harwain gan iechyd, mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi cael eu hannog i fuddsoddi mewn prosiectau peilot newydd ac arloesol i roi gwybodaeth, cyngor ac ymyrraeth gynnar i deuluoedd cyn eu hatgyfeirio ar gyfer diagnosis. Mae amrywiaeth o brosiectau’n cael eu treialu mewn gwahanol ardaloedd ledled Cymru. Mae’r canlynol yn enghreifftiau o gynlluniau peilot cyfredol:

- Mae Caerdydd a’r Fro yn treialu rôl Cysylltwyr Cymunedol i gyfeirio a chysylltu teuluoedd â phlant ifanc â gwasanaethau cymorth lleol cyn neu wrth aros am asesiad diagnostig.

- Aeth Cyngor Castell-nedd Port Talbot ati i gyflogi Seicolegydd Addysg cynorthwyol i ddarparu sesiynau galw heibio cymunedol i rieni/gofalwyr un diwrnod yr wythnos ym mhob cymuned ar draws Castell-nedd Port Talbot.

- Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn treialu arloesi gyda modelau rhagnodi meddyginiaeth ADHD ar gyfer plant er mwyn osgoi amseroedd aros hir, o ystyried y cynnydd yn y galw ar hyn o bryd. Y nod yw byrhau’r broses ddiagnostig a chwblhau asesiad ac ystyriaeth o feddyginiaeth ar yr un diwrnod. Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, maent hefyd yn datblygu llwybr i rieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol gael gafael ar gyngor, ymgynghoriad a chymorth cyn atgyfeirio am asesiad neu ar adeg atgyfeirio.

Edrychwn ymlaen at weld yr arloesi hwn yn datblygu er mwyn dysgu a mabwysiadu unrhyw arferion gorau sy’n dod i’r amlwg ar raddfa ehangach.

Ffocws 2024-25 fydd dysgu o’r cynlluniau peilot cynnar lleol hyn a datblygu prosiectau llwyddiannus i fodel cenedlaethol o ddarparu gwasanaethau. Rydym wedi sefydlu Grŵp Llywio a Chymuned Ymarfer Niwroddatblygiadol i Blant er mwyn i ni allu rhannu’r arferion gorau. Rydym eisoes wedi gallu dangos gwaith Hywel Dda a’i lwybr atgyfeirio ar gyfer Syndrom Tourette. Roeddem hefyd yn falch bod Aneurin Bevan a Lleisiau Gofalwyr Cymru wedi cyflwyno eu gwaith arobryn yn GIG Cymru ar gydgynhyrchu ac ailgynllunio eu llwybr niwroddatblygiadol. Bydd astudiaethau achos o’r gwaith hwn ar gael ac yn cael eu rhannu ar draws gwasanaethau ar gyfer dysgu pellach.

Mae pob rhanbarth yn mynd i’r afael â rhestrau aros ac yn creu cyfleoedd ar gyfer ymyrraeth gynnar drwy adolygu llwybrau atgyfeirio. Cefnogir y gwaith hwn gan Dîm Perfformiad a Sicrwydd Gweithrediaeth y GIG, sydd wedi cwblhau darn sylweddol o waith i ddeall y rhwystrau a’r heriau o ran lleihau amseroedd aros. Bydd gweithredu

eu hargymhellion yn y Flwyddyn Newydd yn sbarduno gwelliannau i wasanaethau yn 2024-25. Bydd rhanbarthau'n gallu ail-lunio gwasanaethau presennol neu ddatblygu gwasanaethau newydd ar sail yr argymhellion hyn.

Byddwn yn parhau i gefnogi a datblygu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig llwyddiannus a'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni ein nodau gwella. Mae'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol wedi sefydlu swydd Swyddog Datblygu Niwrowahaniaeth Cymorth i Deuluoedd yn benodol i ddatblygu adnoddau ychwanegol ar gyfer teuluoedd â phlant niwrowahaniaeth.

Ochr yn ochr â hyn i gyd, byddwn yn gweithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i weithredu canfyddiadau'r adolygiad o weithrediad y Cod Ymarfer Awtistiaeth i gryfhau'r gwaith o ddarparu gwasanaethau ymhellach, a sicrhau cydymffurfedd â dyletswyddau. Bydd ail gam y gwerthusiad i sicrhau gwell cydymffurfedd ar lefel ranbarthol, sef ei gam olaf, yn dechrau yn ystod haf 2024.

Iechyd Meddwl

Byddwn yn parhau i glustnodi cyllid iechyd meddwl ar gyfer y GIG ac mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys £800m ar gyfer hyn. Mae'r gyllideb hon yn cefnogi gwasanaethau ar draws yr ystod oedran, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl i blant a'r glasoed.

Rydym hefyd yn buddsoddi £2.2m yn flynyddol yng Ngweithrediaeth y GIG i ddatblygu Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl a Rhaglen Diogelwch Cleifion. Bydd hyn yn darparu adnodd penodol i GIG Cymru i sbarduno gwelliannau mewn perfformiad, ansawdd a diogelwch, a bydd yn cynnwys ffocws ar blant a phobl ifanc drwy Rwydwaith Clinigol. Bydd y gwaith hwn yn parhau i gefnogi byrddau iechyd i fodloni safonau amseroedd aros ar sail gynaliadwy ac i leihau amrywiadau drwy fanyleb gwasanaethau CAMHS.

Byddwn yn cyhoeddi ein strategaeth iechyd meddwl ddrafft yn gynnar yn y flwyddyn newydd, ac mae'r amseru'n ein galluogi i gael rhagor o eglurder ynghylch ein cyllidebau ar gyfer 2024-25 ac yn rhoi cyfle i ni fyfyrio ar ymrwymiadau newydd,

ymrwymiadau trawslywodraethol ac aml-sector sy'n sail i'n strategaethau i sicrhau ei bod yn dal yn bosibl eu cyflawni yn yr amgylchiadau ariannol heriol.

Rydym wedi datblygu'r strategaeth gyda'r ddealltwriaeth y bydd angen ffordd o bennu blaenoriaethau, sicrhau'r defnydd gorau o'r adnoddau presennol a chyfle i fod yn glir ynghylch yr hyn y gellir ei gyflawni'n realistig. Mae hyn wedi cynnwys ystyried gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl ac mae'n cynnwys ffocws ar gefnogi iechyd meddwl amenedigol a'r berthynas rhwng rhieni a babanod. Ochr yn ochr â'r strategaeth gyhoeddedig, bydd cynllun cyflawni wedi'i gostio a fydd yn cael ei adnewyddu dros oes y strategaeth. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ddarparu rhagor o fanylion am y gwaith sydd ei angen i gefnogi'r strategaeth ac i nodi buddsoddiadau newydd pe bai'r sefyllfa economaidd yn newid.

Yn ystod y cyfnod hwn o gyfyngiadau ariannol, rydym wedi gweithio'n galed i gefnogi buddsoddiad parhaus mewn iechyd meddwl, ac rydym yn parhau i flaenoriaethu iechyd meddwl fel maes sydd angen y buddsoddiad hwn, felly nid oes gostyngiad wedi'i wneud i ddyraniadau byrddau iechyd.

Camddefnyddio Sylweddau

Fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25, byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein hagenda camddefnyddio sylweddau sy'n werth cyfanswm o £69 miliwn. Mae dros £41 miliwn o hyn yn mynd i'n Byrddau Cynllunio Ardal drwy ein Cronfa Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau.

Drwy'r Gronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau i Fyrddau Cynllunio Ardal, mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £5.25 miliwn o arian wedi'i glustnodi ar gyfer plant a phobl ifanc.  Yn sgil y cynnydd yn y galw am gymorth, **yn 2024-25 bydd y gyllideb hon yn codi £1 miliwn arall i £6.25 miliwn**.

Cyn bo hir, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc (disgwylir dechrau 2024). Mae'r Fframwaith yn crynhoi tystiolaeth a'r arferion gorau i arwain y rhai sy'n cefnogi Plant a Phobl Ifanc sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau. Byddwn hefyd yn cyhoeddi

fersiynau sy’n addas i blant o’r Fframwaith.

Y Gwasanaeth Di-waith

Gan adeiladu ar lwyddiant a gwersi’r Gwasanaeth Di-waith a oedd yn cael ei ariannu gan Ewrop rhwng 2016 a 2022, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Gwasanaeth Di-waith olynol i helpu pobl sy’n adfer ar ôl camddefnyddio sylweddau a/neu salwch meddwl.  Prif amcan y gwasanaeth yw helpu cyfranogwyr i gael cyflogaeth (cyfranogwyr 25 oed neu hŷn) neu i mewn i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (cyfranogwyr nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant 16-24 oed). Dechreuodd y gwasanaeth newydd ym mis Hydref 2022 ac mae dros 900 o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed wedi cofrestru ac wedi cael cymorth gan y gwasanaeth erbyn mis Medi 2023.

Bydd y gyllideb ar gyfer darparu’r gwasanaeth hyd at fis Mawrth 2025 dros £13 miliwn (£2.64 miliwn yn 2022-23 a £5.4 miliwn yn 2023-24 a 2024-25) a’i nod yw rhoi cymorth i hyd at 10,000 o bobl, gan gynnwys 3,000 o bobl ifanc ledled Cymru.

Bydd y Gwasanaeth Di-waith yn cyflawni nifer o ymrwymiadau strategol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â rhoi cymorth i bobl sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau a/neu iechyd meddwl, nid yn unig drwy driniaeth strwythuredig a gofal iechyd, ond drwy amrywiaeth o fesurau eraill hefyd.  Mae hyn wedi’i nodi mewn amrywiaeth o strategaethau allweddol gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach – Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau, a’r Warant i Bobl Ifanc.

Fepio

Ym mis Gorffennaf 2022, fe wnaethom gyhoeddi ein strategaeth Tybaco newydd *Cymru Ddi-fwg*, lle roeddem wedi nodi ein huchelgais i Gymru fod yn ddi-fwg erbyn 2030. Mae’n nodi tair thema y byddwn yn eu defnyddio i lywio ein gweithredoedd. Un o’r rhain yw Cenedlaethau’r Dyfodol. Tuag at Gymru Ddi-fwg 2022-2024 yw’r cynllun cyflawni dwy flynedd cyntaf sy’n nodi ein camau gweithredu a fydd yn cyfrannu at wireddu’r weledigaeth hon. Bydd ein cynlluniau’n helpu pawb yng Nghymru i fyw mewn cymdeithas lle mae bod yn ddi-fwg yw’r norm.

Wrth fwrw ymlaen â'n strategaeth rheoli tybaco, *Cymru Ddi-fwg*, rydym wedi ei gwneud yn glir ein bod yn bwriadu gweithio'n agos gyda'r bobl y mae tybaco yn effeithio arnynt, gan gynnwys pobl ifanc, i ddeall eu cymhellion dros ysmygu neu dros ddefnyddio e-sigarennau, a pha ymyriadau a dulliau cyfathrebu fydd yn gweithio, er enghraifft mewn lleoliadau addysg. Er bod tystiolaeth bod fepio yn llai niweidiol nag ysmygu tybaco ac y gellir ei ddefnyddio fel adnodd rhoi'r gorau i ysmygu, mae ein neges yn glir. Os nad ydych chi'n fepio, peidiwch â dechrau.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei blaenoriaethau polisi newydd ar dybaco a dyfeisiau fepio ym mis Ebrill 2023. Roedd hyn yn cynnwys lansio galwad am dystiolaeth ar fepio ymysg pobl ifanc i nodi cyfleoedd i leihau nifer y plant sy'n cael gafael ar gynnyrch fepio a'u defnyddio – ac archwilio lle gall y llywodraeth fynd ymhellach. Ar 4 Hydref 2023, gwnaeth y Prif Weinidog gyhoeddiad i fynd i'r afael â'r niwed a achosir gan ysmygu ac i leihau'r cynnydd mewn fepio ymysg pobl ifanc. Roedd y cynigion polisi a gyhoeddwyd yn cynnwys newid i'r gyfraith i gynyddu'r oedran gwerthu i sicrhau na fydd plant sy'n troi'n 14 oed neu'n iau eleni byth yn gallu prynu sigarennau yn gyfreithlon. Hefyd, ymgynghori ar fesurau i leihau apêl ac argaeledd fêps i blant er mwyn lleihau'r cynnydd mewn fepio ymysg pobl ifanc.

Cyhoeddwyd y Bil Tybaco a Fêps yn ffurfiol yn Araith y Brenin yn ystod agoriad swyddogol Senedd y DU ar 7 Tachwedd 2023. Daeth yr ymgynghoriad 'Creating a smokefree generation and tackling youth vaping' i ben ar 7 Rhagfyr. Cafwyd dros 25,000 o ymatebion ac mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i'w dadansoddi. Rydym yn disgwyl i'r ymateb i'r ymgynghoriad gael ei gyhoeddi erbyn 18 Ionawr 2024.

<u>Dechrau'n Deg</u>

Dylai pob plentyn a theulu sy'n gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg gael eu rhaglen o ymweliadau iechyd a gwasanaethau iechyd eraill a ddarperir gan y rhaglen gan dîm iechyd Dechrau'n Deg.

Mae'r rhaglen iechyd Dechrau'n Deg yn pennu rhaglen uwch o ymyriadau y dylid ei darparu i holl deuluoedd Dechrau'n Deg. Gall teulu sy'n elwa ar wasanaethau iechyd Dechrau'n Deg ddisgwyl cynifer â saith 'cyswllt' ychwanegol gan eu hymwelydd

iechyd. Mae hybu negeseuon allweddol ynghylch iechyd y cyhoedd a ffordd iach o fyw yn rhan allweddol o gymorth iechyd ychwanegol Dechrau'n Deg sy'n cael ei gynnig gan ymwelwyr iechyd a'r gweithlu ehangach.

Iechyd y Cyhoedd

Mae amrywiaeth o strategaethau gwella iechyd sy'n cefnogi iechyd a llesiant plant a phobl ifanc yng Nghymru, gan gynnwys ein Strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach a'n Strategaethau Rheoli Tybaco. Mae'r ddau'n cymryd camau penodol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys cefnogi cynlluniau peilot i blant a theuluoedd drwy Pwysau Iach: Cymru Iach, cefnogi'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, a chymryd camau i leihau ysmygu yn ystod beichiogrwydd ac i leihau nifer y bobl ifanc sy'n fepio ac yn ysmygu.

Pwrpas craidd Iechyd Cyhoeddus Cymru yw cefnogi gwell iechyd a llesiant, lleihau anghydraddoldebau iechyd a chynyddu disgwyliad oes iach i bawb yng Nghymru, nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae hyn yn cynnwys gwaith i gefnogi pobl ifanc, boed hynny drwy gefnogi rhaglenni brechu a mesur plant, neu'r Rhwydwaith Ysgolion Hybu Iechyd. Mae hyn yn rhan o'u dyraniad cyllideb craidd ar gyfer 2024-25.

Brechu

Mae pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yn cael brechiadau fel rhan o'r amserlen arferol. Mae cyllid ar gyfer y rhaglen hon yn rhan o ddyraniadau craidd y byrddau iechyd, a byrddau iechyd sy'n gyfrifol am weithredu'r amserlen.

Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion

Rydym yn parhau i fuddsoddi yn y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion. Yn 2021/22, cymerodd 202 (95%) o ysgolion ran yn yr Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr uwchradd, i fyny o 198 yn 2019/20. Cafodd yr arolwg ei lenwi gan gyfanswm o 123,204 o fyfyrwyr ym mlynyddoedd 7 i 11 (cyfradd ymateb o 75%), sef yr ymateb mwyaf i'r arolwg hyd yma.

Yn 2022-23, roedd y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion wedi treialu ehangu i ysgolion cynradd, gyda'r Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr cyntaf yn cael

ei gynnal ar gyfer blynyddoedd 3-6, gan adeiladu ar beilot 2021 a oedd yn cynnwys blwyddyn 6 yn unig. Roedd cyfanswm o 354 (29%) o ysgolion wedi cymryd rhan, a llenwodd 32,606 (23%) o fyfyrwyr yr adolygiad.

Mae cyllid dangosol ar gyfer y flwyddyn nesaf o tua £400k o'r Gyllideb Gwella Iechyd wedi cael ei ddyrannu i gefnogi datblygiad parhaus y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion i roi data lefel poblogaeth i ni, er mwyn llywio ein dulliau iechyd y cyhoedd o wella iechyd a llesiant plant a phobl ifanc.

Strategaeth Gordewdra

Ein Strategaeth *Pwysau Iach: Cymru Iach* yw ein strategaeth hirdymor i fynd i'r afael â gordewdra a gorbwysau. Ar hyn o bryd rydym yn datblygu'r cynllun cyflawni a fydd yn cwmpasu 2024-2026. Bydd cyfanswm o £6.9m i gefnogi'r cynllun yn 2024-25. Yn benodol, rydym yn buddsoddi £2.9m i barhau i ddarparu'r llwybr rheoli pwysau Cymru gyfan. Rydym hefyd wedi dyrannu £600k i Iechyd Cyhoeddus Cymru i barhau i gefnogi Cynlluniau Peilot Plant a Theuluoedd am flwyddyn arall, sy'n cael eu cynnal mewn tair ardal – Caerdydd, Merthyr Tudful ac Ynys Môn. Rhan graidd o'r dull hwn yw gweithredu Ymyriadau yn y Cartref, sy'n ddull atal eilaidd ar gyfer teuluoedd â phlant yn y blynyddoedd cynnar, rhwng 3 a 7 oed, sy'n cyd-fynd â'r cyfnod sylfaen.

Ar ben hynny, mae'r Gronfa Atal a'r Blynyddoedd Cynnar yn gyfanswm o £6.85m ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-25 ac mae'n cael ei buddsoddi gan Fyrddau Iechyd Lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi ymyriadau'n benodol ym meysydd polisi gordewdra a thybaco, yn unol â'n strategaethau Pwysau Iach: Cymru Iach a Thybaco.

## 8. Costau byw

**Cais 8**

- **Byrddau Iechyd:** Darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc gan y Byrddau Iechyd yng Nghymru ac effaith costau cynyddol ynni ar y ddarpariaeth hon.
- **Gwasanaethau Cymdeithasol:** Polisi a goruchwyliaeth ar ddarpariaeth holl weithgareddau gwasanaethau cymdeithasol Awdurdodau Lleol yng Nghymru ac unrhyw drafodaethau cysylltiedig gyda'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol.
- **Tlodi plant:** Manylion pa drafodaethau sydd wedi'u cynnal gyda Gweinidogion perthnasol eraill ynghylch dyraniadau sy'n cael effaith sylweddol ar iechyd a gofal cymdeithasol plant, er enghraifft y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol o ran cyllideb Comisiynydd Plant Cymru a materion polisi ehangach, fel tlodi plant.

**Ymateb**

Byrddau Iechyd

Yn yr un modd â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, mae'r pwysau ar gostau ynni wedi bod yn her sylweddol i'r GIG yn 2023-24. Bydd y cyllid ychwanegol a roddir i'r GIG eleni yn darparu ar gyfer pwysau costau ynni uwchben y lefelau a gynlluniwyd. Ar gyfer 2024-25, bydd y cyllid ychwanegol hwn yn cael ei ddefnyddio fel llinell sylfaen a'i ychwanegu at brif ddyraniad y GIG.

Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae'r rhan fwyaf o gymorth ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau plant yn cael ei ddarparu drwy'r setliad refeniw llywodraeth leol heb ei neilltuo, er bod ffrydiau cyllid grant penodol sylweddol hefyd. Roedd cynnydd o 7.9% yn y setliad Llywodraeth Leol ar gyfer 2023-24, ar ôl cynnydd o 9.4% yn y flwyddyn ariannol flaenorol.  Lefel y cymorth ar gyfer 2024-25 yw £5.688bn, cynnydd o 3.1%. Bydd Awdurdodau Lleol wedi gweld cynnydd sylweddol o ran chwyddiant a'r galw ar draws ehangder eu swyddogaethau yn 2023-24, a bydd cyfran sylweddol ohonynt yn cael eu defnyddio fel llinell sylfaen gan eu bod yn ymwneud â chostau staff boed yn fewnol neu drwy wasanaethau a gomisiynir. Mae

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ar ran llywodraeth leol, yn darparu ei hasesiad o'r pwysau, y blaenoriaethau a'r cyfleoedd i awdurdodau lleol bob blwyddyn i'w trafod gan yr Is-grŵp Cyllid [Cyfarfod yr Is-grŵp Cyllid: 25 Hydref 2023 | LLYW.CYMRU]. Bydd Awdurdodau Lleol hefyd yn ystyried lefel y dreth gyngor y mae pob un yn dymuno ei gosod ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Bydd Awdurdodau Lleol yn pennu eu cyllidebau eu hunain ar gyfer pob gwasanaeth cyn 10 Mawrth 2024. Mae manylion gwariant awdurdodau lleol fesul gwasanaeth yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol Gwariant refeniw ac alldro cyfalaf awdurdodau lleol: Ebrill 2022 i Fawrth 2023 | LLYW.CYMRU. Y duedd dros y blynyddoedd diwethaf yw bod gwasanaethau cymdeithasol ac addysg yn cael cyfran gynyddol o gyfanswm gwariant refeniw awdurdodau lleol, gyda gwasanaethau cymdeithasol wedi gweld y cynnydd mwyaf mewn gwariant yn 2022-2023. Nid yw ffigurau alldro ar gael ar gyfer 2023-2024 tan haf 2024, ond roedd y cynnydd a gyllidebwyd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer 2023-2024 yn gynnydd o dros 11% ar gyfer gwariant gwasanaethau cymdeithasol (h.y. i £2.653bn).

Tlodi Plant

Mae trafodaethau wedi'u cynnal yn rheolaidd gyda'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol o ran effaith gyfunol gwneud penderfyniadau ar dlodi plant. Ym mis Ionawr, mis Ebrill a mis Tachwedd, cynhaliwyd cyfarfodydd cabinet a oedd yn canolbwyntio ar dlodi plant, gan gynnwys yr angen i ystyried y potensial ar gyfer effeithiau cronnus ar benderfyniadau rhaglenni a chyllidebol.

Ym mis Mai 2023, cynhaliwyd trafodaethau Gweinidogol Dwyochrog yn atgyfnerthu ymrwymiad y Cabinet i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb plant ar draws llywodraeth fel sbardun canolog ar gyfer cyllidebau a datblygu polisi.

Y Gweinidogion Cyfiawnder Cymdeithasol a Gweinidog y Gymraeg ac Addysg sy'n gyfrifol am gyllidebau ein comisiynwyr statudol.

## 9. Costau deddfwriaeth

**Cais 9**

- Goblygiadau ariannol neu'r rhai a ragwelir yn 2022-23 a 2023-34 ar gyfer unrhyw is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc ym mhortffolio'r Gweinidog.
- Gwybodaeth am effaith ariannol unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol gan Senedd y DU.

**Ymateb**

Nid oes is-ddeddfwriaeth yn ymwneud â chostau perthnasol wedi'i nodi.

# Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**ROE 06**
**Ymateb gan: Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) Cymru**
**Response from: National Association of Head Teachers Union (NAHT) Cymru**

# Consultation questions

1. How important is outdoor education to children and young people's overall education and development?

- ☒ Very important
- ☐ Quite important
- ☐ Don't know
- ☐ Not very important
- ☐ Not at all important

2. What are the main benefits to children and young people from having a residential outdoor education experience? Please list your top three benefits:

Residential outdoor education gives young people the opportunity to develop independence and learn new creative skills through teamwork and through pushing themselves.

There are many benefits which will vary depending on the individual child, so for a suggested top three, I propose:

- Learning independence and resilience creatively in a new and fun but challenging environment.
- Developing practical teamworking skills and broadening awareness of other children's backgrounds and culture in real time.
- Learning more about themselves as individuals, developing a sense of identity and how to face challenges and taking risk within a safe, controlled environment.

3. Should children and young people have a guaranteed opportunity to participate in a residential outdoor education experience, at some stage during their school years, if they wish to?

- ☐ Yes
- ☐ No
- ☒ Don't know

4. Should an opportunity to participate in a residential outdoor education experience, at some stage during their school years, be free of charge on one occasion to pupils?

- ☐ Yes
- ☒ No
- ☐ Don't know

5. What are the main barriers which you believe currently exist to children and young people accessing residential outdoor education experiences? (please tick all that apply)

- ☒ Financial constraints
- ☒ Health reasons
- ☒ Disabilities
- ☒ Additional Learning Needs
- ☒ Parental anxiety/uncertainty
- ☒ Child anxiety/uncertainty
- ☐ Other (Please state)
- ☐ None

6. Equalities considerations:

Could the proposed Bill have any positive impacts on some children and young people in particular? If so, who and why?

If new, earmarked funding were available to support a guaranteed outdoor experience to young people, they would be able to benefit from the developmental opportunities and richly rewarding group activities available to them.

That outdoor education would offer benefits to the vast majority of young people is not the issue.  It is the opportunity cost that providing a fully-funded week of outdoor education to every child in Wales once in their school career, when overall education funding is scarce and is so desperately needed in the school system to ensure that schools are able to provide sufficient, qualified staff to teach those children and to provide sufficient classroom equipment and resources.

Could the proposed Bill have any negative impacts on some children and young people in particular. If so, who and why? What could this Bill do to mitigate any negative impacts?

The Bill's potential negative impact is that it could divert scarce funding away from where it is desperately needed in other areas of education and be required to be spent exclusively on a dedicated area, in this case outdoor education.  This limits flexibility and could lead to an inefficient allocation of scarce resources.

7. What age do you believe is most suitable for children and young people to be offered an opportunity to undertake a residential outdoor education experience?

- ☐ Year 6 (age 10-11)
- ☒ Younger (please state)
- ☐ Older (please state)

- ☐ Not at any age
  We believe that children in the 7-11 age group receive the greatest benefit from outdoor education.

8. Is four nights/five days the best length for a residential outdoor experience?

- ☐ Yes
- ☐ No
- ☒ Don't know

  Please explain your answer and highlight any possible implications from having a standard approach of four night/five day experiences (whether positive or negative).

  The right answer will of course vary from child to child and may be different for different age groups. What constitutes "best length" also depends on how you are choosing to define it, and what other constraints are in play, such as funding but also the time away from home, family and other friendship groups and from more formal schooling.

9. Do you agree there is a need for legislation to ensure all children and young people are given an opportunity to access a residential outdoor education experience, at some stage during their school years?

- ☐ Strongly agree
- ☐ Agree
- ☐ Neither agree nor disagree
- ☒ Disagree
- ☐ Strongly disagree

10. Is there anything else you would like to say about this proposal?

There are clear benefits to young people from taking part in outdoor education and we welcome the intention behind and spirit of the proposal to extend those benefits to all children of school age in Wales during their school career.

The concern that we have relates to the costs of the proposal – both direct and indirect – and the opportunity cost that choosing to fund outdoor education would have for the many competing demands on the finite and limited budget available to schools in Wales.

Firstly, fully funding the cost of five day / four night guaranteed outdoor education for every child in Wales will have a considerable cost implication. The Explanatory Memorandum to the Bill puts the direct cost just of providing education to all Year 6 pupils in Wales each year as in the region of £9.9m to £13.6m. The Explanatory Memorandum says that this funding would come from savings to spending on other (unspecified) public services.

Requiring outdoor education to be provided, rather than promoting the option of it happening, without a dedicated and ringfenced pot of "new" money for the task would by definition then drain resources out of classrooms and reduce the ability of schools to pay for dedicated teaching staff, equipment and other resources. There may also be some children for whom outdoor education may not be desirable nor the best use of limited funding, so making it a requirement would be wasteful.

In addition, there are significant cost implications relating to teaching staff. Each class of young people on an outdoor education experience will need to be accompanied by fully qualified staff members, and in greater number since the staff to pupil ratio will need to be higher, and assuming overtime is not paid to the staff who usually teach those children in the classroom.

There will also be some children who, for whatever reason, whether because the outdoor education is not suitable or appropriate to their needs, or because the children or their parents are unwilling, are not able to attend the outdoor education experience but who will still be attending school. So there would be cost implications for the additional cover staff required to provide education and care to those children.

There is potentially a twofold deficit – the loss of funding from schools to pay for the guaranteed outdoor education opportunity, and the additional cost to schools of having to provide additional staff to accompany pupils on outdoor education, as well as to provide cover for those children who have remained on the school site.

So, while we are in favour of the many benefits that outdoor education might bring, we cannot support the proposal as the ringfenced funding for it would then not be flowing through to the school system where it is so desperately needed.

**Cyflwynwyd yr ymateb hwn i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)**

**This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee on the Residential Outdoor Education (Wales) Bill**

**ROE 5**

**Ymateb gan: Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)**
**Response from: Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)**

---

1. EGWYDDORION

1.1 Gyntaf oll, hoffem gydnabod ein bod yn cytuno â'r feddylfryd sydd wrth wraidd y Bil. Nid ydym yn amau am funud fod addysg yn yr awyr agored yn gallu cyfoethogi dysgu a bod disgyblion yn elwa o dreulio amser yn dysgu yn yr awyr iach. Mae buddion gweithgareddau o'r fath wedi eu nodi – lles meddyliol a chorfforol, gwella sgiliau sylfaenol, cynyddu hyder, i enwi ond rhai.

1.2 Yn yr un modd, rydym yn cymeradwyo'r awydd i sicrhau cyfleoedd cyfartal i bob disgybl. Mae'r uchelgais hon yn un gymeradwy ac yn un y byddem fel undeb yn ei chefnogi a'i chymeradwyo. Ni ddylai'r un disgybl gael ei amddifadu o gyfleoedd oherwydd sefyllfa ariannol ei deulu.

1.3 Ymddengys hefyd fod y Cwricwlwm newydd i Gymru yn gyfle euraid i gynnwys addysg awyr agored yn rhan o gwricwlwm ysgol. Mae tipyn mwy o hyblygrwydd o fewn y cwricwlwm newydd i Gymru ac mae'r pwyslais ar 'gynefin' yn golygu y bydd gweithgareddau awyr agored yn gweddu'n berffaith i ofynion y cwricwlwm newydd.

1.4 Wrth edrych ar bedwar diben y cwricwlwm newydd i Gymru, gwelir bod addysg awyr agored breswyl yn gallu cyfrannu at gyflawni'r dibenion hynny. Byddai'n ddull o weithio gwahanol ac yn gyfle i'r sawl sy'n cael anawsterau o fewn amgylchedd ddysgu ffurfiol i ragori o fewn awyrgylch a chyd-destun cwbl wahanol.

2. GOBLYGIADAU NEWID

2.1 Mae gan ysgolion yng Nghymru draddodiad cryf o fynd i ganolfannau preswyl e.e. canolfannau'r Urdd, canolfannau awyr agored o fewn siroedd ayb, gan fwynhau gweithgareddau awyr agored, sydd yn cyfoethogi'r cwricwlwm. Y newid mwyaf y byddai'r Bil hwn yn ei gyflwyno fyddai gwneud rhywbeth sydd yn ddewisol ar hyn o bryd yn statudol. Byddai'r newid hwn i fod yn ddyletswydd statudol yn gam mawr. Ar hyn o bryd, mae gan ysgolion, awdurdodau lleol, staff, rhieni a disgyblion y dewis p'un ai ydynt am drefnu a darparu cyfnodau addysg awyr agored preswyl i ddisgyblion. Yn aml mae'r penderfyniad a ydynt yn cynnig cyfleoedd o'r fath yn

ddibynnol ar gapasiti staffio, pa mor hygyrch yw canolfannau awyr agored preswyl a chost y gweithgareddau.

2.2 O wneud gweithgareddau awyr agored preswyl yn statudol, bydd yn rhaid i rai ysgolion ddarparu gweithgareddau o'r fath. Gan nad oes oedran penodol yn cael ei nodi yn y Bil, pwy fydd yn penderfynu pa ysgolion fydd yn gwneud y gweithgareddau hyn? Pe bai disgybl yn mynd i Ysgol Gynradd A ac Ysgol Uwchradd B, byddai'n rhaid i un o'r ysgolion hynny ddarparu'r gweithgareddau awyr agored preswyl. Gallai disgybl arall yn Ysgol Uwchradd B fod wedi mynd i Ysgol Gynradd C lle'r oedd gweithgareddau awyr agored preswyl yn cael eu trefnu ac yna gallai disgybl arall o fewn yr un flwyddyn yn Ysgol Uwchradd B fod wedi mynychu ysgol gynradd Ch lle cawsant gyfle i fynychu gweithgaredd awyr agored preswyl am ddwy noson. Byddai angen darpariaeth breswyl am ddwy noson ar y disgybl hwnnw yn Ysgol Uwchradd B. Ymddengys y gallai fod tipyn o gymhlethdod i sicrhau darpariaeth i bawb ac i sicrhau nad oes yr un disgybl yn syrthio drwy'r rhwyd.

2.3 Mae budd mewn gweithgareddau eraill hefyd e.e ymweliadau tramor. Pam y rhoir blaenoriaeth i wneud addysg awyr agored breswyl yn statudol? Yn ddelfrydol, buasem yn hoffi gweld pob disgybl yn cael y cyfle i fynd ar daith dramor. Mae perygl mewn gwneud rhai elfennau addysgol yn orfodol.

3. CAPASITI A GOBLYGIADAU STAFFIO

3.1 Wrth wneud cyfnod o weithgareddau awyr agored preswyl yn statudol i bob disgybl, mae'n rhaid holi'r cwestiwn, A oes digon o gapasiti o fewn ein canolfannau awyr agored?' Mae'n siŵr y bydd rhai adegau o'r flwyddyn yn fwy poblogaidd na'i gilydd a gellir rhagweld problem wrth geisio dod o hyd i'r nifer priodol o lefydd mewn canolfannau preswyl. Byddai rhannu carfan o ddisgyblion, o fewn yr un flwyddyn ysgol, yn golygu costau ychwanegol i ysgolion, gan y byddai angen staff digonol yn yr ysgol ac yn y ganolfan breswyl.

3.2 Mae'n wir bod y Bil y nodi na fydd gorfodaeth ar ddisgyblion i gymryd rhan, ond beth am staff ein hysgolion? Nodwyd bod tua 2 allan o bob 3 ysgol wedi trefnu cwrs o'r fath yn Nghyfnod Allweddol 2 ond dim ond hanner ein hysgolion uwchradd wnaeth drefnu gweithgareddau cyffelyb. A oes gan ein hysgolion y capasiti? Faint o athrawon all fynd i ffwrdd am bedair noson a wynebu'r cyfrifoldeb o ofalu am ddisgyblion am y cyfnod hwnnw? Golyga hyn y byddant i ffwrdd oddi wrth eu teuluoedd am gyfnod go hir ac mae hefyd yn golygu y byddant 'ar ddyletswydd' i bob pwrpas am bum niwrnod a phedair noson. A fyddant yn cael tâl ychwanegol am eu gwaith? Yn draddodiadol, mae athrawon wedi cymryd rhan yn wirfoddol mewn cyrsiau preswyl ond oherwydd y gofynion cynyddol ar athrawon, mae hi'n mynd yn fwyfwy anodd cael staff sy'n barod i 'wirfoddoli' ar y cyrsiau hyn? Rydym yn sylweddoli y bydd athrawon arbenigol yn y canolfannau, er mwyn goruchwylio'r gweithgareddau, ond erys tipyn o gyfrifoldeb ar yr athrawon/cymorthyddion sy'n mynd ar y cyrsiau hyn gyda'u disgyblion. Ym mharagraff 63 y Memorandwm

Esboniadol 24 Tachwedd 2023, wrth sôn am 'ganyliadau i athrawon', nodir y buddiannau i athrawon ond nid oes sôn am y gofynion ychwanegol. Tybed a yw'r sawl sydd wedi llunio'r Bil wedi meddwl am yr heriau hyn? Mae athrawon eisoes dan bwysau mawr ac mae nifer yn gwegian o dan y straen. Bydd hyn yn ychwanegu eto at eu llwyth gwaith.

4. COSTAU

4.1 Mae gennym wir bryder y bydd cyllid ar gyfer y Bil hwn yn cael ei dynnu o gyllidebau craidd ysgolion. Teimlwn fod yna gymaint o bethau y mae angen cyllid ar eu cyfer ar hyn o bryd ac mae cyllidebau awdurdodau lleol yn cael eu tocio. Mae gwir berygl y gallai hyn arwain at golli staff ac fel undeb athrawon, byddem yn gwrthwynebu hynny'n llwyr. Mae cymaint o newidiadau yn digwydd yn ein hysgolion ar hyn o bryd, tybed a yw hi'n amserol rhoi pwysau ychwanegol ar athrawon ac ysgolion ar hyn o bryd?

4.2 Ym mharagraff 265 y Memorandwm Esboniadol 24 Tachwedd 2023 , rhestrir y meysydd y bydd costau yn gysylltiedig â nhw. Nid oes unrhyw sôn am gostau staff ategol. Mae angen edrych o'r newydd ar y gost o ran staffio. Ni ddylai taith o'r fath osod pwysau ychwanegol ar y staff fydd yn mynychu'r canolfannau preswyl na chwaith ar y rhai fydd ar ôl yn yr ysgol. Rhaid rhoi ystyriaeth faint y bydd yn ei gostio i dalu goramser i'r rhai sy'n goruchwylio a hefyd i ddod o hyd i staff cyflenwi.

4.3 Mae'n bwysig sicrhau bod darpariaeth ar gyfer pob disgybl waeth beth fo ei gyflwr e.e. pwy sy'n gyfrifol am ofalu am ddisgyblion sydd â chyflyrau arbennig – a fydd darpariaeth gyllidol ar gyfer anghenion o'r fath?

4.4 Wrth feddwl am y costau sydd ymhlyg wrth y Bil hwn, cofiwn am yr hyn a nodwyd yn y gyllideb ddrafft a gyhoeddwyd ar 19 Rhagfyr:

*'Am yr ail flwyddyn yn olynol, nid yw ein setliad ariannu yn ddigonol i ymateb i'r pwysau eithriadol sydd ar Gymru, gan gynnwys chwyddiant sy'n parhau'n uchel, pwysau costau byw sy'n dal i effeithio ar bobl a busnesau a chodiadau cyflog heb eu hariannu yn y sector cyhoeddus. Nid yw ychwaith yn ddigonol i gydnabod y galw cynyddol am wasanaethau. …..Dyma flwyddyn olaf cyfnod yr Adolygiad Gwariant tair blynedd; blwyddyn olaf pan fo llai o gyllid ar gael i gyflawni ein holl ymrwymiadau statudol, heb sôn am ein blaenoriaethau a'n Rhaglen Lywodraethu uchelgeisiol…… Wrth wneud y Gyllideb Ddrafft hon, bu'n rhaid inni wneud penderfyniadau eithriadol o anodd – y rhai mwyaf cyfyng a phoenus ers datganoli. Nid yw hi wedi bod yn flwyddyn arferol; nid ydym wedi cael toreth o ddewisiadau cadarnhaol o'n blaenau ynglŷn â ble y gallwn dargedu buddsoddiadau cynyddol ac ychwanegol.'*

4.5 Wrth drafod y modd yr amddiffynnwyd ac y diogelwyd 'cyllid ysgol', nodwn y geiriau 'cyn belled â phosibl' a hefyd y frawddeg ddilynol 'Ni fu modd osgoi'r holl effeithiau ar bobl ifanc,' yna mae'n rhaid gofyn y cwestiwn 'A oes arian ar gael i'w

fuddsoddi mewn cynllun uchelgeisiol a chostus o'r math hwn?' Rydym yn pryderu y byddai ariannu cynllun o'r fath yn golygu y bydd arian yn cael ei docio mewn mannau eraill. Mae cyllidebau ysgol yn dynn ar hyn o bryd. Mae'n anodd ariannu'r hyn sydd eisoes yn cael ei ddarparu heb sôn am ystyried ariannu mentrau newydd.

5. CYFARPAR

5.1 Nodir nad yw pob disgybl yn manteisio ar y cyfleoedd a gynigir iddynt ar hyn o bryd. Mae'n dra phosibl mai cost y cyrsiau hyn sy'n gyfrifol pam nad yw rhai disgyblion yn mynychu'r cyrsiau. Fodd bynnag, nid yw costau cyrsiau o'r fath wedi eu cyfyngu i gost y cwrs ei hun a'r cludiant i'r cwrs. Er mwyn sicrhau bod disgyblion difreintiedig yn gallu cael mynediad at y gweithgareddau preswyl, bydd angen sicrhau nad oes angen iddynt brynu cyfarpar penodol ar gyfer y gweithgareddau. Mae prynu pâr ychwanegol o esgidiau, cot law neu sach gysgu, yn mynd i fod yn feichus i rai teuluoedd.

6. NATUR Y GWEITHGAREDDAU

6.1 Beth yn union a olygir wrth weithgareddau awyr agored? Rhaid cofio bod cryn amrywiaeth e.e. nid yn unig mae gweithgareddau 'mentrus', megis dringo, abseilio ayb, ond a yw gweithdai Celf yn yr awyr agored, gweithgareddau cyfeiriannu ayb yn cyfrif? A yw gweithgareddau mewn gwersyll fel Gwersyll yr Urdd Llangrannog yn cyfrif?

7. Y GYMRAEG

7.1 Rydym yn croesawu'r sylw a roddir i'r Gymraeg a'r orfodaeth i ddarparu yn y Gymraeg ond nid ydym yn croesawu'r amodau 'cyn belled â'i bod ar gael, pan fo ysgol yn gwneud cais am hynny'. Dylid sicrhau bod darpariaeth o'r fath ar gael yn y Gymraeg i bawb a dylid annog ysgolion cyfrwng Saesneg i gyfuno addysg awyr agored gyda chyfleoedd i wneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylid hefyd ddefnyddio'r cyfle i ddysgu am ddiwylliant a chyd-destun ardaloedd amrywiol yng Nghymru. Mae'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn cynnig cyfleoedd gwych ar gyfer yr elfennau hyn.

8. OLRHAIN

8.1 Er mwyn sicrhau bod pob disgybl wedi cael y cyfle i fynychu cwrs awyr agored preswyl, bydd angen system olrhain gydnerth a bydd angen cryn gydweithio rhwng awdurdodau lleol a rhwng ysgolion. Ymddengys y gallai'r broses fod yn un gymhleth ac y gallai unigolion gwympo drwy'r rhwyd. A roddwyd ystyriaeth i gost system effeithiol a hefyd y llwyth gwaith biwrocrataidd ychwanegol?

9. ADY

9.1 Bydd hi'n bwysig sicrhau bod gan ddisgyblion ADY yr un cyfleoedd i gael mynediad at addysg awyr agored breswyl â phob disgybl arall. Nodir ym mharagraff 78 y

Memorandwm Esboniadol (24 Tachwedd 2023) bod rhai darparwyr arbenigol ar gyfer disgyblion ADY. A roddwyd ystyriaeth i ddarpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg?

9.2 Wrth feddwl am ddarparu gweithgareddau fel hyn i bawb, mae ystod o anghenion y bydd yn rhaid mynd i'r afael â nhw. Bydd yn rhaid cwmpasu anableddau corfforol, anableddau dysgu, heriau iechyd meddwl, cyflyrau iechyd o bob math.

10. UNEDAU CYFEIRIO

10.1 Nodir yn y Bil bod yr hawl i gael addysg awyr agored breswyl yn berthnasol i ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir yn unig ac felly nid yw'n cynnwys disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, er enghraifft mewn unedau cyfeirio disgyblion. Tybed a fyddai eu hamddifadu o gyfleoedd fel hyn yn creu mwy o broblemau?

11. LLEOLIAD

11.1 Pwy fydd yn penderfynu i ba ganolfan y bydd ysgol yn mynd? A fydd pellter y ganolfan o'r ysgol yn cael effaith ar gostau? A fydd yn rhaid i ysgolion fynd i'r ganolfan agosaf? Os felly, a fydd tegwch cyfleoedd i ddisgyblion yn hyn o beth?

11.2 Cofiwn fod y Bil yn nodi 'y darperir ar gyfer costau y mae'n rhesymol mynd iddynt, gan gynnwys costau bwyd a llety a chludiant.' Oni ddylid bod yn fwy penodol? A fydd disgyblion yn cael yr hawl i deithio i ble bynnag y mynnant o fewn Cymru neu y tu hwnt i Gymru? Bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar gost y fenter.

11.3 A fydd yn rhaid i'r gweithgareddau ddigwydd yng Nghymru? Teimlwn y dylid sicrhau bod elfen Gymreig ynghlwm wrth bob ymweliad.

12. ANSAWDD

12.1 Nodir y bydd canllawiau yn 'Nodi gofynion y mae'n rhaid eu bodloni cyn y caniateir i berson ddarparu addysg awyr agored breswyl.' Mae diogelwch yn hollbwysig o ran gweithgareddau fel hyn. Pwy fydd yn atebol am ansawdd a sicrwydd diogelwch yn y canolfannau hyn?

13. I GRYNHOI

Er ein bod yn gweld llawer o bethau canmoladwy ac anrhydeddus yn y Bil hwn, nid ydym yn teimlo fod digon o sylw wedi ei roi i'r manylion nac i'r costau. Pe bai cyflwr cyllidebau yn iach, yna byddem yn croesawu'r Bil, ond mae'r hinsawdd economaidd bresennol yn arwain at gryn amheuon o safbwynt ymarferoldeb y cynlluniau.

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7.1

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

—

**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

—

**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

14 Rhagfyr 2023

**Tystiolaeth ddiweddar gan Gomisiynydd Plant Cymru: hiliaeth a thlodi plant**

Annwyl Jenny,

Gwnaethom gynnal yn ddiweddar ein sesiwn graffu flynyddol gyda Chomisiynydd Plant Cymru. Un o'r meysydd a drafodwyd gennym oedd dylanwad y Comisiynydd. Rydym yn nodi bod eich meysydd gwaith cyfredol yn cynnwys gwrth-hiliaeth a thlodi plant. Gan hynny, mae'n bosibl y bydd tystiolaeth y Comisiynydd i ni o ddiddordeb i chi. Pan ofynnwyd iddi ar ba feysydd, yn ei barn hi, y mae ganddi'r dylanwad mwyaf, dywedodd:

> *"So, we have, probably, had most traction in relation to education issues. We've been pleased with the response so far to the racism work and earlier conversations have indicated that Government are open to our recommendations and have in fact told us that they would wait to complete their anti-bullying guidance so that they could consider the recommendations of our report, for example.*
>
> *We've also had good influence, we feel, in relation to the new attendance guidance that's been published and many of our suggestions were taken on board there, including looking at the reduced timetables and making sure that the needs of kinship carers were responded to in that document.*
>
> *We also had influence positively in the home education space recently. When I came into the role I felt that it was a very polarised issue with a lot of tension on both sides, and perhaps the different groups not necessarily coming together effectively. So, I proposed to convene a forum for home-educating parents so that they could voice their concerns and have their questions answered about the new guidance that was about to come in—it came in in April 2023. And that was*



Senedd Cymru
Welsh Parliament

*positively received by Government and, I think, was concluded to be a very beneficial exercise all round.*

*So, education on the whole is one area where we do feel that there is openness to our input. We have tried a lot to influence the poverty agenda and the child poverty strategy, which we hope to see a final version of very soon. We feel that perhaps we haven't experienced as much openness so far in that dialogue. We have convened and collaboratively very significantly with other bodies on this issue. We hosted a child poverty summit recently and we've put forward recommendations and suggestions, on which there is a great deal of consensus from other groups, and have communicated that as best we can to Ministers very regularly; so, we are hoping that the final strategy will reflect our suggestions, but it's not, you know—. So far, we don't feel as confident about having positively influenced that yet, although, you know, we've done our best."*[1]

Roeddem am dynnu eich sylw at y cyferbyniad y tynnodd y Comisiynydd sylw ato.

Ers inni gymryd y dystiolaeth hon, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei hymateb i adroddiad blynyddol y Comisiynydd. Yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, nid yw Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir a yw wedi derbyn neu wrthod pob argymhelliad. Nodwn i'r Comisiynydd, yn ystod y sesiwn graffu flynyddol, sôn am fonitro cynnydd o ran yr argymhellion hyn, gan ddweud y byddai'n cadw llygad barcud arnynt i weld a ydynt wedi cael eu derbyn,[2] gan awgrymu bod disgwyl y bydd ymateb Llywodraeth Cymru yn dilyn fformat blynyddoedd blaenorol. Mae datgan yn glir a yw argymhelliad yn cael ei dderbyn neu ei wrthod yn bwysig ar gyfer eglurder a thryloywder. Byddwn yn ysgrifennu at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ar y mater hwn hefyd.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

---

[1] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr, Cofnod y Trafodion, paragraffau 180-183

[2] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr, Cofnod y Trafodion, paragraff 188

Eitem 7.2

**Jeremy Miles AS/MS**

**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant MS
Cadeirydd Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

14 Rhagfyr 2023

Annwyl Jayne

**Diweddariad ymholiad y Pwyllgor i Aflonyddu Rhywiol Rhwng Cyfoedion Ymhlith Dysgwyr Ifanc.**

Mewn ymateb i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr, ymrwymais i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ym mis Medi 2022, ac yna bob chwe mis wedi hynny, ynghylch niferoedd a chyfrannau'r awdurdodau lleol ac ysgolion sydd ag arweinwyr Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn eu lle.

Mae gan bob gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol yng Nghymru arweinwyr Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn eu lle. Mae arweinwyr Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y gwasanaethau gwella ysgolion rhanbarthol ledled Cymru yn cynnig cefnogaeth i ysgolion ac yn darparu a chydlynu dysgu proffesiynol o ansawdd yn eu rhanbarth. Tynnodd Llywodraeth Cymru sylw at bwysigrwydd hanfodol cefnogaeth broffesiynol barhaus i bob agwedd ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn adroddiad blynyddol Cwricwlwm i Gymru ar gyfer y flwyddyn academaidd 2022/23. Yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf, bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â'n partneriaid i sicrhau cyfleoedd cynyddol i ymarferwyr gael gafael ar gymorth ac adnoddau proffesiynol sydd ar gael yn gyhoeddus ac a gaiff eu rhannu ag ysgolion a lleoliadau eraill ledled Cymru.

Mae gan ysgolion y disgresiwn i drefnu arweinyddiaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y ffordd orau i ddiwallu anghenion eu dysgwyr. Mae ysgolion yn gwneud hyn mewn amryw o ffyrdd: mae gan sawl un arweinydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb dynodedig, ac mae eraill yn arwain drwy dîm lles neu drwy'r uwch dîm arweinyddiaeth, yn arbennig mewn ysgolion llai. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf a ddaeth i law Llywodraeth Cymru yn dangos bod dros hanner yr awdurdodau lleol yn disgwyl i ysgolion arwain y maes hwn o'r cwricwlwm trwy ddynodi arweinydd penodol ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion yn yr awdurdodau lleol hyn wedi mabwysiadu'r dull hwn a dynodi arweinydd penodol.

Yn gywir

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

—

**Children, Young People and Education Committee**

—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

18 Rhagfyr 2023

**Darparu prydau ysgol am ddim yn y gwyliau**

Annwyl Jeremy,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 1 Rhagfyr am y ddarpariaeth prydau ysgol am ddim yn y gwyliau. Trafodwyd y llythyr yn ein cyfarfod ar 14 Rhagfyr.

Fel y nodasom yn ein llythyr gwreiddiol, dyddiedig 25 Hydref, rydym yn parhau'n bryderus bod y penderfyniad i roi'r gorau i ddarparu prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau'r ysgol wedi'i wneud mor agos at wyliau haf 2023, gan effeithio o bosibl ar allu eraill, fel yr awdurdodau lleol neu elusennau, i wneud darpariaeth arall.

Er ein bod yn croesawu'r cynlluniau a amlinellwyd yn eich llythyr, gan gynnwys y cynllun Bwyd a Hwyl a Phrosiect Gwyliau Gwaith Chwarae, mae'n destun pryder mai dim ond pump o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru a oedd yn gallu parhau i ddarparu prydau ysgol am ddim dros wyliau'r haf. Rydym yn deall y pwysau ariannol sylweddol y mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn eu hwynebu, a bod yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd. Wrth i'r argyfwng costau byw ddal i effeithio'n ddrwg ar deuluoedd, fodd bynnag, rydym yn pryderu na ddylai plant a phobl ifanc ysgwyddo baich yr effeithiau hynny. Mae hwn yn debygol o fod yn fater y byddwn yn ei drafod yn ystod ein gwaith craffu ar y gyllideb yn y dyfodol agos.

Nodwn adroddiad diweddar Grŵp Arbenigol Cymru ar gostau byw, a oedd yn dweud mai un o'r camau a fyddai'n helpu yn y modd mwyaf effeithiol gyda'r argyfwng costau byw oedd:

> *"...targedu ymyriadau ychwanegol tuag at y rhai sy'n profi'r caledi mwyaf."*



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Rydym yn pryderu, heb ddigon o ddata ar gyfranogiad mewn cynlluniau eraill, mae'n anodd gwybod a yw'r cynlluniau eraill hyn yn diwallu'r anghenion yr oedd y rhaglen fwy cynhwysfawr yn rhoi sylw iddynt.

Nodwn fod y Grŵp Arbenigol hefyd yn croesawu'r rhaglen Bwyd a Hwyl, a'i fod wedi galw am ymestyn y rhaglen hon i gynnwys cyfnodau gwyliau eraill yn 2023-24.[1]

1. A allwch egluro a ydych yn bwriadu ariannu'r cynllun Bwyd a Hwyl mewn cyfnodau gwyliau ysgol eraill dros 2023/24?

2. Yn eich llythyr, gwnaethoch nodi y byddai data ar lefelau cyfranogiad Bwyd a Hwyl ar gael "yn ddiweddarach yn yr hydref". A allwch egluro pryd y bydd y data hwn ar gael, ac a allwch ymrwymo i'w rhoi i'r Pwyllgor? A fydd y data hwn yn rhoi dadansoddiad o ddemograffeg y plant a'r bobl ifanc a gafodd fudd o'r cynllun hwn?

3. Rydym yn nodi eich sylwadau yn y llythyr nad yw Llywodraeth Cymru yn cadw data ar ddarpariaeth nad yw'n ei hariannu. Sut felly y gall Llywodraeth Cymru werthuso i ba raddau y mae cynlluniau disodli yn diwallu anghenion a oedd yn cael eu diwallu'n flaenorol gan y ddarpariaeth prydau ysgol am ddim yn ystod y gwyliau? Heb y data hwn, sut y gall Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn cyflawni ei hymrwymiad nad oes unrhyw blentyn yn llwglyd, a bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cyllid cyfyngedig yn cael ei ddefnyddio fel y caiff yr effaith orau bosibl?

Gan fod gennym yr un diddordeb yn y maes, rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Byddem yn gwerthfawrogi cael ymateb erbyn 29 Ionawr 2024.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Cc: Jenny Rathbone AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

---

[1] Llywodraeth Cymru, Adroddiad Grŵp Arbenigol Cymru ar yr argyfwng costau byw, 26 Medi 2023

Rhagfyr 2023

Annwyl Jayne Bryant AS a Chadeirydd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg,

Yn dilyn llwyddiant cyfarfod llawn ddiwethaf Senedd Ieuenctid Cymru ar gyfer y tymor hwn, hoffem gymryd y cyfle yma i ddiolch i chi'n ddiffuant am eich cyfraniadau i atgyfnerthu llais pobl ifanc Cymru.

Mae'r adborth o'r penwythnos, ac o aelodau Senedd Ieuenctid Cymru wedi bod yn galonogol tu hwnt a hoffem ddiolch i chi am eich rôl blaenllaw, ynghyd â Llywodraeth Cymru, wrth sicrhau bod ein hadroddiadau yn derbyn ymateb llawn a thrylwyr.

Er mai dyma ddiwedd y tymor erbyn hyn, rydym fel Senedd Ieuenctid yn awyddus bod ein gwaith am fod yn helpu'r Llywodraeth i fynd o nerth i nerth wrth gynllunio eu strategaethau ym meysydd iechyd meddwl, teithio cynaliadwy ac am newidiadau i'r diwrnod ysgol.

Rydym yn amau'n fawr mai nad dyma yw diwedd trafod pynciau o'r fath ac o bosib welwn ni themâu tebyg yn codi yn dymor newydd y Senedd Ieuenctid flwyddyn nesaf.

Diolch unwaith eto am y cyfle i hyrwyddo ein gwaith a defnyddio ein lleisiau, ac am y cyfleoedd niferus i gyfrannu at waith y Pwyllgor, mae wedi bod yn un o uchafbwyntiau niferus ein tymor.

Diolch o waelod calon unwaith yn rhagor,

Yn ffyddlon,
Senedd Ieuenctid Cymru

Eitem 7.5

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Julie Morgan AS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

19 Rhagfyr 2023

**Eglurhad o'r camau a arweiniodd at ddod â chynllun peilot FDAC i ben ym mis Tachwedd 2023**

Annwyl Julie,

Fel y gwyddoch, mae gennym ddiddordeb penodol mewn gwaith sy'n mynd rhagddo i leihau nifer y plant sy'n dod yn rhan o'r system ofal, yn enwedig o ystyried y cynnydd sylweddol yng nghyfradd y plant hyn yng Nghymru a'r ffaith bod y cyfraddau hynny'n sylweddol uwch nag mewn mannau eraill yn y DU. Rhoddwyd sylw penodol i'r mater hwn yn ein hymchwiliad manwl a gynhaliwyd yn ddiweddar i'r diwygiadau radical sydd eu hangen ar blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Yn ystod ein hymchwiliad, cawsom gyfle i ystyried manteision model Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol Caerdydd a'r Fro (FDAC). Un o'n hargymhellion oedd y dylai Llywodraeth Cymru barhau i gyflwyno model FDAC ledled Cymru, cyhyd ag y bo cynllun peilot Caerdydd a Bro Morgannwg yn cael ei werthuso'n llwyddiannus. Roeddem yn falch eich bod wedi derbyn yr argymhelliad hwnnw.

Ers hynny, mae rhanddeiliaid wedi cysylltu â ni i fynegi pryder a siom ynghylch y ffaith bod cynllun peilot FDAC Caerdydd a'r Fro wedi dod i ben ym mis Tachwedd 2023, a'r modd y cafodd y staff perthnasol ac eraill a oedd ynghlwm wrth y cynllun wybod am y penderfyniad hwnnw.

Fe wnaethom ysgrifennu atoch ar 25 Medi i ofyn am wybodaeth am ddyfodol tymor byr a thymor hir cynllun peilot FDAC, a sut y byddai'r penderfyniad i ddod â'r cynllun i ben yn efffeithio ar blant a theuluoedd sy'n cael cymorth gan dîm FDAC.[1] Cawsom ymateb gennych, dyddiedig 16 Hydref.[2] Gwnaethom ysgrifennu hefyd at Gyngor Caerdydd ac at Gyngor Bro Morgannwg i ddeall yr hyn

[1] Senedd Cymru, 'Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Dirprwy Weinidog', 25/09/23
[2] Llywodraeth Cymru Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol 16/10/23

roeddent yn ei wneud i sicrhau dyfodol cynllun peilot FDAC yn y tymor byr a'r tymor hir.[3] Cawsom ymatebion ar 1 Tachwedd a 14 Tachwedd, yn y drefn honno, ac roeddent yn debyg iawn i'w gilydd yn eu hanfod.[4]

Mae'r ymateb a gawsom gennych chi a chan y cynghorau'n dweud bod y cynllun peilot wedi dod i ben fel y trefnwyd – ac yn ôl y disgwyl – ym mis Tachwedd 2023. Maent yn awgrymu bod y bwlch rhwng dyddiad cau'r cynllun peilot ddiwedd 2023 a chyhoeddi gwerthusiad CSCAE o'r cynllun peilot yn gynnar yn 2024 wedi'i ragweld o'r dechrau, a bod ein pryder ynghylch dod â'r cynllun peilot i ben ym mis Tachwedd 2023 yn deillio o "ddryswch" ar ein rhan ni.

Nid dryswch sy'n peri inni bryderu. Cawsom wybod ers dechrau ein hymchwiliad fod cynllun peilot FDAC i fod i ddod i ben, yn wreiddiol, ym mis Tachwedd 2023. Cawsom wybod hefyd ar ddechrau ein hymchwiliad y byddai CASCADE yn cyhoeddi ei werthusiad o'r cynllun peilot ddechrau 2024. Mae Atodiad A yn crynhoi'r wybodaeth y mae'r Pwyllgor wedi'i chael gennych chi ac eraill mewn perthynas â dod â chynllun peilot FDAC i ben, ac yn egluro'n fras ein dealltwriaeth o'r hyn a arweiniodd at y penderfyniad i ddod ag ef i ben ym mis Tachwedd 2023. Byddem yn croesawu unrhyw wybodaeth a fyddai'n egluro neu'n cywiro amseriad neu sylwedd yr hyn a amlinellir isod; byddwn yn cymryd yn ganiataol eu bod yn gywir os na fyddwn yn cael gwybodaeth i'r gwrthwyneb.

Ym mis Mawrth 2023, gwnaethoch ddweud eich bod yn ystyried sut i ymestyn y cyllid er mwyn cwblhau'r gwaith gwerthuso.[5] Ers hynny, rydych chi a'ch swyddogion wedi dweud yn glir ac yn gyson fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i FDAC, gan gynnwys rhoi sicrwydd pendant na fyddai cyfyngiadau cyllidebol yn effeithio ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r cynllun yn ehangch drwy Gymru ai peidio. Roedd y meysydd y gwnaethom holi yn eu cylch ar 14 Medi 2023 ynghylch ariannu FDAC a'i ddyfodol hirdymor, a'r ymatebion a gawsom gennych chi a'ch swyddogion ar y dyddiad hwnnw, yn rhoi digon o gyfle i chi roi eglurhad manwl o'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y bwlch ariannu ar gyfer cynllun peilot FDAC a'i oblygiadau. Ni ddigwyddodd hyn.[6]

Gan hynny, nid oedd gennym unrhyw reswm i gredu nad oedd Llywodraeth Cymru mwyach yn bwriadu darparu cyllid i ymestyn y cynllun peilot, fel roeddech wedi ymrwymo i'w wneud ym mis Mawrth 2023. Byddwch, felly, yn deall ein syndod a'n pryder pan ddywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn bwriadu dod â'r cynllun peilot i ben, a hynny dim ond ychydig ddyddiau ar ôl y sesiwn dystiolaeth ar 14 Medi.

---

[3] Senedd Cymru,'Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Gyngor Caerdydd', 25/09/23 a Senedd Cymru,'Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Gyngor Bro Morgannwg', 25/09/23

[4] Cyngor Caerdydd,'Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Peilot y Llys Teuluol Cyffuriau ac Alcohol (FDAC).', 01/11/23 a Chyngor Bro Morgannwg,'Cyllid Llywodraeth Cymru (LlC) ar gyfer Cynllun Peilot y Llys Teuluol Cyffuriau ac Alcohol (FDAC)', 16/11/23

[5] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 222

[6] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14/09/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 132-141

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb yn ysgrifenedig i'r cwestiynau isod.

## Tryloywder y dystiolaeth a gawasom gan Lywodraeth Cymru

Rydym yn gobeithio bod y dystiolaeth a gawn gan Lywodraeth Cymru yn gywir ac yn ddibynadwy. Rydym yn gresynu nad ydym yn teimlo bod hynny'n wir yn achos y penderfyniad i ddod â chynllun peilot FDAC i ben.

1. A allwch chi gadarnhau bod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn bresennol yng nghyfarfodydd Grŵp Llywio Strategol FDAC yn rheolaidd a'u bod felly'n gwybod cyn y sesiwn dystiolaeth ar 14 Medi y byddai cynllun peilot FDAC yn dod i ben (neu'n debygol iawn o ddod i ben) ym mis Tachwedd 2023 o ystyried na fyddai Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid i ymestyn y cynllun nes y gellid cwblhau'r gwaith gwerthuso?

2. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth ar 14 Medi, pam na soniwyd am y cais am gyllid i ymestyn y cynllun peilot, a'r posibilrwydd y byddai'r cais hwnnw'n cael ei wrthod, a goblygiadau hynny.

3. Cyn y sesiwn dystiolaeth ar 14 Medi, a gawsoch chi drafodaethau ag aelodau o'r farnwriaeth, a staff allweddol eraill a oedd ynghlwm wrth gynllun peilot FDAC, ynghylch eich penderfyniad i wrthod cais y cynghorau am gyllid ac i ddod â'r cynllun peilot i ben ym mis Tachwedd 2023? Os felly, pa drafodaethau oedd y rhain?

4. A ydych chi'n credu bod y modd y gwnaeth Llywodraeth Cymru ac arweinwyr y cynghorau gyfathrebu â rhanddeiliaid ynghylch dod â'r cynllun peilot i ben wedi effeithio ar ewyllys da gweithwyr proffesiynol a oedd ynghlwm wrth FDAC, gan gynnwys aelodau o'r farnwriaeth ac, os felly, a yw wedi cael effaith niweidiol ar y siawns i'r cynllun lwyddo yn y dyfodol?

## Dyfodol FDAC yng Nghymru

Rydym yn cydnabod bod lleihau cyfraddau'r plant sy'n dod yn rhan o'r system ofal yng Nghymru yn hynod gymhleth ac anodd. Ar sail y dystiolaeth a ddaeth i law, mae model llys yr FDAC yn un o nifer gymharol fach o gynlluniau y rhoddwyd cynnig arnynt i gadw teuluoedd gyda'i gilydd ac y gwelwyd eu bod yn effeithiol, ac yn fuddiol i deuluoedd a gwasanaethau statudol fel ei gilydd. Felly, rydym o'r farn bod cyflwyno FDAC yn ehangach ledled Cymru yn gyfle allweddol i atal plant rhag dod yn rhan o'r system ofal gan beri iddynt hwy a'u teuluoedd, o bosibl, wynebu profiadau annerbyniol yn y system ofal a'r cylchoedd gofal creulon a nodwyd yn ein hadroddiad. Byddwn yn hynod siomedig os caiff y cyfle hwn ei golli.

5. A ydych yn dymuno newid neu ychwanegu at eich ymateb i'r argymhelliad yn ein hadroddiad a oedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i gyflwyno'r model FDAC ledled Cymru, yn amodol ar werthusiad llwyddiannus o'r cynllun peilot?

*Os ydych wedi ymwrymo o hyd* *i gyflwyno cynllun peilot FDAC yn ehangach yn amodol ar werthusiad llwyddiannus:*

a. Sut y bydd y penderfyniad i wrthod cais yr awdurdodau lleol am gyllid i ymestyn y cynllun peilot hyd nes y bydd y gwerthusiad wedi'i gyhoeddi yn effeithio ar y broses o gyflwyno'r cynllun peilot ledled Cymru yn yr hirdymor? Er enghraifft, a yw'n realistig meddwl y gellid ailddechrau FDAC o ystyried bod y staff wedi cael gwybod y bydd eu swyddi'n cael eu dileu?

*Os nad ydych wedi ymrwymo mwyach* *i gyflwyno cynllun peilot FDAC yn ehangach yn amodol ar werthusiad llwyddiannus:*

a. Pam nad yw Llywodraeth Cymru mwyach yn gefnogol i'r syniad o gyflwyno FDAC yn genedlaethol?

b. A fydd Llywodraeth Cymru yn gwneud unrhyw beth i helpu plant i aros gyda'u teuluoedd, yn lle cefnogi'r syniad o gyflwyno FDAC? Os felly, beth y mae am ei wneud?

6. Pam benderfynodd Llywodraeth Cymru beidio â chymeradwyo'r cais gan gynghorau Caerdydd a Bro Morgannwg i ddarparu cyllid i ymestyn y cynllun peilot FDAC nes byddai CASCADE yn cwblhau ei waith gwethuso? I ba raddau y gwnaed y penderfyniad hwnnw oherwydd nad oedd cyllid tymor hwy o fis Ebrill 2024 yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth?

7. A fydd y penderfyniad i ddod â'r cynllun peilot i ben ym mis Tachwedd 2023, a/neu'r ansicrwydd ynghylch a fyddai'n cael ei ymestyn, yn cael unrhyw effaith ar allu CASCADE i gynnal gwerthusiad cadarn o'r cynllun peilot at ddibenion asesu a ddylid ei gyflwyno ledled Cymru?

Rwy'n sylweddoli bod hwn yn gyfnod eithriadol o brysur i Lywodraeth Cymru. Byddwn, fodd bynnag, yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn dydd Iau 22 Chwefror fan bellaf, fel y gallwn ei drafod yn ystod ein cyfarfod ddydd Mercher 28 Chwefror.

Rwyf wedi anfon copi o'r ohebiaeth hon at Lywydd yr Is-adran Deuluoedd, Syr Andrew McFarlane, oherwydd ei gefnogaeth gref i ddulliau gweithredu FDAC ledled Cymru a Lloegr a'i ran yn ein gwaith yn ymwneud â phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Rwyf hefyd wedi anfon copi o'r ohebiaeth hon at y Ganolfan Arloesi ym maes Cyfiawnder, Cyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg er gwybodaeth iddynt.

Yn gywir

Jayne Bryant

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Cc: Syr Andrew McFarlane
Llywydd yr Is-adran Deuluoedd

Cc: Phil Bowen
Cyfarwyddwr y Ganolfan Arloesi ym maes Cyfiawnder

Cc: Y Cynghorydd Ash Lister
Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Caerdydd

Cc: Robert Tomas
Prif Weithredwr Cyngor Bro Morgannwg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Atodiad: Llinell amser FDAC

| | |
|---|---|
| **Gwanwyn 2023** | Y Grŵp Llywio Strategol yn gwneud **cais** am gyllid tymor byr ychwanegol o £60,000 gan Lywodraeth Cymru i ymestyn cynllun peilot FDAC nes bydd CASCADE wedi cyhoeddi ei werthusiad. (Aelodaeth y grŵp llywio yw uwch staff cyfreithiol a staff gwasanaethau plant yr awdurdodau arweiniol, Barnwr y Llys Teuluoedd, Llywodraeth Cymru, Cafcass Cymru, y Ganolfan Arloesi a rhanddeiliaid eraill.) |
| **9 Mawrth** | **Tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:**<br>Y Dirprwy Weinidog: "We are absolutely convinced of the value of the problem-solving family court model. ... It's being evaluated by CASCADE, based in Cardiff University, and they do need a bit longer, beyond the two years, to continue their evaluation, and we want to see the evaluation, really, to decide how we would go forward. So, we're looking at ways of extending the funding in order for the evaluation to be completed, and then, we will see what the evaluation says to see if we can make it serve a wider population in Wales. But, certainly, the evidence we've got so far has been very encouraging."[7] |
| **Mai** | **Argymhelliad 9 yn adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc:**<br>Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol, aelodau o'r farnwriaeth a rhanddeiliaid perthnasol eraill i gyflwyno model FDAC cyson ledled Cymru, yn amodol ar werthusiad llwyddiannus o gynllun peilot Caerdydd a Bro Morgannwg.[8] |
| **Gorffennaf** | **Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhelliad 9 yn adroddiad y Pwyllgor:**<br>"Ymateb: Derbyn<br>Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r gwerthusiad o gynllun peilot Caerdydd a Bro Morgannwg i ystyried modelau cyflawni cynaliadwy ar gyfer cyflwyno cynllun o'r fath yn genedlaethol. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol, aelodau o'r farnwriaeth a rhanddeiliaid perthnasol eraill i sicrhau bod partneriaid allweddol yn rhan o'r gwaith o gynghori ar y Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol (FDAC) yng Nghymru yn y dyfodol, a phennu eu cwmpas.<br>Goblygiadau ariannol: Oes, bydd unrhyw gostau ychwanegol yn sylweddol a bydd rhaid eu talu o gyllidebau presennol."[9] |
| **14 Medi** | **Tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:** |

[7] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 222

[8] Senedd Cymru, Os nad nawr, pryd? Galw am ddiwygiadau radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal', MAI 2023, TUDALENNAU 68-69

[9] Llywodraeth Cymru, 'Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn dwyn y teitl "Os nad nawr, pryd? Galw am ddiwygiadau radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal', Gorffennaf 2023, tudalen 9

| | |
|---|---|
| | James Evans: … With the financial situation that you outlined at the start, how confident are you that you can actually keep delivering this model, because you did say you wanted to do it, following its evaluation in January?<br><br>Y Dirprwy Weinidog: "I'm very supportive of the family drug and alcohol court. I was pleased to launch it and have had feedback from it since, and we are evaluating it… But, we, you know—as you said, these are difficult and financially difficult, challenging times, and we really have to scrutinise and prioritise where we can best put our money, given the financial situation we're in. But we'll have the evaluation and I'm hopeful we'll make, then, the right decision about how we move forward."<br><br>James Evans: "… is this one of the areas that is being looked at as a potential saving or is it on the backburner until the evaluation is done?<br><br>Y Dirprwy Weinidog: It's waiting for the evaluation. We certainly haven't looked at it as a potential saving.<br><br>James Evans: But is it being looked at now?<br><br>Y Dirprwy Weinidog: We haven't, no."[10] |
| **18 - 26 Medi** | Staff perthnasol ac aelodau'r farnwriaeth yn cael gwybod y bydd y cynllun peilot yn dod i ben ym mis Tachwedd 2023, a hynny am resymau ariannol. Caiff staff rybudd y byddant yn cael eu hadleoli neu fod eu swyddi'n cael eu dileu. |
| **25 Medi** | **Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**<br><br>Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog a Chynghorau Caerdydd a Bro Morgannwg i ofyn am eglurhad a sicrwydd ynghylch dod â chynllun peilot FDAC i ben, a hynny ar ôl i randdeiliaid rannu pryderon â'r Pwyllgor yn breifat.[11] |
| **16 Hydref** | **Llythyr gan y Dirprwy Weinidog at y Pwyllgor:**<br><br>"Rwy'n cydnabod pryderon y Pwyllgor ynghylch ein penderfyniad i beidio â darparu cyllid ychwanegol i ymestyn y peilot am flwyddyn arall.  Hoffwn eich sicrhau nad yw'r cyllid ar gyfer y peilot wedi cael ei leihau, a bod y prosiect wedi cyrraedd ei ddiwedd fel y trefnwyd ar gyfer mis Tachwedd 2023."[12] |
| **1 ac 14 Tachwedd** | **Llythyrau gan gynghorau Caerdydd a Bro Morgannwg**<br><br>Y Pwyllgor yn cael llythyrau gan y ddau gyngor, sy'n debyg iawn i'w gilydd yn eu hanfod, yn awgrymu bod disgwyl o'r dechrau i'r cynllun peilot ddod i ben ym mis Tachwedd 2023. Mae'r llythyrau'n ychwanegu nad yw'n ymarferol ymestyn y cynllun peilot o ystyried y cyfyngiadau presennol ar y gyllideb [sef cyllideb |

[10] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14/09/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 132-137

[11] Senedd Cymru, 'Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Dirprwy Weinidog', 25/09/23

[12] Llywodraeth Cymru Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol 16/10/23

| | |
|---|---|
| | Llywodraeth Cymru], a bod pryder y Pwyllgor ynghylch y diffyg cyllid i ymestyn y peilot ym mis Tachwedd 2023 yn deillio o "ddryswch" .[13] |

[13] Cyngor Caerdydd, Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Peilot y Llys Teuluol Cyffuriau ac Alcohol (FDAC)', 01/11/23 a Chyngor Bro Morgannwg, Cyllid Llywodraeth Cymru (LlC) ar gyfer Cynllun Peilot y Llys Teuluol Cyffuriau ac Alcohol (FDAC)', 16/11/23

Eitem 7.6

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

19 Rhagfyr 2023

**Canlyniadau PISA**

Annwyl Jeremy,

Rydym yn ysgrifennu am ganlyniadau'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) a gyhoeddwyd ar 5 Rhagfyr, a'r mater ehangach o wella ysgolion a chodi safonau.

## Canlyniadau PISA

Fel y gwnaethoch gydnabod yn eich datganiad, mae canlyniadau Cymru yng nghylch PISA 2022 yn siomedig, yn enwedig o ystyried y gwelliant a ddangoswyd yng nghylch 2018. Rydym yn nodi:

- Gostyngodd sgoriau Cymru ym mhob un o'r meysydd pwnc, sef mathemateg, darllen a gwyddoniaeth. Ym mhob un o'r tri achos, roedd y gostyngiad yn ystadegol arwyddocaol ac roedd yn fwy na'r gostyngiad yn sgoriau tair gwlad arall y DU.

- Mae sgoriau Cymru yn sylweddol is na chyfartaledd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD); daw hyn ar ôl i Gymru 'ddal i fyny' gyda chyfartaledd yr OECD yn 2018.

- Sgoriau Cymru yw'r isaf yn y DU o hyd, ym mhob un o'r meysydd pwnc.

- Byddai Cymru wedi methu'r targed o gyrraedd 500 pwynt ym mhob un o'r tri maes pwnc, a osodwyd yn 2014 ac a ddaeth i ben yn 2022, o gryn bellter. Byddai hefyd wedi methu'r targed

gwreiddiol, a osodwyd yn 2011 ac a ddaeth i ben yn 2014, o fod ymhlith yr 20 gwlad uchaf yn PISA. [1]

Wrth edrych ar fylchau cyrhaeddiad, nodwn fod y bwlch o ran cyrhaeddiad rhwng disgyblion o'r cefndiroedd mwyaf difreintiedig a'r cefndiroedd lleiaf difreintiedig yn llai yng Nghymru nag ar gyfartaledd ar draws gwledydd OECD ym mhob un o'r tri maes. Rydym hefyd yn nodi bod gan Gymru ddysgwyr sy'n "wydn yn academaidd" - hynny yw, eu bod yn chwarter isaf mynegai statws economaidd, cymdeithasol a diwylliannol PISA ond yn perfformio yn y chwarter uchaf. Fodd bynnag, mae bylchau sylweddol yn parhau rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill - 48 pwynt mewn mathemateg, 42 pwynt mewn darllen a 48 pwynt mewn gwyddoniaeth. Gallwn weld ym maes darllen fod hyn wedi lledaenu o 34 pwynt yn 2018.[2]

Roedd gan Gymru lai o gyflawnwyr uwch yn PISA na gwledydd eraill. Cyfran y dysgwyr yng Nghymru a gyflawnodd ar y lefelau hyfedredd uchaf, Lefel 5 neu 6, oedd:

- 6% ym maes mathemateg, sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd OECD, sef 9%;
- 5% ym maes darllen, sy'n sylweddol is na chyfartaledd yr OECD, sef 7%; a
- 6% ym maes gwyddoniaeth, sy'n sylweddol is na chyfartaledd yr OECD, sef 7%.[3]

Ar ben hynny, mae'r canlyniadau ar gyfer Cymru yn dangos bod y bwlch rhwng y disgyblion sy'n perfformio orau (90fed canradd) a'r disgyblion â'r perfformiad isaf (10fed canradd) yn PISA wedi lledaenu ym mhob un o'r tri maes yn 2022, o gymharu â 2018. Yn anffodus, nid yw hyn yn adlewyrchu gwelliant ymhlith ein perfformwyr gorau, ond gostyngiad mwy yn y perfformwyr isaf na'r gostyngiad yn ein perfformwyr gorau. (Fodd bynnag, gwnaeth y 90fed sgôr canradd mewn gwyddoniaeth aros yr un fath.) Mae'r bwlch, fodd bynnag, yn fwy cul nag yn nhair gwlad arall y DU mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Unwaith eto, mae hyn oherwydd bod y gwahaniaeth rhwng ein cyflawnwyr uchaf yn fwy na'r gwahaniaeth rhwng ein cyflawnwyr isaf.[4]

1. Byddem yn croesawu eich barn ar unrhyw syniadau pellach sydd gennych ynglŷn â'r hyn sydd angen ei wneud i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn.

## Mesurau perfformiad addysg eraill

Rydym yn llwyr ymwybodol nad PISA, wrth gwrs, yw'r unig fesur o lwyddiant mewn addysg. Mae'r cymwysterau y mae pobl ifanc yn eu hennill wrth adael yr ysgol neu'r coleg yn parhau i fod yn fesur

[1] Llywodraeth Cymru, PISA 2022: Adroddiad Cenedlaethol Cymru, adroddiad ymchwil, Rhagfyr 2023
[2] Llywodraeth Cymru, PISA 2022: Adroddiad Cenedlaethol Cymru, adroddiad ymchwil, Rhagfyr 2023
[3] Llywodraeth Cymru, PISA 2022: Adroddiad Cenedlaethol Cymru, adroddiad ymchwil, Rhagfyr 2023
[4] Llywodraeth Cymru, PISA 2022: Adroddiad Cenedlaethol Cymru, adroddiad ymchwil, Rhagfyr 2023

arwyddocaol iawn o hyn. Mae'n siomedig felly gweld bod data TGAU ar gyfer 2023, a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf, yn dangos bod y bwlch cyrhaeddiad amddifadedd wedi ehangu yn ystod y pandemig (2018/19 i 2022/23), ar ôl ehangu eisoes yn ystod y blynyddoedd diwethaf cyn y pandemig (2015/16 i 2018/19):

- Ehangodd y gwahaniaeth rhwng cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill sy'n ennill graddau TGAU A*-A, o 14.6 pwynt canran yn 2015/16 i 14.8 pwynt canran yn 2018/19, ac i 16.7 pwynt canran yn 2022/23.
- Ehangodd y gwahaniaeth rhwng cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill sy'n ennill graddau TGAU A*-C, o 24.9 pwynt canran yn 2015/16 i 28.1 pwynt canran yn 2018/19, ac i 29.8 pwynt canran yn 2022/23.
- Ehangodd y gwahaniaeth rhwng cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n ennill graddau TGAU A*-G, o 2.6 pwynt canran yn 2015/16 i 5.7 pwynt canran yn 2018/19, ac i 7.7 pwynt canran yn 2022/23.[5]

Mae data eraill a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar yr asesiadau wedi'u personoli a gymerwyd gan ddisgyblion ym Mlynyddoedd 2 i 9 hefyd yn dangos gostyngiad, sy'n cyd-fynd â'r pandemig, o ran lefelau darllen a rhifedd.[6] Nodwn, yng ngoleuni hyn, eich bod wedi cyhoeddi Cynllun Mathemateg a Rhifedd newydd[7], a phecyn cymorth llafaredd a darllen wedi'i ddiweddaru[8].

Roedd y gostyngiad yn arbennig o wir yn y Gymraeg lle roedd lefelau darllen disgyblion yn 2022/23 11 mis ar gyfartaledd y tu ôl i lefelau disgyblion o'r un oed yn 2020/21 (pedwar mis oedd y gostyngiad yn achos darllen Saesneg).

2. Ydych chi wedi nodi'r rhesymau am y gwahaniaeth hwn mewn perfformiad rhwng y Gymraeg a Saesneg?

3. Pa gamau ydych chi'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r bwlch a'i gau?

## Ein gwaith

Fel y gwyddoch, rydym yn cynnal darn o waith dros dymor cyfan y Senedd yn craffu ar weithredu diwygiadau addysg allweddol, sef y cwricwlwm newydd ac ADY. Rydym yn cydnabod bod y rhain yn offer allweddol wrth ysgogi gwelliannau yn system addysg Cymru. Rydym yn gwybod hefyd y bu ymdrechion ers blynyddoedd lawer gyda'r nod o godi safonau a lleihau anghydraddoldebau, fel yr

[5] Llywodraeth Cymru, Canlyniadau arholiadau: Medi 2022 i Awst 2023 (dros dro), 5 Hydref 2023

[6] Llywodraeth Cymru, Patrymau cyrhaeddiad mewn darllen a rhifedd: o 2018/19 i 2022/23, 23 Tachwedd 2023

[7] Llywodraeth Cymru, Cynllun mathemateg a rhifedd 2023, 29 Tachwedd 2023

[8] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Dull ysgol gyfan ar gyfer llafaredd a darllen, 23 Mawrth 2023

adlewyrchir ar hyn o bryd gan amcan y Rhaglen Lywodraethu a’ch cenhadaeth genedlaethol o “safonau a dyheadau uchel i bawb”.

Yn ogystal â’n gwaith craffu parhaus ar y cwricwlwm a diwygio ADY, rydym yn debygol o wneud rhywfaint o waith penodol yn edrych ar safonau ysgolion. Fodd bynnag, cyn i ni ddechrau’r gwaith hwnnw, rydym wedi eich gwahodd i sesiwn graffu gyffredinol ar 28 Chwefror 2024. Byddai'n ddefnyddiol cael eich ymateb i’r llythyr hwn cyn y sesiwn hon, yn enwedig eich ymateb i’r sylwadau a wnaed yma, yn enwedig nawr eich bod wedi cael cyfle i ddadansoddi a myfyrio ar ganlyniadau PISA. Byddai’n dda gennym felly gael eich ymateb erbyn dydd Gwener 17 Chwefror.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Information from Llamau regarding the Welsh Government White Paper on Ending Homelessness in Wales**

Llamau are in favour of the total removal of priority need, but recognise this could have unintended consequences for those people already in or about to go into the proposed ‘exemption’ groups.

The proposed abolition of the “priority need” test can potentially have negative implications for care leavers and care-experienced children. Here are some potential issues that require further consideration:-

1. Increased Competition for Limited Housing: Abolishing the priority need test may lead to increased competition for limited housing resources. Care leavers and care-experienced children, who may already face challenges in securing stable accommodation, could face additional difficulties if there is heightened demand for housing.

2. Potential Delay in Housing Assistance: With the removal of the priority need test, there might be a need for a lead-in time for the new system to take effect. During this period, care leavers and care-experienced individuals may experience delays in accessing housing assistance, which could contribute to their vulnerability.

3. Specific Vulnerabilities of Care Leavers: Care leavers often face unique challenges, including the transition to independent living without family support. The removal of the priority need test should be accompanied by measures to address the specific vulnerabilities of care leavers, ensuring they receive the necessary support during the transition to independent living.

4. Impact on Homelessness Prevention: The priority need test serves as a mechanism to identify and prioritize vulnerable individuals at risk of homelessness. Its removal may impact the effectiveness of homelessness prevention efforts, particularly for care leavers who may be at a higher risk of housing instability.

5. Need for Adequate Support Services: As part of the broader strategy, it's crucial to ensure that care leavers have access to support services that address their unique needs. This includes mental health support, education and employment assistance, and other services that contribute to their overall well-being and housing stability.

6. Resource Allocation: Local authorities will still need to manage their resources effectively and determine how individuals, including care leavers, are prioritized for housing allocations. Clear guidance and policies should be in place to ensure fair and transparent resource allocation that considers the specific needs of care leavers.

7. Monitoring and Evaluation: The impact of the abolition of the priority need test on care leavers should be closely monitored and evaluated. This includes assessing whether care leavers are disproportionately affected, and if so, adjustments to the system may be necessary to address any unintended consequences.

As you can see, our main concerns, whilst supporting the principle, is, without significant allocation of resources, young people who are care experienced may see reduced support as the expansion of priority need occurs. We are also concerned the proposals are not robust enough and may see a variation in how the guidance is used in practice.

**Y Pwyllgor Deisebau**
—
**Petitions Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd. wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac
Addysg Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

19 Rhagfyr 2023

Annwyl Jayne

**Deiseb P-06-1359 Dylid cynnig yr un cymorth ariannol ar gyfer gofal plant i rieni sy'n gweithio yng Nghymru â'r hyn sydd ar gael yn Lloegr &**

**Deiseb P-06-1362 Dylid darparu cynnig cyfatebol yng Nghymru i'r cynnig gofal plant newydd yn Lloegr, sef 15 awr, ar gyfer plant 2 flwydd oed o fis Ebrill 2024**

Mae'r Pwyllgor Deisebau ar hyn o bryd yn ystyried y ddwy ddeiseb uchod, a drafodwyd yn ein cyfarfod ar 11 Rhagfyr 2023, ynghyd â gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'r deisebwyr.

Yn y cyfarfod, cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at eich Pwyllgor er mwyn tynnu y ddwy ddeiseb i'ch sylw ac i ofyn i'r materion a godwyd ynddynt gael eu codi fel rhan o'ch gwaith graffu ar y cyllideb yn ystod tymor y Gwanwyn.

Mae rhagor o wybodaeth am y ddeiseb, gan gynnwys gohebiaeth gysylltiedig, ar gael ar ein gwefan at: https://busnes.senedd.cymru/ieIssueDetails.aspx?IId=41902&Opt=3 a https://busnes.senedd.cymru/ieIssueDetails.aspx?IId=41910&Opt=3.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â thîm clercio'r Pwyllgor drwy'r cyfeiriad e-bost isod, neu drwy ffonio 0300 200 6454. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb drwy e-bostio'r tîm clercio: deisebau@senedd.cymru.

Yn gywir



Jack Sargeant AS



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Eitem 7.9

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Julie Morgan AS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

20 Rhagfyr 2023

**Data'n ymwneud â staff asiantaeth yn y gwasanaethau plant**

Annwyl Julie,

Yn ein hadroddiad ar ddiwygio radical ar gyfer pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal, fe wnaethom ddyfynnu Gofal Cymdeithasol Cymru, a oedd wedi dweud wrthym fod 49% o holl staff y gwasanaethau plant yn 2022 yn weithwyr asiantaeth, a bod 85.6% o'r gweithwyr asiantaeth hynny'n llenwi swyddi gwag ar gyfer gweithwyr cymdeithasol cymwysedig.[1] Wrth roi tystiolaeth inni ar 14 Medi, gwnaethoch awgrymu y gallai'r ffigurau hyn fod yn anghywir.[2]

Wrth ddrafftio ein hadroddiad, gofynnodd clercod y Pwyllgor yn uniongyrchol i Gofal Cymdeithasol Cymru a oedd y ffigur o 49 a ddyfynnwyd yn nhystiolaeth ysgrifenedig[3] Gofal Cymdeithasol Cymru yn cyfeirio at unigolion ynteu at ganran. Atebodd Gofal Cymdeithasol Cymru i gadarnhau mai canran oedd y ffigur. Ers ein cyfarfod ar 14 Medi, rydym wedi holi Gofal Cymdeithasol Cymru eto am y ffigur hwn.[4] Ers hynny maent wedi cydnabod mai camgymeriad oedd: "The confirmation of this figure as a percentage in the subsequent email [the email responding to clerks] was an error by Social Care Wales."[5]

---

[1] Senedd Cymru, Os nad nawr, pryd? Diwygiadau radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal', Mai 2023, tudalen 30

[2] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14/09/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 118-123

[3] Tystiolaeth ysgrifenedig, Gofal Cymdeithasol Cymru (gwybodaeth ychwanegol)

[4] Senedd Cymru, 'Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru', 10/10/23

[5] Gofal Cymdeithasol Cymru,'Re: Y defnydd o staff asiantaeth yn y gwasanaethau plant 27/11/23, tudalen 2

Yn ôl y nodyn briffio a gawsom gan Gofal Cymdeithasol Cymru yn eu llythyr dyddiedig 27 Tachwedd, deallwn mai **17.5% oedd canran y gweithwyr cymdeithasol gwasanaethau plant (429 o unigolion) a oedd yn cael eu cyflogi'n bennaf gan asiantaeth, fel ar fis Medi 2023.**

Mae'n anffodus bod y wybodaeth a gafodd y Pwyllgor yn anghywir. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod 17% o weithwyr cymdeithasol gwasanaethau plant yn staff asiantaeth yn frawychus ac mae'n egluro'r ansefydlogrwydd mawr ym mywydau'r plant a'r bobl ifanc y buom yn siarad â nhw. Cyfeiriwn unwaith eto at y casgliadau a'r argymhellion yn ein hadroddiad.[6]

Fel y dywedais yn ystod ein cyfarfod ar 14 Medi, mae camgymeriadau fel y rhain yn dangos yn glir pam mae tryloywder data mor bwysig.[7] At hyn, rydym yn galw eto am i ddyletswyddau casglu data ffurfiol gael eu rhoi ar gyrff cyhoeddus perthnasol, ac i'r data hwnnw gael ei goladu, ei wirio a'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.[8]

Mae cael gweithlu gofal cymdeithasol plant sefydlog, o safon yn hanfodol. Rydym wedi gwahodd Gofal Cymdeithasol Cymru i drafod materion gweithlu ymhellach gyda'r Pwyllgor ac rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn atynt.

Yn gywir



Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Cc: Sue Evans
Prif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

---

[6] Senedd Cymru, Os nad nawr, pryd? Diwygiadau radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal', Mai 2023, tudalennau 35-38

[7] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14/09/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 128

[8] Senedd Cymru, Os nad nawr, pryd? Diwygiadau radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal', Mai 2023, tudalennau 49-54

Eitem 7.10

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

—

**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Sue Evans

Prif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru

20 Rhagfyr 2023

**Gwahoddiad i ymddangos gerbron y Pwyllgor a data am weithlu'r gwasanaethau plant**

Annwyl Sue

Diolch am eich cyfraniadau parhaus i'n gwaith ym maes plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn ofal, gan gynnwys eich ymateb ym mis Chwefror 2023 i'n cais am wybodaeth ysgrifenedig, a'r nodyn briffio a gawsom gennych yn ddiweddar yn ymwneud â gweithlu gwasanaethau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol.

## Gwahoddiad i ymddangos gerbron y Pwyllgor

Wrth gynnal ein hymchwiliad i ddiwygiadau radical i wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, daeth i'r amlwg fod gan Gofal Cymdeithasol Cymru ran hanfodol yn natblygiad gweithlu gofal cymdeithasol plant. Yn benodol, tynnwyd sylw at bwysigrwydd cael gweithlu sefydlog, o safon, sydd â dealltwriaeth glir o'r cymorth sydd ei angen ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd ac sy'n gallu rheoli achosion yn effeithiol gan weithio gyda'r amrywiaeth eang o asiantaethau a all fod yn rhan o fywydau'r bobl hyn. Yn ei dro, daeth yn amlwg hefyd ei bod yn allweddol cael gweithlu sefydlog os ydym am leihau nifer y plant mewn gofal yn ddiogel.

Er i'n hadroddiad gael ei gyhoeddi ym mis Mai 2023, mae ein gwaith yn y maes hwn yn parhau. Rydym yn parhau i bryderu am brofiadau llawer o blant a phobl ifanc sy'n dod i gysylltiad â'r system ofal, a gallu Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus i gyflwyno'r diwygiadau gwirioneddol radical y credwn sydd eu hangen ar y system ofal.

Rydym, felly, yn eich gwahodd i ymddangos gerbron y Pwyllgor ar gyfer sesiwn graffu untro ar waith Gofal Cymdeithasol Cymru mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, a'u teuluoedd. Rydym yn cynnig bod y sesiwn yn cael ei chynnal fore dydd Mercher 20 Mawrth 2023.

Mae’n anffodus bod y camgymeriad a wnaeth Gofal Cymdeithasol Cymru wrth gadarnhau’r data mewn e-bost at ein clercod yn gamgymeriad mor sylweddol, a’i fod yn ymwneud â mater a oedd mor bwysig i’r plant a’r bobl ifanc y buom yn siarad â nhw.

Fodd bynnag, rydym yn ddiolchgar am y data newydd a gawsom gennych ym mis Tachwedd 2023 am nifer y gweithwyr cymdeithasol yn y gwasanaethau plant a gyflogir gan asiantaethau. Mae'n datgyfuno data ar gyfer gwahanol grwpiau yn y gweithlu plant, gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol yn y gwasanaethau plant (ein prif faes diddordeb yn yr ymchwiliad hwn) a staff gofal preswyl plant. Mae’n ymddangos bod y papur briffio a gawsom ym mis Tachwedd 2023 wedi egluro mai 17.5% o weithwyr cymdeithasol yn y gwasanaethau plant a oedd yn cael eu cyflogi gan asiantaeth:

> *As of September 2023, the register shows the total number of Childrens Services Social Workers was 2,456. Of these, **429 (17.5%)** declared their primary employer as an agency.* [1] *[Ein pwyslais ni]*

Mewn ymateb i gwestiwn ysgrifenedig gennym ynghylch nifer y staff asiantaeth sy’n gweithio ym maes gofal cymdeithasol plant, ac effaith hynny, dyma’r ateb a gawsom gennych ym mis Chwefror 2023 (fel y cadarnhawyd yn eich nodyn briffio ym mis Tachwedd 2023):

> *"the use of agency workers in children's services has decreased slightly over the course of the year from **56 [individuals] in 2021 to 49 [individuals] in 2022**. **85.6% of all agency staff utilised in children’s services were for qualified social workers**".* [2] *[Ein pwyslais ni]*

Mae’n anodd gweld sut y gellid dweud mai nifer y gweithwyr asiantaeth unigol, o holl staff gofal cymdeithasol plant, oedd 49 yn 2022 ond bod nifer y gweithwyr asiantaeth unigol wedi codi i 429 yn 2023, a hynny dim ond mewn swyddi gweithwyr cymdeithasol yn y gwasanaeth plant. Byddai hyn yn gynnydd o dros 1,000% mewn blwyddyn yn unig.[3] Mae’r cynnydd hwn yn ymddangos yn annhebygol iawn, felly rydym yn tybio naill ai nad yw’r ddwy set o ffigurau’n gymhariaeth gyfatebol, neu fod rhai agweddau ar y data gweithlu’n dal yn aneglur.

Mae’r ansicrwydd parhaus hwn ynghylch data gweithlu gofal cymdeithasol plant, sy’n cael ei wirio a’i gyhoeddi fel mater o drefn yn Lloegr, yn ychwanegu at ein pryderon ynghylch tryloywder, cywirdeb a

[1] Gofal Cymdeithasol Cymru,'Re: Y defnydd o staff asiantaeth yn y gwasanaethau plant 27/11/23, tudalen 2

[2] Tystiolaeth ysgrifenedig, Gofal Cymdeithasol Cymru (gwybodaeth ychwanegol)

[3] 85.6% o 49 o unigolion yw 42 o unigolion. Mae 429 yn gynnydd o 1,021% o’i gymharu â 42.

dibynadwyedd y data a gyhoeddir yng Nghymru.[4] Byddwn yn ceisio eglurhad o'r data hwn fel rhan o'n sesiwn graffu gyda chi, fel y soniwyd uchod.

Gan fod y materion y byddwn yn eu trafod yn ystod y sesiynau craffu arfaethedig o ddiddordeb hefyd i Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd, byddaf hefyd yn gwahodd aelodau o'r Pwyllgor hwnnw i fod yn bresennol. Rwyf wedi anfon copi o'r ohebiaeth hon at Gadeirydd y Pwyllgor hwnnw er gwybodaeth iddo.

Yn gywir

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Cc: Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

[4] Senedd Cymru, Os nad nawr, pryd? Diwygiadau radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal', Mai 2023, tudalennau 49-54

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Gillian Baranski

Prif Arolygydd Arolygiaeth Gofal Cymru

20 Rhagfyr 2023

**Gwaith craffu blynyddol**

Annwyl Gillian

Fel y gwyddoch efallai, byddwn yn craffu'n flynyddol ar waith cyfres o gyrff cyhoeddus y mae eu gwaith yn uniongyrchol berthnasol i'n cylch gwaith ni (Estyn, Cymwysterau Cymru, a Chomisiynydd Plant Cymru). Mae'r gwaith craffu fel arfer yn cynnwys un sesiwn dystiolaeth bob blwyddyn ar ôl i'r corff cyhoeddus dan sylw gyhoeddi ei adroddiad blynyddol. Mae'r sesiynau craffu blynyddol hyn yn gyfle i drafod gwaith y cyrff cyhoeddus yn fanwl ac ystyried unrhyw faterion corfforaethol ac ariannol a amlinellir yn eu hadroddiadau blynyddol.

Wrth gynnal ein hymchwiliad i ddiwygiadau radical i wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, daeth i'r amlwg fod gan Arolygiaeth Gofal Cymru ran hanfodol yn y gwaith o oruchwylio adrannau gwasanaethau plant awdurdodau lleol a darparwyr gofal plant cofrestredig eraill, a sbarduno newidiadau er gwell yn y maes hwn. Er i'n hadroddiad gael ei gyhoeddi ym mis Mai 2023, mae ein gwaith yn y maes hwn yn parhau. Rydym yn parhau i bryderu am brofiadau llawer o blant a phobl ifanc sy'n dod i gysylltiad â'r system ofal, a gallu Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus i gyflwyno'r diwygiadau gwirioneddol radical y credwn sydd eu hangen ar y system ofal. Rydym hefyd yn ymwybodol o rôl allweddol Arolygiaeth Gofal Cymru mewn perthynas â gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar, sydd hefyd yn rhan o'n cylch gwaith.

Gan hynny, hoffem ychwanegu'r gwaith o graffu ar Arolygiaeth Gofal Cymru, o ran ei rôl fel rheoleiddiwr annibynnol ac arolygydd gofal cymdeithasol plant a gofal plant, at ein gwaith craffu blynyddol cylchol. Rydym yn cynnig cynnal y sesiwn gyntaf fore dydd Mercher 20 Mawrth 2024, a byddai'n cynnwys:

- perfformiad gwasanaethau plant awdurdodau lleol,
- eich adolygiad cyflym diweddar o drefniadau amddiffyn plant;



Senedd Cymru
Welsh Parliament

- y defnydd o lety anghofrestredig ar gyfer plant mewn gofal;
- cartrefi gofal i blant sy'n gweithredu heb eu cofrestru;
- Gorchmynion Amddifadu o Ryddid;
- plant a phobl ifanc y cam-fanteisir arnynt at ddibenion troseddol;
- plant ar goll
- materion gweithlu; a
- materion eraill sy'n berthnasol i'ch Adroddiad Blynyddol 2022-23.

Byddai sesiynau yn y dyfodol yn cael eu cynnal yn fuan ar ôl cyhoeddi eich adroddiad blynyddol (hy yn ystod tymhorau'r hydref/gwanwyn).

Gobeithio'n arw eich bod yn barod i dderbyn cais hwn. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, mae croeso i chi gysylltu â chlercod y Pwyllgor yn gyntaf (SeneddPlant@Senedd.Cymru).

Gan fod y materion y byddwn yn eu trafod yn ystod y sesiynau craffu arfaethedig o ddiddordeb hefyd i Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd, byddaf hefyd yn gwahodd aelodau o'r Pwyllgor hwnnw i fod yn bresennol. Rwyf wedi anfon copi o'r ohebiaeth hon at Gadeirydd y Pwyllgor hwnnw er gwybodaeth iddo.

Yn gywir

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Cc: Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

20 Rhagfyr 2023

**Gwahoddiad i ymuno â sesiynau craffu gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru**

Annwyl Russell,

Fel y gwyddoch efallai, ym mis Mai 2023 cyhoeddwyd 'Os nad nawr, pryd?', sef ein hadroddiad ar wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yng Nghymru. Ers cyhoeddi'r adroddiad, rydym wedi parhau i roi pwysau ar Lywodraeth Cymru ac eraill i gyflwyno diwygiadau gwirioneddol radical i'r system ofal sydd, yn ein barn ni, yn angenrheidiol os ydym am wella profiadau'r holl blant a'r bobl ifanc, a'u teuluoedd, sy'n dod i gysylltiad â'r system.

Fel rhan o'r gwaith hwnnw, rydym wedi gwahodd Gofal Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru i fod yn bresennol (ar wahân) yng nghyfarfod y Pwyllgor ddydd Mercher 20 Mawrth 2024 i roi tystiolaeth am eu rolau nhw mewn perthynas â'r gweithlu gofal cymdeithasol plant a'r system rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol plant a gofal plant. O ystyried bod gofal cymdeithasol yn rhan o gylch gwaith eich Pwyllgor chi, hoffwn eich gwahodd chi a chyd-aelodau o'ch Pwyllgor i fod yn bresennol yn y sesiynau hynny.

Bydd ein clercod yn cysylltu'n uniongyrchol ag Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru i benderfynu'n derfynol ar amser y sesiynau craffu. Unwaith y byddant wedi gwneud hynny, byddant yn cysylltu â'ch clercod chi'n uniongyrchol i roi'r manylion perthnasol. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'ch clercod gadarnhau pwy rydych yn disgwyl iddynt fod yn bresennol, a hynny erbyn 13 Mawrth 2024 fan bellaf (wythnos cyn y dyddiad arfaethedig).

Rydym hefyd wedi cynnig i Arolygiaeth Gofal Cymru ein bod yn craffu ar eu gwaith bob blwyddyn, fel rhan o'n gwaith craffu cylchol, a hynny'n fuan ar ôl iddynt gyhoeddi eu hadroddiad blynyddol. Byddai'r sesiwn graffu flynyddol gyntaf yn cael ei chynnal yn nhymor yr hydref 2024. Hoffwn hefyd

wahodd aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i fod yn bresennol yn y sesiynau craffu blynyddol hyn hefyd; bydd ein clercod yn rhannu'r manylion perthnasol gyda chi yn nes at yr amser.

Yn gywir



Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol - Amser rhoi diwedd ar dlodi plant: sut y gall Cymru wneud yn well**

**RHAGFYR 2023**

---

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol am eu hadroddiad: *Amser rhoi diwedd ar dlodi plant: sut y gall Cymru wneud yn well*. Mae fy swyddogion a minnau wedi ei ystyried yn ofalus.

Fel y mae'r Pwyllgor yn ymwybodol, bydd ein dull gweithredu strategol o fynd i'r afael â thlodi plant yn cael ei adlewyrchu yn ein Strategaeth Tlodi Plant, sydd i'w chyhoeddi yn y flwyddyn newydd. Mae'r gwaith ymgysylltu ac ymgynghori a wnaed i ddatblygu'r Strategaeth Tlodi Plant (y Strategaeth) wedi helpu Llywodraeth Cymru i ddeall ble, fel rhan o'n gwaith ehangach i gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu, y mae angen inni ganolbwyntio ein hymdrechion. Y nod yn hyn o beth yw sicrhau'r effaith fwyaf wrth fynd i'r afael â thlodi plant mewn cyn lleied o amser â phosibl, a chynnal y newid hwnnw.

Mae'r Strategaeth yn fframwaith lefel uchel i'n galluogi i fanteisio i'r eithaf ar yr ysgogiadau sydd ar gael i ni ar draws y llywodraeth er mwyn helpu i ddileu tlodi plant. Mae yna gamau y mae angen i ni eu cymryd, a chamau yr ydym yn eu cymryd, i sicrhau y gall sefydliadau gydweithio'n well a gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â thlodi plant fel nod cyffredin. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid er mwyn helpu i gyflwyno gwaith trawsbynciol i gyflawni hyn.

Rwyf wedi ymrwymo i fynd i'r afael â thlodi plant fel prif flaenoriaeth, yn yr un modd â Llywodraeth Cymru. Byddwn yn parhau i fanteisio ar yr holl ysgogiadau sydd ar gael i ni, gan chwarae rôl arweiniol wrth gydgysylltu camau ehangach i weithio tuag at ddileu tlodi plant yng Nghymru.

Rwy'n ymateb i argymhellion y Pwyllgor isod.

**Argymhelliad 1**
Wrth ddiweddaru ei dull strategol o fynd i'r afael â thlodi plant, dylai Llywodraeth Cymru wneud yr hyn a ganlyn:

I. Gosod **targedau** interim a rhai tymor hwy ar gyfer lleihau tlodi plant gan ddysgu o’r dulliau a ddefnyddir mewn gwledydd eraill fel yr Alban a Seland Newydd. Dylai’r rhain anelu at ostyngiadau uchelgeisiol a realistig yn nifer y plant mewn tlodi cymharol, tlodi absoliwt, amddifadedd materol a thlodi parhaus.

II. Cyhoeddi **cynllun gweithredu** manwl yn nodi sut y bydd yn cyflawni ei thargedau. Dylai pob gweithgaredd yn y cynllun gweithredu nodi pa Weinidog sy’n gyfrifol am ei gyflawni, amserlenni, a sut y caiff ei fonitro. Dylid cyhoeddi’r cynllun gweithredu o fewn chwe mis ar ôl cyhoeddi’r Strategaeth derfynol.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

I. Mae gwaith i ddatblygu fframwaith monitro cadarn yn cael ei ddatblygu ar fyrder. Bydd y fframwaith yn ystyried y dangosyddion cenedlaethol a'r cerrig milltir cenedlaethol sydd gennym yn eu lle o dan Ddeddf Llesiant

Cenedlaethau'r Dyfodol. Credwn y bydd fframwaith sy'n seiliedig ar ystod o fesurau yn adlewyrchu cynnydd yn erbyn ein dull o ymdrin â'r gyfres gymhleth hon o broblemau yn fwy cywir nag y byddai mesur sy'n seiliedig ar dargedau yn unig. Y ffordd fwyaf effeithiol o weithredu targedau yw drwy ddull gweithredu cydgysylltiedig ar draws pob lefel lle caiff pwerau perthnasol eu dal. Byddwn yn parhau i gysylltu â Llywodraeth yr Alban i ddeall cwmpas ac effaith ei chyfres o ymyriadau o ran y rhai sy'n byw mewn tlodi. Er hynny, mae ystod o bwerau pwysig ar dlodi plant nad ydynt wedi'u datganoli yng Nghymru, sy'n cyfyngu ar werth cymharu â gwledydd fel yr Alban neu Seland Newydd, gan gofio wrth gwrs bod budd-daliadau lles a threth yn arfau allweddol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi.

Er mwyn datblygu trefniadau monitro clir, rydym wedi ymrwymo i geisio cyngor ymchwil annibynnol yn ystod 2024 ar ddangosyddion tlodi cenedlaethol addas, argaeledd data a fframwaith i fonitro a dangos atebolrwydd tryloyw wrth adrodd ar ein cynnydd o ran mynd i'r afael â thlodi. Byddwn hefyd yn parhau i baratoi adroddiad llawn ar gynnydd yn erbyn y Strategaeth bob tair blynedd, fel sy'n ofynnol o dan Fesur Plant a Theuluoedd 2010. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd pobl â phrofiad uniongyrchol, gan gynnwys plant a phobl ifanc, yn dweud wrthym a ydym yn gwneud cynnydd ai peidio yn erbyn y Strategaeth.

II. Yn hytrach na chael cynllun gweithredu cyffredinol, mae'r Strategaeth Tlodi Plant yn darparu fframwaith lle mae cynlluniau gweithredu ar wahân ar draws portffolios y Gweinidogion sy'n manylu ar gynnydd a'i fesur o dan y gweithgaredd perthnasol yn y Rhaglen Lywodraethu. Bydd y Strategaeth newydd yn cefnogi blaenoriaethu, integreiddio a chydweithio, gan annog partneriaid i weithio mewn ffyrdd newydd neu wahanol er mwyn cael yr effaith fwyaf.

**Goblygiadau Ariannol** –

Dim.

**Argymhelliad 2**
Dylai Llywodraeth Cymru roi ffocws llawer cliriach ar **hawliau plant** yn ei Strategaeth derfynol, **gan gyfeirio at erthyglau unigol** a defnyddio'r pum egwyddor a nodir yn 'Y Ffordd Gywir'. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr hyn a ddywedwyd wrthi gan blant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'r camau gweithredu penodol sy'n cael blaenoriaeth yn y Strategaeth derfynol, er mwyn mynd i'r afael ag anghenion y grwpiau o blant y mae tlodi'n fwyaf tebygol o effeithio arnynt.

**Ymateb: Derbyn**

Bydd y Strategaeth derfynol yn cynnwys cyfeiriad cliriach a mwy penodol at erthyglau unigol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Bydd y Strategaeth derfynol hefyd yn cynnwys cyfeiriad at 'Y Ffordd Gywir' o dan Amcan 5. Wrth inni weithio gyda phartneriaid er mwyn cryfhau trefniadau cydweithio, dod o hyd i ddatrysiadau gyda'n gilydd a hybu arferion da, bydd yn bwysig sicrhau ein

bod ni gyda'n gilydd yn mabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant. Bydd 5 egwyddor 'Y Ffordd Gywir' yn llywio hyn.

Mae'r ymrwymiadau a geir o dan y 5 amcan yn y Strategaeth wedi cael eu llywio gan yr hyn a ddywedwyd wrthym gan blant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi.

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ffurfiol ar y Strategaeth ddrafft yn nodi'n glir mai'r amcanion a'r blaenoriaethau a nodir yn y Strategaeth yw'r rhai cywir.

O'r rhai a atebodd gwestiynau ynghylch a oeddent yn cytuno y dylai Amcanion 1-5 fod yn amcanion yn y strategaeth:
- roedd 92% yn cytuno ag Amcan 1
- roedd 94% yn cytuno ag Amcan 2
- roedd 91% yn cytuno ag Amcan 3
- roedd 89% yn cytuno ag Amcan 4
- roedd 93% yn cytuno ag Amcan 5

O'r rhai a atebodd gwestiynau ynghylch a oeddent yn cytuno y dylai blaenoriaethau 1-5 fod yn flaenoriaethau yn y strategaeth:
- roedd 87% yn cytuno â Blaenoriaeth 1
- roedd 89% yn cytuno â Blaenoriaeth 2
- roedd 88% yn cytuno â Blaenoriaeth 3
- roedd 86% yn cytuno â Blaenoriaeth 4

roedd 87% yn cytuno â Blaenoriaeth 5

Byddwn yn adolygu'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) i nodi'r dystiolaeth gan blant a phobl ifanc a sut y dylanwadodd hyn ar y Strategaeth gyda mwy o eglurder.

Byddwn hefyd yn cyhoeddi adroddiad mwy manwl o'r dystiolaeth a gasglwyd drwy waith ymgysylltu cyn ymgynghori gan y rhai sydd â phrofiad uniongyrchol o dlodi a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi.

**Goblygiadau Ariannol**

Dim.

**Argymhelliad 3**
Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu rhaglenni lle mae tystiolaeth glir eu bod yn effeithiol o ran lleihau tlodi plant, a dylai ddarparu cyllid cynaliadwy i raglenni sydd wedi profi eu gwerth. Dylai’r blaenoriaethu hwn lywio dyraniadau yng nghyllidebau’r dyfodol.

**Ymateb: Derbyn**

Dylid bob amser neilltuo adnoddau i'r meysydd lle y maent fwyaf effeithiol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol pan fo adnoddau'n fwyaf cyfyngedig. Felly mae wedi bod yn ystyriaeth allweddol ym mhrosesau cyllideb 2023-24 a 2024-25 Llywodraeth Cymru.

Rydym yn nodi'n glir y dylid cynnal a chryfhau momentwm trawslywodraethol ar fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb ar bob cyfle, er mwyn cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd. Rydym hefyd yn glir ynghylch pwysigrwydd parhau i asesu'n ofalus effeithiau cronnus ein penderfyniadau ar y rhai sy'n byw mewn tlodi.

Bydd ein gwaith o dan y Strategaeth Tlodi Plant yn canolbwyntio ar y rhaglenni a'r ymyriadau hynny sy'n cael yr effaith fwyaf o ran lleihau tlodi plant o fewn ein pwerau datganoledig.

Rydym yn cyhoeddi Asesiad Effaith Integredig Strategol ochr yn ochr â'r Gyllideb ddrafft, sy'n amlinellu'r dystiolaeth gyd-destunol sy'n sail i'n penderfyniadau am wariant, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc. Mae hyn yn helpu i sicrhau ein bod yn blaenoriaethu'r rhaglenni cywir. Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn un o gyfres o ddogfennau a gyhoeddwyd fel rhan o'r Gyllideb ddrafft ac mae'n hanfodol i nodi tueddiadau allweddol, effeithiau strategol a chronnus ar lefel portffolio, ar draws ystod o feysydd, gan gynnwys rhoi ystyriaeth briodol ar draws y gofynion statudol.

Rydym yn parhau i amlinellu’r camau yr ydym yn eu cymryd i ddiwygio gwelliannau i brosesau treth a chyllideb fel rhan o’n Cynllun Gwella’r Gyllideb a gyhoeddir ochr yn ochr â’r Gyllideb ddrafft. Rydym hefyd yn cydweithio â’r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb i archwilio sut i ymgymryd â’r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn y dyfodol.

Caiff asesiadau effaith manwl, gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, eu cynnal fel rhan o'n prosesau parhaus ar gyfer datblygu ac adolygu polisïau.

**Goblygiadau Ariannol** –

Dim.

**Argymhelliad 4**
Dylai Llywodraeth Cymru roi’r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran datblygu System Fudd-daliadau i Gymru, gan gynnwys:

I. Cerrig milltir y mae’n disgwyl eu cyflawni dros y flwyddyn nesaf, amserlenni ar gyfer rhoi camau gweithredu eraill ar waith, a sut mae’n bwriadu mynd i’r afael â rhwystrau rhag gweithredu system gydlynol fel meini prawf cymhwysedd, ansicrwydd ynghylch rhannu data, a heriau technolegol.

II. Pa ystyriaeth y mae wedi’i rhoi i sut y gall y cynlluniau peilot sy’n cael eu cynnal yn yr Alban i gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau lywio ei gwaith ar System Fudd-daliadau i Gymru.

III. Dadansoddiad o sut y gellid cyflwyno fersiwn o Daliad Plant yr Alban yng Nghymru yn y dyfodol.

Dylai Llywodraeth Cymru egluro’r amseru ar gyfer y diweddariadau cynnydd chwe-misol a addawyd mewn ymateb i argymhelliad 5 yn ein hadroddiad dyled a chostau byw.

**Ymateb: Derbyn**

I. Mae Cyngor Partneriaeth Cymru, sy'n cynnwys pob un o'r 22 o awdurdodau lleol, wedi cytuno ar y canlynol:

- drafft terfynol y Siarter ar gyfer darparu Budd-daliadau Cymru (Atodiad A)
- sefydlu Grŵp Llywio allanol i ddatblygu cynllun gweithredu a goruchwylio ei waith
- enwebu cynrychiolwyr ar gyfer y Grŵp Llywio allanol
- cynllun ar gyfer adroddiadau diweddaru rheolaidd ar gynnydd i symleiddio'r gwaith o weinyddu budd-daliadau, grantiau a thaliadau Cymru

Er mwyn cynnal y ffocws ar ddatblygu cynllun gweithredu ar fyrder, mae swyddogion yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gadarnhau aelodaeth y Grŵp Llywio allanol, a fydd yn cynnal ei gyfarfod cyntaf ym mis Ionawr 2024. Bydd y Grŵp Llywio allanol yn darparu diweddariadau rheolaidd ar gynnydd i Gyngor Partneriaeth Cymru a bydd y rhain yn cael eu rhannu gyda'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Senedd wrth inni wneud cynnydd yn erbyn y camau gweithredu hyn.

II. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cysylltu'n rheolaidd â swyddogion Llywodraeth yr Alban i ddysgu gwersi o'i phrofiad o ddarparu budd-daliadau, a'i gwaith o fabwysiadu fframwaith gwerthuso a Siarter. Byddwn yn archwilio'n ofalus y cynlluniau peilot sy'n cael eu cynllunio gan Social Security Scotland ar gyfer gwaith ar y cyd gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i ddeall sut y gallai deilliannau lywio ein dull gweithredu ar gyfer darparu budd-daliadau, taliadau a grantiau i Gymru.

III. Nid yw'r setliad datganoli yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i weithredu cynllun sy'n debyg i Daliad Plant yr Alban. Fodd bynnag, rydym yn gwneud gwaith manwl i sefydlu yn fwy clir y cydbwysedd rhwng pwerau a gedwir yn ôl a rhai datganoledig yn y maes hwn, yn ogystal â chysylltu â Llywodraeth yr Alban i ddeall cwmpas, effaith a heriau eu taliad plant.

Mae paragraff 130 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017) yn nodi bod cynlluniau nawdd cymdeithasol a gefnogir gan arian cyhoeddus yn faterion a gedwir yn ôl gan Senedd y DU ac na all Senedd Cymru ddeddfu arnynt. Mae'r diffiniad o gynlluniau nawdd cymdeithasol yn benodol yn cynnwys cynlluniau sy'n darparu cymorth ariannol at ddibenion nawdd cymdeithasol ac yn benodol, mae'n cynnwys darparu cymorth i unigolion sy'n gymwys oherwydd henaint, goroesedd, anabledd, salwch, analluogrwydd, anaf, diweithdra, mamolaeth neu ofal plant neu eraill sydd angen gofal, sy'n gymwys oherwydd incwm isel, neu mewn perthynas â'u costau tai.

Mae Deddf yr Alban 1998 yn rhoi pwerau cyfyngedig i Lywodraeth yr Alban ar gyfer elfennau o nawdd cymdeithasol. O ganlyniad, mae Llywodraeth yr Alban hefyd yn derbyn cyllid canlyniadol Barnett ar gyfer nawdd cymdeithasol, rhywbeth nad yw ar gael i Lywodraeth Cymru o dan y setliad datganoli presennol.

Argymhellir bod diweddariadau mewn ymateb i argymhelliad 5 adroddiad Dyled a Chostau Byw y Pwyllgor yn cyd-fynd â'r adroddiadau cynnydd i Gyngor Partneriaeth Cymru. Bydd y trefniadau ar gyfer hyn yn cael eu trafod gan y Grŵp Llywio allanol ym mis Ionawr 2024.

**Goblygiadau Ariannol** –

Dim.

**Argymhelliad 5**
Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ariannu darpariaeth gofal plant ddi-dor a fforddiadwy drwy'r cyllid canlyniadol Barnett y bydd yn ei gael o ganlyniad i'r cynnydd mewn gwariant ar ofal plant yn Lloegr. Dylai ddatblygu cynlluniau ar gyfer gwneud hyn erbyn mis Gorffennaf 2024.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae datblygu cefnogaeth o ansawdd uchel i blant a theuluoedd yn y blynyddoedd cynnar wedi bod yn flaenoriaeth hirsefydlog i Lywodraeth Cymru, ac mae'r ymrwymiad hwn yn cael ei adlewyrchu yn y Rhaglen Lywodraethu ac yn y Cytundeb Cydweithio. Darparodd ein Grant Plant a Chymunedau sy'n cefnogi gweithgareddau atal ac ymyrryd cynnar i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd gyllid gwerth £172.269m yn 2023-24. Mae dysgu a gofal o ansawdd uchel yn y blynyddoedd cynnar yn cefnogi datblygiad plant ac yn chwarae rhan bwysig o ran eu paratoi ar gyfer bywyd yr ysgol a mynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad. Bydd hyn yn sicrhau'r deilliannau gorau posibl o ran datblygiad y plentyn i gefnogi'r dechrau gorau mewn bywyd, yn enwedig i'n plant mwyaf difreintiedig.

Ers 2022, o ganlyniad i'r gwaith o ehangu'r rhaglen Dechrau'n Deg, mae 4,589 o leoedd gofal plant ychwanegol wedi'u cynnig, a chyfleoedd wedi'u hestyn i'r rhai sy'n hyfforddi neu ar gyrion gwaith. Mae Llywodraeth Cymru yn wynebu'r sefyllfa ariannol fwyaf heriol yr ydym wedi'i hwynebu ers datganoli. Mae hyn yn golygu bod angen inni flaenoriaethu'r adnoddau cyfyngedig sydd gennym. O ganlyniad i'r amodau economaidd anodd iawn a wynebwn, mae hyn yn golygu nad ydym mewn sefyllfa ar hyn o bryd i gadarnhau unrhyw ymrwymiadau newydd ar gyfer gwaith ehangu gofal plant wedi'i ariannu y tu hwnt i'r ymrwymiadau yr ydym eisoes wedi'u cyhoeddi.

Yn unol ag arfer hirsefydlog gan Lywodraeth Cymru, bydd unrhyw symiau canlyniadol ar gyfer 2024-25 a dderbynnir drwy fformiwla Barnett yn cael eu rheoli drwy broses y Gyllideb ddrafft yn seiliedig ar y cyllid a ddaw i law. Pan fo achos dros ddefnyddio'r cyllid canlyniadol at ddibenion tebyg, bydd Gweinidogion Cymru yn dosbarthu yn unol â blaenoriaethau.

**Goblygiadau Ariannol** –

Dim.

**Argymhelliad 6**

Pan fydd y cyfle cyntaf yn codi, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ei hymdrechion i fynd i'r afael â thlodi plant yn cael eu cydgysylltu'n well ar draws y llywodraeth drwy benodi Gweinidog Babanod, Plant a Phobl Ifanc penodedig i fod yn gyfrifol am fynd i'r afael â thlodi plant. Yn y cyfamser, dylai'r Prif Weinidog gymryd cyfrifoldeb am y maes hwn, fel sy'n cael ei wneud yn Iwerddon ac a oedd gynt yn cael ei wneud yn Seland Newydd.

**Ymateb: Gwrthod**

Y Prif Weinidog sy'n gyfrifol am ddyrannu portffolios gweinidogol, ond mae pob un o Weinidogion Cymru yn gyfrifol am fynd i'r afael â thlodi o fewn eu portffolios. Mae gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip gyfrifoldebau penodol sy'n ymwneud â chydlynu mesurau i liniaru tlodi plant ac mae'n trafod yn rheolaidd â'r Gweinidogion eraill fuddiannau cyffredin mewn perthynas â thlodi ac anghydraddoldebau.

Mae dyletswydd ar bob aelod o'r Cabinet fel Gweinidogion Cymru i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae'r ddyletswydd 'sylw dyledus' a nodir yn adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gymwys i holl Weinidogion Cymru pan fyddant yn arfer unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau.

Mae'r Strategaeth yn cadarnhau y byddwn yn parhau i fynd ati mewn modd sy'n canolbwyntio ar hawliau plant o gyflawni ein Rhaglen Lywodraethu, yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, gyda mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb yn ffactorau ysgogi polisi trawsbynciol.

**Goblygiadau Ariannol** –

Dim.

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

21 Rhagfyr 2023

**Addysg ôl-orfodol a'r Gymraeg: llais y dysgwyr**

Annwyl Jeremy,

Yn ddiweddar, gwnaethom ystyried Adroddiad newydd Comisiynydd y Gymraeg ar addysg ôl-orfodol a'r Gymraeg: llais y dysgwyr.

Nodwn rai o'r ystadegau a ddarparwyd yn yr adroddiad. Er enghraifft:

- Y gwahaniaeth yng nghanrannau'r pynciau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg rhwng dysgwyr ysgol (72%) a dysgwyr coleg (4%).
- Mae ystadegau Llywodraeth Cymru yn dangos bod 15.2% o weithgareddau chweched dosbarth mewn ysgolion drwy gyfrwng Cymraeg yn ystod 2021-22 o gymharu â 0.2% o weithgareddau mewn sefydliadau addysg bellach.
- Tri rheswm cyffredin sydd gan y rhai sy'n rhugl yn Gymraeg, neu'n ei medru cryn dipyn, dros beidio ag astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yw:
  - y canfyddiad bod eu sgiliau Saesneg yn gryfach a bod astudio trwy gyfrwng y Saesneg yn haws iddynt;
  - nad oedd pwnc (neu bynciau) ar gael yn Gymraeg;
  - y canfyddiad bod eu hastudiaethau pellach yn debygol o fod yn Saesneg neu fod gwell rhagolygon drwy astudio yn Saesneg.

- Y gwahaniaethau rhanbarthol rhwng y dysgwyr hynny oedd yn teimlo bod digon o gyfleoedd i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn eu hardal. Yn gyffredinol, 60% oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf, ond mae'r adroddiad yn dangos gwahaniaethau rhanbarthol clir. Er enghraifft, yn y canolbarth, roedd 78% o ddysgwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf, ond yn y de-ddwyrain, dim ond 47% o ddysgwyr oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf. Dywed yr adroddiad fod "prinder amlwg darpariaeth ôl-16 mewn sawl ardal".

Yn ei gasgliadau a'i ganfyddiadau, mae'r adroddiad yn nodi bod angen i'r sector ôl-16 fynd i'r afael â'r prinder darpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn enwedig mewn "meysydd mwy galwedigaethol". Mae'r Comisiynydd hefyd yn tynnu sylw at nifer o feysydd eraill lle mae angen rhagor o waith neu ystyriaeth, gan gynnwys:

- codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth i ddysgwyr barhau â'u haddysg ôl-ysgol;
- cryfhau darpariaeth Gymraeg ar draws y sector ôl-16;
- cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n dilyn cymwysterau ôl-16 trwy gyfrwng y Gymraeg;
- cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle;
- mynd i'r afael â rhwystrau sy'n atal dysgwyr rhag astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ôl-16.

Byddem yn croesawu cael eich barn am y materion a drafodwyd yn adroddiad y Comisiynydd, a gwybod pa gamau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion hyn, a pha rôl y bydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd yn ei chwarae wrth ymdrin â'r materion hyn.

Oherwydd ei gyfrifoldebau o ran y Gymraeg, anfonir copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol. Anfonir copi o'r llythyr hwn hefyd at Gomisiynydd y Gymraeg.

Byddem yn gwerthfawrogi cael ymateb erbyn 1 Chwefror 2024.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Eitem 7.15

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

**Lynne Neagle AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant AS
CadeiryddY Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

20 Rhagfyr 2023

Annwyl Jayne

Diolch am y llythyr sy'n mynd i'r afael ag argymhelliad 11 o adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Gymorth Iechyd Meddwl mewn Addysg Uwch, ac sy'n ymwneud â diweddariad ar y Grŵp Cynghori ar Iechyd Meddwl mewn addysg bellach ac addysg uwch .

Sefydlwyd y Grŵp ym mis Chwefror 2023 am gyfnod cychwynnol o 6 mis, gan ddod â gweithwyr proffesiynol ynghyd ar draws y sectorau trydyddol ac iechyd i sicrhau dull mwy integredig o ddarparu cymorth iechyd meddwl i ddysgwyr ôl-16.

Roedd cylch gorchwyl y grŵp, a ddarparwyd fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, ac sydd wedi'i gynnwys yn y llythyr hwn yn Atodiad A, yn nodi mai ei ddiben oedd:

- nodi ffyrdd er mwyn gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl i fyfyrwyr ôl-16, a chefnogi rhoi'r ffyrdd hynny ar waith, a
- sicrhau bod gan sefydliadau adnoddau cyson a hygyrch i gefnogi atal problemau a/neu ymyrraeth gynnar.

Mae adolygiad o'r grŵp bellach ar y gweill i ystyried effeithiolrwydd y dull gweithredu a chynghori ar y camau nesaf.

Mae'r Grŵp Cynghori wedi rhoi cyfle i'r sectorau addysg ac iechyd ddod at ei gilydd, i rannu arferion gorau a nodi cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth agos. Un o'r canlyniadau mawr fu comisiynu astudiaeth ddichonoldeb ar gyflwyno gwasanaeth cyswllt Iechyd Meddwl ledled Cymru, fel yr amlinellir yn ein hymateb i argymhelliad 25.

Bydd yr astudiaeth ddichonoldeb, a ariennir drwy CCAUC, yn adeiladu ar y peilot cychwynnol, a gynhaliwyd gan un awdurdod iechyd, ac yn dechrau asesu potensial model ar gyfer Cymru gyfan sy'n ystyried anghenion amrywiol addysg uwch, gan gynnwys ffactorau sy'n ymwneud â chyd-destunau gwledig a'r iaith Gymraeg. Mae rhanddeiliaid o weithlu'r GIG, y sector addysg drydyddol, byrddau iechyd lleol a swyddogion Iechyd Meddwl

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

wedi bod yn rhan o hyn o'r cychwyn cyntaf. Mae cyllid hefyd wedi'i ddyrannu i astudiaeth ddichonoldeb gyfochrog ym maes addysg bellach, a fydd yn darparu gwybodaeth sylfaenol i helpu i asesu p'un a ellid ymestyn y dull i gynnwys addysg bellach yn y dyfodol. Bydd canlyniadau'r astudiaethau hyn yn cael eu hystyried gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, a fydd yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb dros ariannu cymorth iechyd meddwl ym meysydd addysg uwch ac addysg bellach unwaith y bydd yn gwbl weithredol.

Yn ogystal â datblygu'r cynllun peilot iechyd meddwl, mae'r Grŵp Cynghori hefyd wedi cyflawni ei nod o gyfrannu at ddatblygu strategaeth newydd Law yn Llaw at Iechyd Meddwl a'i llywio. Dan arweiniad swyddogion iechyd meddwl Llywodraeth Cymru, cymerodd aelodau'r grŵp ran mewn gweithdy rhanddeiliaid, lle buont yn trafod y datganiadau ynghylch gweledigaeth ac yn nodi'r hyn sy'n wahanol a'r hyn sy'n debyg yn eu dulliau a'u heriau o ran darpariaeth iechyd meddwl.

Yn ogystal â'r cyd-ymateb ansoddol hwn, byddwn yn ystyried ymateb unigolion i'r arolwg cyn-ymgynghori a gynhaliwyd dros yr haf.  Gwaith y Grŵp Cynghori a'r ymatebion i'r ymgynghoriad sydd wedi llywio'r strategaeth iechyd meddwl ddrafft a fydd yn cael ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ddechrau'r flwyddyn nesaf. Mae'n cynnwys cael gwared ar rwystrau i fynediad at wasanaethau iechyd meddwl a sicrhau mynediad hawdd at wybodaeth am gymorth i fyfyrwyr.

Mae iechyd meddwl a lles myfyrwyr yn flaenoriaeth allweddol i Weinidogion ac, wrth i'r Comisiwn gael ei sefydlu yn y flwyddyn newydd ac wrth ystyried ei flaenoriaethau strategol, rydym yn disgwyl iddo barhau â'r gwaith traws-bolisi hwn gyda'r sector iechyd i ddarparu cymorth iechyd meddwl ar y lefel gywir ar yr adeg gywir.

Diolch ichi am eich diddordeb parhaus yn y mater hwn.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

**Lynne Neagle AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing

ANNEX A

**Grŵp Cynghori (Cenedlaethol) ar Iechyd Meddwl ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch**
**Cylch Gorchwyl**

**Prif Gyflawniadau**

- Darparu set o gyngor a chamau gweithredu i lywio'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth Iechyd Meddwl newydd i Gymru
- Sefydlu dull cenedlaethol o wella mynediad at gymorth iechyd meddwl o fewn gofal sylfaenol ar gyfer myfyrwyr addysg ôl-16 ledled Cymru
- Sefydlu dull cyson o ymdrin ag atgyfeiriadau a chymorth iechyd meddwl ar draws y sectorau addysg ôl-16 a'r GIG
- Nodi'r bylchau neu'r rhwystrau o ran hyfforddiant ac adnoddau i arfogi myfyrwyr i hunanreoli eu hiechyd meddwl a'u llesiant

**Diben a Chwmpas y Grŵp**

Diben y Grŵp yw mynd i'r afael â'r cwestiynau canlynol:

- Pa rwystrau sy'n bodoli i atal myfyrwyr ôl-16 rhag cael mynediad at y gwasanaethau iechyd meddwl a'r gwasanaethau cymorth cywir a sut y gellir eu goresgyn?
- Beth (arall) y gall sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch ei wneud i gefnogi atal a/neu ymyrryd yn gynnar?

Er mwyn cyflawni hyn, bydd y Grŵp yn:

- Adolygu pa rai o'r argymhellion a nodir yn y cynigion polisi iechyd meddwl ôl-16 y dylid eu blaenoriaethu, a chytuno ar yr argymhellion hynny
- Nodi unrhyw gamau y gellid eu cymryd ar unwaith i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion brys a nodwyd
- Gweithredu fel rhyngwyneb rhwng y sector iechyd a'r sectorau addysg bellach ac addysg uwch – gan ganolbwyntio ar nodi rhwystrau a sicrhau mynediad teg at gymorth lle bo angen
- Meddu ar wybodaeth sy'n benodol i'r sector, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymchwil a gweithgareddau ym maes Iechyd Meddwl ac Addysg
- Cynghori ar ddefnyddio data a gesglir yn rheolaidd ar draws y sectorau a sut y gall lywio gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- Ystyried yr hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i gefnogi'r gwaith o gyflwyno dull cenedlaethol

DS Nid grŵp penderfynu yw hwn. Rôl y Grŵp yw darparu cyngor i lywio penderfyniadau gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Llesiant.

**Pa mor aml y cynhelir cyfarfodydd a sut y cânt eu rheoli**

Bydd y Grŵp yn cyfarfod i ddechrau ar 6 Chwefror 2023 ac yna'n cyfarfod bob dau fis ar ôl hynny. Bydd pob cyfarfod yn cael ei drefnu ymlaen llaw ac yn cael ei gynnal drwy Teams neu wyneb yn wyneb pe bai'n well gan aelodau. Ni fydd y cyfarfodydd yn para mwy na dwy awr.

Hyd: Bydd y Grŵp yn cael ei sefydlu am gyfnod o chwe mis ac ar ddiwedd y chwe mis bydd yn cael ei adolygu i ystyried effeithiolrwydd y dull.

Cyhoeddir papurau ar gyfer y cyfarfod (ynghyd â'r diweddaraf ar gamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol) dri diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.

Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am ysgrifenyddiaeth y cyfarfodydd.

**Cadeirio'r cyfarfodydd**

Bydd y cyfarfodydd yn cael eu cadeirio gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Llesiant.

**Aelodaeth o'r Grŵp**
Bydd yr aelodaeth yn cynnwys uchafswm o ddeg aelod. Mae aelodau wedi'u dewis yn seiliedig ar eu harbenigedd ym maes iechyd meddwl a llesiant a'r sectorau addysg bellach ac addysg uwch, ac yn cynnwys cynrychiolwyr o gymdeithasau myfyrwyr.

**Bydd aelodaeth o'r Grŵp yn cynnwys:**
Cadeirydd – Lynne Neagle AS, y Dirprwy Weinidog Iechyd a Llesiant
Orla Tarn – Llywydd Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru
Ben Lewis – Cadeirydd Cymdeithas Rheolwyr Gwasanaethau Myfyrwyr Cymru a Chyfarwyddwr Bywyd Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd
Yr Athro Ann John – Athro Gwyddor Data Iechyd
Amanda Wilkinson – Cyfarwyddwr Prifysgolion Cymru
David Hagendyk – Prif Weithredwr Colegau Cymru
Jane Johns – Pennaeth Ehangu Mynediad a Chynhwysiant Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Angela Jones – Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Swyddogion Llywodraeth Cymru**
Alex Slade – Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl
Sinead Gallagher – Dirprwy Gyfarwyddwr Addysg Uwch
Karron Williams – Uwch-reolwr Polisi Ansawdd ac Effeithiolrwydd
Matt Downton – Pennaeth Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed
Os na all aelodau ymuno â chyfarfodydd, mae croeso iddynt anfon dirprwy ar eu rhan neu roi sylwadau ymlaen llaw drwy e-bost.

**Trefniadau Adrodd**
Gofynnir i aelodau, sydd â'r dasg o gwblhau gweithgareddau i gefnogi gwaith y Grŵp, roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Ysgrifenyddiaeth yn unol ag amserlen y cytunwyd arni.

Bydd y Grŵp yn adrodd ar ei gyflawniadau ar ddiwedd y cyfnod o chwe mis.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

SeneddPlant@senedd.cymru

21 Rhagfyr 2023

Annwyl Jayne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Tachwedd at y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ynghylch cludiant i ddysgwyr. Rwy'n ymateb gan fod y Dirprwy Weinidog yn sâl.

Rwy'n gwerthfawrogi'r gwaith pwysig y mae'r Pwyllgor yn ei wneud yn y maes hwn a'r sylwadau a wnaed gan deuluoedd, pobl ifanc a'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli. Rwy'n cydymdeimlo â'r pryderon a godwyd mewn perthynas â theithio gan ddysgwyr ac yn cydnabod pwysigrwydd y mater hwn i rieni, plant a phobl ifanc.

Mae teithio gan ddysgwyr yn faes cymhleth trawsbynciol. Fel y mae aelodau'r Pwyllgor yn ei wybod, Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) yw'r fframwaith deddfwriaethol sy'n sail i gludiant i ddysgwyr yng Nghymru. Cyhoeddwyd adolygiad o'r Mesur hwn yn 2022 a chynhaliwyd ymarfer dadansoddi a gwerthuso mewnol pellach yn gynharach eleni. Mae'r darnau hyn o waith yn adlewyrchu canfyddiadau gwahanol ddarnau o waith gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, bod anghenion cludiant i ddysgwyr yn gymhleth, yn ogystal â'r rhwydweithiau, yr offer a'r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau cludiant effeithiol o'r cartref i'r ysgol.

Fodd bynnag, er gwaethaf yr heriau hyn, credwn fod cyfleoedd i ddulliau arloesol gael eu rhoi ar waith i wella cysondeb a darparu cymorth teithio i ddysgwyr ledled Cymru. Nodir y cyfleoedd hyn yn yr Adroddiad Argymhellion ynghylch Teithio gan Ddysgwyr a gyhoeddir ym mis Ionawr 2024. Mae'r adroddiad yn nodi llwybr cymedrol i ddatblygu cynnig teithio diogel a chynaliadwy i ddysgwyr sy'n cyd-fynd â pholisïau a dyheadau Llywodraeth Cymru, gan

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol sydd wedi digwydd ers cyflwyno'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) yn 2008.

Diolch am godi canfyddiadau'r Pwyllgor gyda mi. Rwyf wedi mynd i'r afael â phob un o'ch themâu yn eu tro er hwylustod.

**Y dystiolaeth a gasglwyd: Beth yw eich barn ar y dystiolaeth a gasglwyd gennym? A yw hyn yn adlewyrchu eich dealltwriaeth o’r materion ledled Cymru, a’r effaith y gall ei chael ar fynediad i addysg a gofal plant?**

Bydd gennym ddiddordeb i ddarllen adroddiad terfynol adolygiad presennol y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch a oes gan blant a phobl ifanc anabl fynediad cyfartal at addysg a gofal plant, a diolchwn i'r Pwyllgor am edrych ar y mater pwysig hwn.

Yn y cyfamser, rwy'n gwerthfawrogi eich bod yn rhannu'n uniongyrchol â mi'r canfyddiadau perthnasol ynghylch profiadau plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) o deithio i'w mannau dysgu ac oddi yno a'r effaith y gall hynny ei chael ar aelodau ehangach o'r teulu.

Mae dysgwyr ag ADY yn aml yn wynebu mwy o rwystrau cymdeithasol, nid yn unig o ran eu dysgu. Felly, rydym yn disgwyl bod gofal ychwanegol yn cael ei gymryd ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed sy'n cael mynediad at gludiant a ddarperir gan awdurdodau lleol, er mwyn sicrhau mwy o gysondeb o ran eu diogelwch a'u lles.

Mae'r Cynllun Datblygu Unigol (CDU) yn cynnwys darpariaeth i anghenion cludiant i blant a phobl ifanc ag ADY gael ei gofnodi, ac mae'n gyfle i unigolion, eu teuluoedd a'r awdurdod perthnasol sicrhau bod y ddarpariaeth briodol yn cael ei cheisio. Gall cwblhau'r adran trefniadau teithio mewn Cynlluniau Datblygu Unigol, pan fo'n berthnasol, helpu i gydlynu a darparu cludiant ysgol i'r dysgwyr mwyaf agored i niwed.

Rydym yn clywed am ddysgwyr ag ADY yn wynebu anawsterau cludiant wrth gael mynediad i addysg bellach a bod y ddarpariaeth o ran cludiant yn anghyson ledled Cymru. Fel y mae'r llythyr yn awgrymu gall hyn fod yn broblem arbennig i'r rhai dros 19 oed. Yn aml, bydd dysgwyr ag ADY mwy cymhleth yn aros yn yr ysgol nes eu bod tua 19 oed cyn parhau â'u haddysg mewn coleg addysg bellach.

Rydym yn ymwybodol o'r hyfforddiant teithio annibynnol rhagorol y mae Cyngor Caerdydd yn ei gyflwyno i bobl ifanc i ddarparu sgiliau gydol oes iddynt allu cael mynediad at fannau dysgu, cyflogaeth a chyfleoedd cymdeithasol drwy roi'r sgiliau a'r hyder iddynt ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Er na fydd y math hwn o ymyrraeth yn addas i bawb, hoffem annog mwy o awdurdodau lleol, a sefydliadau dysgu i ystyried opsiynau amgen.

Mae cludiant i weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys darpariaeth fel clybiau brecwast, yn fater heriol sy'n wynebu pob plentyn a pherson ifanc. Nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu cludiant ar gyfer y gweithgareddau hyn. Gwnaeth adolygiad 2022 o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) dynnu sylw at y ffaith, hyd yn oed os oedd gennym yr adnoddau ariannol i gefnogi darpariaeth o'r fath, bod y gwendid mewn rhwydweithiau a seilwaith presennol yn gwneud gweithredu ac ehangu'r ddarpariaeth yn anodd. Yn syml, nid oes gennym y gyrwyr bysiau, y gweithredwyr bysiau, na'r capasiti yn adeiladau ein hysgolion na'r adnoddau lleol i allu darparu cludiant ysgol ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol ar ben y ddarpariaeth statudol. Mae ein dyheadau i gyflwyno rhwydwaith bysiau wedi'i fasnachfreinio sy'n cael ei lywio'n lleol, wedi'i ategu gan rwydweithiau trafnidiaeth gymunedol, gobeithio, yn cynnig cyfleoedd i fynd i'r afael â rhai o'r

materion hygyrchedd hyn i blant a phobl ifanc ledled Cymru drwy fanteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael.

Mae'r adroddiad Argymhellion ynghylch y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) yr ydym yn gobeithio ei gyhoeddi yn fuan yn argymell diweddaru'r ddogfen ganllawiau statudol ar unwaith i wella cysondeb o ran y ddarpariaeth ar draws yr awdurdodau lleol, a sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'r newidiadau deddfwriaethol sydd wedi digwydd gan gynnwys deddfu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Bydd y dystiolaeth rydych wedi'i chyflwyno yn helpu i lywio'r gwaith o ddiweddaru'r dogfennau canllaw hyn. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod awdurdodau lleol a phartneriaid cyflawni eraill yn ystyried arferion gorau o ran caffael contractau i gynnwys safonau gofynnol o ymwybyddiaeth a hyfforddiant ynghylch cludo plant ag ADY.

**Adroddiad Absenoldeb Disgyblion:**
**A allwch chi amlinellu safbwynt presennol Llywodraeth Cymru ar ein hargymhelliad?**

Mae'r rhesymau dros absenoldeb mewn ysgolion yn amlochrog. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i archwilio'r achosion o ran lefelau isel o bresenoldeb dysgwyr mewn ysgolion, a sut y gellid mynd i'r afael â hyn ar lefel leol a chenedlaethol. Byddwn yn defnyddio'r canfyddiadau i lywio datblygiadau ac ymyriadau polisi.

Ein huchelgais fydd darparu dull dysgwr yn gyntaf o ran teithio gan ddysgwyr, ond mae'n rhaid i ni fod yn realistig o safbwynt yr heriau y tynnwyd sylw atynt yn yr adolygiad cyntaf ynghylch rhwydweithiau, offer ac adnoddau trafnidiaeth sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau effeithiol ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol. Fe wnaeth yr ymarfer gwerthuso a dadansoddi mewnol a gynhaliwyd yn gynharach eleni gasglu ystod eang o dystiolaeth leol, genedlaethol a rhyngwladol i nodi dulliau arloesol o ddarparu trefniadau teithio i ddysgwyr. Mae awdurdodau lleol ledled Cymru eisoes yn defnyddio rhai arferion rhagorol ac arloesol i wneud y mwyaf o adnoddau i wella'r ddarpariaeth trafnidiaeth i ddysgwyr a'r gymuned ehangach. Rydym am ymgorffori'r strwythurau cywir fel y gall awdurdodau lleol a phartneriaid cyflawni eraill rannu a lledaenu arferion gorau i wella cysondeb y ddarpariaeth, ac i sicrhau bod y seilwaith trafnidiaeth ar waith i leihau unrhyw rwystrau o ran cael mynediad at addysg.

**Deisebau:**
**Wrth i ni nesáu at ddiwedd y flwyddyn, a allwch chi roi gwybod beth sydd wedi digwydd ers i'r cyngor hwn gael ei gyflwyno i chi dros yr haf? Beth fydd y camau nesaf, a phryd y byddant yn arwain at newid ar lawr gwlad i ddysgwyr ledled Cymru? Er ein bod yn cydnabod y cymhlethdodau sy'n ymwneud â theithio gan ddysgwyr a'r heriau ariannol parhaus a wynebir ar draws y sector cyhoeddus, credwn fod gwir angen cyflymdra a brys wrth ymdrin â'r mater pwysig hwn.**

Cynhaliwyd ymarfer dadansoddi a gwerthuso mewnol yn gynharach eleni. Bydd copi o'r adroddiad hwn sy'n amlinellu cyfres o argymhellion i wella cysondeb ac ansawdd y ddarpariaeth cludiant i ddysgwyr ledled Cymru, yn cael ei anfon i'r Pwyllgor.

**Y Comisiynydd Plant:**
**Byddem yn croesawu eich barn ar argymhelliad y Comisiynydd ar gyfer cynllun peilot trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i blant a phobl ifanc o dan 18 oed yn ystod tymor y Senedd hon.**

Un o brif amcanion Strategaeth Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru, Llwybr Newydd, yw lleihau cost teithio cynaliadwy i **bawb** yng Nghymru, gan gynnwys pobl ifanc.

O fewn y model gweithredu presennol bydd plant hyd at 5 oed yn cael teithio am ddim ar fysiau lleol pan fyddant yng nghwmni oedolyn. Bydd y rhai rhwng 5 oed a hyd at 16 oed hefyd yn gallu derbyn naill ai tocyn hanner pris neu 1/3 oddi ar y pris bws arferol, yn dibynnu ar y gweithredwr bws, neu os yw'r gwasanaeth yn gweithredu o dan gontract i'r awdurdod lleol.

Rydym wedi edrych ar amrywiaeth o opsiynau i wneud teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus yn haws, yn fwy hygyrch ac yn fforddiadwy i bawb yn y gymuned drwy symleiddio'r system brisiau a thocynnau. Rydym wedi ymgymryd â darn cynhwysfawr o waith cynllunio ynghylch opsiynau i ddarparu cynnig ‘Prisiau Siwrneiau Tecach’ i deithwyr bysiau yng Nghymru, sydd wedi cynnwys y posibilrwydd o gyflwyno cap ar docynnau sengl, tocynnau parth, tocynnau bws a thrên integredig a thocynnau ychwanegol i bobl ifanc. Mae rhai o'r mentrau hyn yn cael eu treialu ar hyn o bryd ar rwydwaith TrawsCymru a weithredir gan Trafnidiaeth Cymru, a byddwn yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd yn sgil hynny i lywio datrysiad hirdymor, cynaliadwy a fforddiadwy a fydd yn annog newid dulliau teithio i bawb.

O dan y model gweithredu presennol, yr unig ffordd y gallwn gynnig teithio am bris rhatach neu am ddim yw trafod trefniadau ad-dalu gyda gweithredwyr sydd wedi profi i fod yn gostus, fel y gwelwyd gyda'r cynnig teithio am ddim i rai dan 22 oed yn yr Alban. Bydd y Bil Bysiau arfaethedig, y byddwn yn ei gyflwyno gerbron y Senedd yn 2024, yn rhoi cyfle i ni edrych o'r newydd ar ddarpariaeth gwasanaethau bysiau ledled Cymru, gan gynnwys bwrw ymlaen â'n gwaith ar brisiau siwrneiau tecach (ac felly'r posibilrwydd o ran darpariaeth ychwanegol ar gyfer plant a phobl ifanc). Gan fod ein hamcanion yn uchelgeisiol, bydd y diwygiadau hyn yn cymryd amser, ond mae'n hanfodol ein bod yn cael hyn yn iawn i gefnogi holl ddinasyddion Cymru.

Yn y cyfamser, rydym yn ariannu ac yn darparu'r cynllun FyNgherdynTeithio ar gyfer pobl ifanc 16 i 21 oed sy'n darparu tua 1/3 oddi ar gost teithio ar fysiau. Mae nifer o docynnau rhwydwaith bysiau rhatach ar gael ledled Cymru hefyd, a nifer o gyfleoedd ar gyfer prisiau teithio rhatach ar rwydwaith rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru. Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Senedd Ieuenctid Cymru, *Ffyrdd Gwyrdd,* wedi tynnu sylw at yr angen i wneud rhagor o waith i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ymwybodol o'r cynlluniau hyn. Felly, rydym wedi gofyn i Trafnidiaeth Cymru gynnal ymgyrch i godi proffil y gostyngiadau sydd ar gael i blant a phobl ifanc sy'n teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus.

**Plant yng Nghymru:**
**Pa waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i liniaru pwysau costau byw ar gostau trafnidiaeth i blant, pobl ifanc a’u teuluoedd?**

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i awdurdodau lleol ar gyfer darpariaeth cyn-16 mewn ysgolion drwy'r Setliad Refeniw Llywodraeth Leol, a hynny ar ffurf y Grant Cynnal Refeniw (RSG). Nid yw'r Grant Cynnal Refeniw wedi'i glustnodi, mae'r cyllid a roddir i bob awdurdod ar gael iddo ei wario fel y gwêl yn briodol ar yr amrywiaeth o wasanaethau y mae'n gyfrifol amdanynt, gan gynnwys cludiant i'r ysgol. Wrth benderfynu ar lefel y cyllid sydd ei angen i gyflawni eu dyletswyddau statudol, caiff awdurdodau lleol ddefnyddio ffynonellau cyllid eraill y tu allan i'r Grant Cynnal Refeniw.

Yn 2022/23 nododd awdurdodau lleol gyfanswm gwariant o £160 miliwn ar gludiant o'r cartref i'r ysgol. Mae'r data diweddaraf a gyhoeddwyd sy'n amlinellu gwariant awdurdodau lleol ar addysg, gan gynnwys teithio gan ddysgwyr, ar gael yn y ddolen ganlynol: *Gwariant refeniw addysg, yn ôl awdurdod a gwasanaeth (£ mil) (llyw.cymru)*

Fel yr amlinellwyd uchod, rydym wedi ymrwymo, ynghyd â Trafnidiaeth Cymru, i fwrw ymlaen â darn o waith i gynnal ymgyrch wedi'i thargedu a datblygu adnoddau perthnasol a hygyrch,

er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ymwybodol o'r holl gymorth trafnidiaeth gyhoeddus y gallant gael gafael arno, gan gynnwys:

- Mae plant hyd at 5 oed yn teithio am ddim ar wasanaethau bysiau ledled Cymru, ac yna rhwng 5 oed a hyd at 16 oed maent yn teithio naill ai am hanner pris neu ddwy ran o dair oddi ar y pris arferol i oedolion.

- Mae "FyNgherdynTeithio" Llywodraeth Cymru yn gynllun teithio rhatach, sydd ar gael i bob person ifanc rhwng 16 a 21 oed. Mae'r cynllun hwn gwerth £2 filiwn yn darparu tua 30% oddi ar bris tocyn bws arferol i oedolion ar wasanaethau bysiau lleol ledled Cymru. I gael rhagor o fanylion am y cynllun, cliciwch ar y ddolen ganlynol: Hafan ❤ FyNgherdynTeithio | Llywodraeth Cymru.

- Yn ogystal, mae nifer o docynnau bws rhatach yn cael eu cynnig gan y gwahanol weithredwyr bysiau ledled Cymru.

- Gall plant dan 11 oed deithio am ddim ar wasanaethau rheilffyrdd a weithredir gan Trafnidiaeth Cymru, a gall y rhai dan 16 deithio am ddim ar wasanaethau Trafnidiaeth Cymru yn ystodau cyfnodau tawelach pan fyddant yn teithio gydag oedolyn sy'n prynu tocyn.

- Yn ogystal, mae'r cerdyn rheilffordd 16-17 Saver ar gael i'w ddefnyddio ar bob gwasanaeth rheilffordd ledled Cymru a Lloegr, gan gynnig 50% oddi ar y rhan fwyaf o docynnau trên bob dydd o'r flwyddyn heb unrhyw gyfyngiadau amser a dim isafswm pris am gost flynyddol o £30.

- Gellir defnyddio'r grant Lwfans Cynhaliaeth Addysg ar gyfer addysg bellach i gefnogi costau teithio: Lwfans Cynhaliaeth Addysg, cyllid ar gyfer Addysg Bellach | Cyllid Myfyrwyr Cymru

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi llunio rhestr o gymorth a chyngor i helpu unigolion a theuluoedd gyda chostau byw. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei diweddaru'n rheolaidd ac mae ar gael ar y ddolen ganlynol: Cael help gyda chostau byw | LLYW. CYMRU

**Senedd Ieuenctid Cymru:**
**Beth yw eich barn ar yr argymhellion a wnaed gan Senedd Ieuenctid Cymru?**

Gweler ynghlwm Atodai A, ein hymateb ysgrifenedig i Senedd Ieuenctid Cymru.

**Pwysau ariannol ar awdurdodau lleol:**
**I ba raddau y mae Llywodraeth Cymru yn monitro newidiadau yn narpariaeth awdurdodau lleol o ganlyniad i gyfyngiadau ariannol; a'r effaith y mae hynny wedyn yn ei chael ar ymgysylltiad a phresenoldeb dysgwyr?**

Rydym yn monitro'r ddarpariaeth o ran cludiant i'r ysgol yr awdurdodau lleol yn ofalus drwy ein gwaith gyda'r Gymdeithas Swyddogion Cydgysylltu Trafnidiaeth (ATCO), sy'n darparu fforwm i awdurdodau lleol godi unrhyw bryder ar y mater hwn. Fel rhan o'r ymarfer dadansoddi a gwerthuso diweddar, gwnaethom adolygu cludiant o'r cartref i'r ysgol pob un o'r 22 awdurdod lleol a chawsom ymatebion i'r arolwg gan 14 awdurdod lleol a roddodd wybodaeth am eu costau, modelau cyflawni, materion a rhwystrau sy'n gysylltiedig â chludiant o'r cartref i'r ysgol mewn perthynas â'r Mesur a'r canllawiau cysylltiedig.

Mae rhai arferion rhagorol iawn wedi'u nodi gydag awdurdodau lleol yn meddwl yn greadigol ac yn arloesol am eu darpariaeth teithio gan ddysgwyr. Er enghraifft, y ddarpariaeth

hyfforddiant teithio annibynnol buddsoddi i arbed yng Nghaerdydd a Chyngor Sir Fynwy yn adolygu eu darpariaeth o ran trafnidiaeth gymunedol ac yn cydweithio â gweithredwyr bysiau i wneud y gorau o'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio rhwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus i gael mynediad i'w mannau dysgu. Rydym yn cefnogi ac yn annog mwy o'r dull integredig hwn a darparu gwasanaethau cydgysylltiedig ledled Cymru.

Rwy'n gobeithio bod y llythyr hwn yn rhoi'r sicrwydd sydd ei angen ar eich pwyllgor ar hyn o bryd.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delyth Lewis
Staff Comisiwn y Senedd
Senedd Ieuenctid Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Delyth.Lewis@senedd.cymru

21 December 2023

Annwyl Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru,

Diolch am yr Adroddiad Ffyrdd Gwyrdd a gyhoeddwyd gan eich Pwyllgor Hinsawdd a'r Amgylchedd. Rwy'n eiriolwr brwd dros newid dulliau teithio ac annog pobl i adael eu ceir a theithio'n gynaliadwy, naill ai drwy deithio llesol neu ar drafnidiaeth gyhoeddus, ac mae canfyddiadau eich gwaith yn gyfraniad pwysig at hyrwyddo'r agenda hon ymhellach.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at faterion, safbwyntiau a heriau pwysig iawn ac rydym ni, fel llywodraeth, yn croesawu hyn. Hoffwn eich sicrhau bod Gweinidogion a swyddogion wedi astudio cynnwys ac argymhellion yr adroddiad yn fanwl a bydd eich canfyddiadau yn helpu i lywio'r polisïau y byddwn yn eu datblygu a'u rhoi ar waith wrth inni barhau ar ein taith drawsnewidiol i ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth integredig ledled Cymru.

Mae llawer o'ch argymhellion yn cyd-fynd â'n dyheadau a nodir yn Llwybr Newydd, sef ein Strategaeth Drafnidiaeth, lle rydym wedi nodi uchelgeisiau clir i greu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol integredig sy'n hygyrch, yn gynaliadwy ac yn effeithlon i bobl Cymru.

Rydym ar gamau cynnar y broses hon. Bydd y Bil Bysiau, yr ydym yn bwriadu ei gyflwyno gerbron y Senedd y flwyddyn nesaf, yn gam mawr tuag at gyflawni ein huchelgeisiau. Mae'r Bil yn cynnig cyfle inni ystyried o'r newydd y ffordd y darperir gwasanaethau bysiau ledled Cymru drwy symud oddi wrth rwydwaith masnachol (lle mae gweithredwyr bysiau preifat yn pennu pa lwybrau y maent yn eu rhedeg a faint y maent yn ei godi) i fodel cyflawni ar ffurf masnachfreintiau. Mae masnachfreinio gwasanaethau bysiau yn galluogi'r awdurdod masnachfreinio (sef Llywodraeth Cymru, yn ôl y bwriad) i nodi agweddau allweddol ar wasanaethau bysiau, gan gynnwys llwybrau, amserlenni, prisiau siwrneiau, oriau gweithredu a safonau ansawdd gwasanaethau – sef llawer o'r themâu a grybwyllir gan eich argymhellion. Bydd gweithredwyr bysiau felly'n gyfrifol am redeg y gwasanaethau hyn yn unol â chontractau

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

a ddyfernir gan yr awdurdod masnachfreinio. Gan fod ein nodau yn uchelgeisiol, bydd y diwygiadau hyn yn cymryd amser, ond mae'n hanfodol ein bod yn gwneud hyn yn gywir er mwyn cefnogi holl ddinasyddion Cymru.

Trafnidiaeth Cymru sy'n gyfrifol am gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru o gael rhwydwaith trafnidiaeth diogel, integredig, fforddiadwy, hygyrch ac o ansawdd uchel. Yn 2022, cyflwynodd Trafnidiaeth Cymru, gyda chymorth y Comisiynydd Plant, Siarter Plant a Phobl Ifanc. Gan adeiladu ar y gwaith hwn, rydym wedi gofyn iddi gyflymu'r broses o sefydlu Grŵp Cynghori Plant a Phobl Ifanc y gofynnir iddo ystyried opsiynau ar gyfer rhoi argymhellion eich adroddiad ar waith.

Byddaf yn mynd drwy bob argymhelliad yn ei dro fel bod gennych ddealltwriaeth glir o'n safbwynt a, lle y bo'n berthnasol, y camau y byddwn yn eu cymryd.

**THEMA – YMWYBYDDIAETH A DEALLTWRIAETH**

***Argymhelliad 1:***
Mannau dysgu i roi mwy o bwyslais ar wella dealltwriaeth pobl ifanc o ymarferoldeb sut y gallant deithio'n gynaliadwy yn eu hardal leol.

***Ymateb Llywodraeth Cymru:***
Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r teimladau yn yr argymhelliad hwn a byddwn yn parhau i gefnogi mannau dysgu i ddatblygu'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i annog a hyrwyddo teithio cynaliadwy yn eu hardal leol.

Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn hyrwyddo Teithio Llesol ac rydym wedi gweithio gyda Sustrans yn ddiweddar i helpu ysgolion i ddatblygu Cynlluniau Teithio Llesol Ysgolion, sy'n ceisio nodi rhwystrau i deithio llesol i'r ysgol a mynd i'r afael â nhw, er mwyn helpu i gynyddu nifer y disgyblion a'r staff sy'n cerdded, yn sgwtera neu'n beicio'n rheolaidd.

Lansiwyd cyfres o adnoddau a dulliau gweithredu ar 4 Hydref eleni ac maent ar gael, ar-lein, i'w defnyddio gan fannau dysgu. Mae'r buddsoddiad hwn yn cyd-fynd â'n rhaglen Teithiau Llesol hirsefydlog, a hyfforddiant beicio a hyfforddiant cerddwyr ifanc.

Mae rhaglen Cerdded i'r Ysgol newydd, a gaiff ei chyflwyno gan Living Streets, wedi dechrau gweithio gydag awdurdodau lleol ac ysgolion a bydd ar waith am ddwy flynedd gan roi'r sgiliau a'r adnoddau i ysgolion a'u dysgwyr sydd eu hangen arnynt i gefnogi teithio cynaliadwy.

***Argymhelliad 2:***
Mwy o ymdrechion i hyrwyddo teithio cynaliadwy, a chynlluniau fel FyNgherdynTeithio.

***Ymateb Llywodraeth Cymru:***

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai plant, pobl ifanc, eu teuluoedd a phobl ddylanwadol eraill yn eu bywydau fod yn gwbl ymwybodol o'r holl fanteision a chyfleoedd sydd ar gael iddynt i deithio'n gynaliadwy.

Roedd gweld mai dim ond cyfran isel o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg oedd yn gwybod am gynllun FyNgherdynTeithio yn destun pryder. Er y caiff ysgolion a cholegau wybod am y fenter bob blwyddyn, ac er ein bod wedi gofyn i bartneriaid cyflawni, fel y Comisiynydd Plant, hyrwyddo'r mentrau hyn hefyd, mae'r adroddiad yn dangos bod angen gwneud mwy o waith i hyrwyddo'r budd hwn.

Byddwn yn ystyried opsiynau gyda Trafnidiaeth Cymru i ddatblygu adnoddau cyfathrebu wedi'u teilwra i'w defnyddio gan ysgolion, colegau, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill, fel Senedd Ieuenctid Cymru, er mwyn hyrwyddo'r budd hwn i ymgeiswyr cymwys.

Credwn y dylai ymgyrch sy'n targedu pobl ifanc gael ei chyd-greu gyda phobl ifanc, drwy Grŵp Cynghori Plant a Phobl Ifanc Trafnidiaeth Cymru a gaiff ei sefydlu ddechrau 2024, a byddwn yn gofyn i'r grŵp flaenoriaethu'r argymhelliad hwn.

**THEMA - FFORDDIADWYEDD**

***Argymhelliad 3:***
Cyflwyno trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bobl o dan 25 oed.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**
Un o nodau allweddol Strategaeth Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru, Llwybr Newydd, yw lleihau cost teithio cynaliadwy i bawb yng Nghymru, gan gynnwys pobl ifanc, ac rydym yn ystyried amrywiaeth o opsiynau ar hyn o bryd i wneud teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus yn fwy fforddiadwy i bawb yn y gymuned, gan gynnwys pobl dan 25 oed drwy symleiddio'r system prisiau siwrneiau a thocynnu.

Rydym wedi ymgymryd â darn cynhwysfawr o waith cynllunio mewn perthynas ag opsiynau i gyflwyno cynnig 'Prisiau Siwrneiau Tecach' i deithwyr bysiau yng Nghymru, sydd wedi cynnwys y posibilrwydd o gyflwyno opsiwn ychwanegol ar gyfer tocynnau i bobl ifanc.

Fodd bynnag, rydym wedi cael setliad ariannu heriol gan Lywodraeth y DU. Yn dilyn pandemig COVID-19, rydym wedi gorfod blaenoriaethu ein cyllid ar gyfer bysiau er mwyn sicrhau bod gwasanaethau bysiau hanfodol yn cael eu cynnal wrth gadw prisiau siwrneiau mor isel â phosibl drwy'r amodau a nodir yn y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau a'r Gronfa Bontio bresennol ar gyfer Bysiau, sydd wedi cynnal y diwydiant bysiau yn llwyddiannus dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon, bydd Llywodraeth Cymru wedi darparu dros £200m o gyllid brys i ddiogelu ein rhwydwaith bysiau ledled Cymru ers dechrau pandemig COVID-19.Mae hyn yn golygu nad ydym wedi gallu gwneud cynnydd mor gyflym ag yr hoffem mewn perthynas â'n hymrwymiadau Prisiau Siwrneiau Tecach. Pan fydd y sefyllfa ariannol yn gwella, rydym yn awyddus i ddatblygu'r gwaith hwn a byddwn yn parhau i weithio gyda phlant a phobl ifanc er mwyn datblygu unrhyw ymyriadau yn y dyfodol.

***Argymhelliad 4:***

Cyflwyno cynlluniau i gefnogi pobl ifanc i gael mynediad at offer fel beiciau a hyrwyddo'r cynlluniau'n effeithiol.

***Ymateb Llywodraeth Cymru:***
Rydym yn cydnabod bod mynediad at feiciau, yn ogystal â diffyg mannau storio beiciau diogel, yn rhwystr pwysig i gynyddu nifer y bobl sy'n beicio. Drwy ein grantiau i awdurdodau lleol, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu fflydoedd beiciau i ysgolion fel bod beiciau sy'n addas i'r ffordd fawr ar gael ar gyfer hyfforddiant beicio ac i fynd ar deithiau yn ystod y diwrnod ysgol.

Rydym wedi cefnogi cynlluniau rhannu beiciau cyhoeddus mewn lleoedd fel Caerdydd, Bro Morgannwg ac Abertawe, sy'n cynnig beiciau fforddiadwy i'w llogi. Mae nifer mawr o elusennau a mentrau cymdeithasol ledled Cymru eisoes, sy'n trwsio ac yn ailwerthu beiciau ail law, sy'n golygu bod prynu beic yn llawer mwy fforddiadwy.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried opsiynau i roi mwy o gymorth i'r sector hwn ar hyn o bryd ac yn annog cynlluniau mewn ardaloedd lle nad oes rhai yn bodoli ar hyn o bryd.

***Argymhelliad 5:***

Mwy o fuddsoddiad yn ein gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus, gan ganolbwyntio ar:

- Ehangu llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus
- Cynyddu amlder gwasanaethau
- Sicrhau bod gwasanaethau'n ddibynadwy
- Lleihau amseroedd teithio

***Ymateb Llywodraeth Cymru:***

Mae'r model gweithredu wedi'i breifateiddio ar gyfer bysiau ar hyn o bryd yn golygu bod bysiau yn cael eu rhedeg gan gwmnïau masnachol er mwyn gwneud elw. Nid yw'r model hwn yn rhoi'r adnoddau na'r hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru wneud y newidiadau y gofynnir amdanynt yn yr argymhellion.

Fodd bynnag, bydd y Bil Bysiau a gaiff ei gyflwyno gerbron y Senedd y flwyddyn nesaf, yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol i gyflwyno model cyflawni ar ffurf masnachfreintiau lle bydd Llywodraeth Cymru, ynghyd â'n partneriaid cyflawni, yn gallu datblygu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus gwirioneddol integredig er mwyn adlewyrchu gofynion cymunedau lleol.

O dan y model masnachfreinio, byddem yn gallu rhedeg llwybrau bysiau sy'n gweithio ar gyfer cymunedau lleol, sy'n integreiddio â gwasanaethau rheilffyrdd ac sy'n cysylltu â llwybrau Teithio Llesol. Byddwn yn gallu cyflwyno un tocyn i bobl allu defnyddio pob dull teithio, gydag un amserlen y gellir ei chysoni â gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd eraill.

Er mwyn paratoi ar gyfer y newid radical hwn, rydym yn cydweithio â Trafnidiaeth Cymru ac awdurdodau lleol i gytuno ar ffurf rhwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus yn rhanbarthau gwahanol Cymru. Rydym yn gweithio i ddarparu rhwydwaith cydlynol a chyson sydd wedi'i gynllunio'n dda ac sy'n ystyriol o deithwyr, gyda thocynnau fforddiadwy a syml a fydd yn ddilys ar gyfer pob gwasanaeth.

**Argymhelliad 6:**
Gwella cysylltedd rhwng gwahanol ddulliau teithio cynaliadwy.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae cynllunio teithiau integredig yn un o'r pedair ffrwd waith yn Llwybr Newydd, gan gydnabod bod angen ymdrin â'r broses o gynllunio teithiau mewn ffordd gyfannol ac integredig er mwyn newid dulliau teithio, a gweithio ar draws sectorau a dulliau gwahanol er mwyn ei gwneud yn haws i bobl deithio o ddrws i ddrws gan ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy. Mae cynllunio teithiau integredig yn ymwneud ag ystod gymhleth o faterion fel amserlennu, darparu gwybodaeth, cynllunio seilwaith a datblygu polisïau.

Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol ddatblygu Cynllun Rhwydwaith Teithio Llesol lle mae wedi cynllunio'r llwybrau cerdded a beicio ym mhob un o'i drefi – mae gorsafoedd trenau a bysiau yn gyrchfannau allweddol ar gyfer y llwybrau hyn. Mae Trafnidiaeth Cymru yn

gweithio gydag awdurdodau lleol i wneud gwelliannau mewn gorsafoedd, er enghraifft drwy greu mannau diogel i barcio beiciau.

Fel yr amlinellir mewn ymateb i argymhelliad 5, drwy gyflwyno model cyflawni ar ffurf masnachfreintiau ar gyfer y rhwydwaith bysiau, byddwn yn gallu datblygu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol integredig, gan wella cysylltedd rhwng gwahanol ddulliau teithio cynaliadwy.

***Argymhelliad 7:***
Cael gwared â rhwystrau sy'n wynebu gwahanol grwpiau gan gynnwys pobl ifanc niwroamrywiol a'r rhai ag anableddau corfforol.

***Ymateb Llywodraeth Cymru:***
Mae diogelwch yn thema allweddol yn ein Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb sydd ar ddod, sef un o ffrydiau gwaith eraill Llwybr Newydd.

Rydym am i bawb deimlo'n hyderus ac yn ddiogel wrth ddefnyddio'r dull teithio cynaliadwy o'u dewis. Bydd y cynllun gweithredu yn cynnwys mesurau i fynd i'r afael â diogelwch personol ar drafnidiaeth gyhoeddus, ar lwybrau teithio llesol ac ar y ffordd. Byddwn hefyd yn ystyried diogelwch wrth ymdrin â phob agwedd ar bolisi a chynllunio trafnidiaeth, gan gynnwys wrth ddylunio seilwaith.

Caiff y Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb ei gyhoeddi ar ddechrau 2024. Byddwn yn sicrhau bod y Grŵp Cynghori Plant a Phobl Ifanc yn cael yr opsiwn i ymgysylltu â'r gwaith cynllunio trafnidiaeth hwn wrth iddo ddatblygu.

Wrth ddatblygu polisïau a rhaglenni a'u rhoi ar waith, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r Model Cymdeithasol o Anabledd, gan gydnabod bod y rhai a gwmpesir gan y diffiniad cyfreithiol o anabledd yn cael eu hanablu'n aml gan rwystrau mewn cymdeithas, yn hytrach na chan eu nam neu eu cyflwr. Byddwn yn defnyddio'r dull gweithredu hwn wrth ddatblygu ein rhwydwaith wedi'i fasnachfreinio.

Mae gan Trafnidiaeth Cymru banel mynediad a chynhwysiant sy'n cynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig. Mae'r panel hwn yn helpu i graffu ar ein polisïau hygyrchedd a chynghori ar sut i ymgysylltu â theithwyr a'u cefnogi i ddefnyddio gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd.

**THEMA - LLWYBRAU TEITHIO LLESOL**

***Argymhelliad 8:***
Mwy o fuddsoddi mewn llwybrau teithio llesol, gyda ffocws ar wella diogelwch a hygyrchedd. Yn benodol, hoffem weld:

- mwy o lwybrau cerdded, beicio ac olwyno
- mwy o lonydd beicio ar wahân
- gwelliannau yng nghyflwr llwybrau a phalmentydd

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Yr hydref hwn, gwnaethom ddathlu 10 mlynedd ers pasio'r Ddeddf Teithio Llesol. Cafodd hyn ei nodi gan Aelodau o'r Senedd o bob plaid mewn digwyddiad a drefnwyd gan y Grŵp Trawsbleidiol ar Deithio Llesol ar 4 Hydref, gan ailgadarnhau eu hymrwymiad, a'n hymrwymiad ninnau, i wneud Cymru'n genedl cerdded a beicio.

Rydym wedi dyrannu ychydig llai na £55m i awdurdodau lleol ar gyfer seilwaith teithio llesol drwy'r Gronfa Teithio Llesol a'r Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau ar gyfer 2023/24. Mae'r cyllid hwn ar gael i awdurdodau lleol wneud gwelliannau i gyfleusterau a llwybrau cerdded a beicio.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn annog awdurdodau lleol ledled Cymru i gyflwyno School Streets, sef menter i gau ffyrdd o amgylch ysgolion ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol, er mwyn gwella amodau cerdded a beicio, gwella diogelwch ar y ffyrdd a lleihau llygredd aer.

***Argymhelliad 9:***

Cynyddu nifer y cyfleusterau ar gyfer parcio beiciau’n ddiogel mewn cymunedau, ac yn enwedig mewn mannau dysgu.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Rydym yn cytuno ag egwyddor yr argymhelliad hwn ac yn rhoi grantiau i awdurdodau lleol er mwyn gallu datblygu'r seilwaith hwn. Mae ein cyllid grant i awdurdodau lleol ar gyfer cyfleusterau a llwybrau cerdded, olwyno a beicio. Gall pob awdurdod lleol gael gafael ar swm penodol o arian bob blwyddyn, sydd o leiaf £500,000 ar hyn o bryd, er mwyn gwneud gwelliannau ar raddfa fach neu wneud gwaith paratoi ar gyfer prosiectau mwy. Gellir defnyddio'r cyllid hwn i greu mannau diogel i barcio beiciau lle mae angen hynny.

Yn ogystal, un o nodau penodol y Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau yw gwella'r amodau ar gyfer cerdded, olwyno a beicio i fannau dysgu ac ohonynt, a chaiff ei ddefnyddio'n aml i ariannu mannau i storio beiciau a sgwteri..

Fel rhan o'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, mae'n rhaid i gynigion ar gyfer mannau dysgu newydd, neu welliannau i fannau dysgu, gynnwys manylion am drefniadau digonol, diogel a hwylus i storio beiciau.

**THEMA – ARWYDDION, TOCYNNAU, A GWYBODAETH AMSERLENNU**

***Argymhelliad 10:***

Gwelliannau o ran y wybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol sydd ar gael a’r dull o’i chyfathrebu, gan ei gwneud yn fwy hygyrch, fel ei bod yn haws gweld sut y gellir defnyddio gwahanol ddulliau teithio i gyrraedd y cyrchfan.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae Deddf Teithio Llesol 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru greu mapiau o rwydweithiau cerdded a beicio yn eu hardal leol, a gaiff eu galw'n Fapiau Rhwydwaith Teithio Llesol. Bwriedir i'r mapiau hyn ddangos dau brif beth:

1. Llwybrau presennol – y llwybrau cerdded a beicio hynny sydd eisoes yn bodloni safonau teithio llesol Llywodraeth Cymru, sy'n golygu y gellir eu defnyddio'n rhwydd ar gyfer teithiau pob dydd,
2. Llwybrau yn y dyfodol – llwybrau newydd y mae'r awdurdod lleol yn cynnig eu creu yn y dyfodol, yn ogystal â llwybrau presennol y bwriedir eu gwella fel eu bod yn cyrraedd y safonau.

Wrth ddatblygu'r mapiau hyn, mae'n rhaid i awdurdodau lleol ymgynghori ar y rhwydweithiau hyn ar y cam cynllunio. Yna, dylent hefyd ymgysylltu â'r gymuned leol wrth ddatblygu pob

prosiect hyd at y cam adeiladu. Gellir gweld y mapiau cymeradwy ar MapDataCymru. [Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol | MapDataCymru (llyw.cymru)]

Gan weithio gyda Trafnidiaeth Cymru a'r Grŵp Cynghori Plant a Phobl Ifanc, byddwn yn ystyried opsiynau i ddatblygu cynlluniwr teithiau aml-ddull hygyrch.

***Argymhelliad 11:***
Gwella'r wybodaeth amser real a ddarperir i ddangos cynnydd ac amseroedd cyrraedd wedi'u diweddaru ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus, pan fydd oedi.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**
Rydym yn cytuno y dylai gweithredwyr trafnidiaeth gyhoeddus fod yn defnyddio technolegau modern i wneud yn siŵr bod gwybodaeth dda ar gael yn hawdd i bobl.

Bydd system drafnidiaeth integredig, sy'n seiliedig ar rwydwaith bysiau wedi'i fasnachfreinio, fel yr amlinellir yn Llwybr Newydd, yn galluogi Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â Trafnidiaeth Cymru, i nodi'r gofynion o ran gwasanaethau, gan gynnwys nodweddion fel darparu gwybodaeth amser real, mewn contractau yn y dyfodol.

Mae Trafnidiaeth Cymru eisoes yn darparu'r gwasanaeth hwn ar ei rhwydwaith TrawsCymru a chysylltiadau rheilffyrdd.

***Argymhelliad 12:***
Darparu opsiwn tocynnau sy'n galluogi pobl ifanc i'w defnyddio ar draws sawl dull trafnidiaeth gyhoeddus.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Rydym yn cytuno ag egwyddor yr argymhelliad hwn; mae'r system bresennol o weithredu bysiau wedi arwain at drefn gymhleth a darniog o ran prisiau siwrneiau a thocynnau ar wasanaethau bysiau lleol ledled Cymru.

Mae ein strategaeth Bws Cymru, a'r Bil Bysiau, yn amlinellu llwybr ar gyfer darparu trefniadau symlach, mwy fforddiadwy a hygyrch ar gyfer prisiau siwrneiau a thocynnau ar wasanaethau bysiau. Ein huchelgais yw datblygu system yn seiliedig ar egwyddorion Un Rhwydwaith, Un tocyn, Un amserlen, lle gall pobl deithio ledled Cymru.

Rydym wedi cyflwyno tocynnau cyfun ar gyfer bysiau / trenau yn ddiweddar ar wasanaeth bws T1 TrawsCymru rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin a gaffaelwyd gan Trafnidiaeth Cymru, sy'n boblogaidd iawn ymhlith teithwyr. Mae camau'n cael eu cymryd i ehangu hyn i rannau eraill o rwydwaith TrawsCymru dros y misoedd nesaf.

Byddwn yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r mentrau hyn i helpu i lywio a gwireddu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru a nodwyd yn Llwybr Newydd i ddatblygu system drafnidiaeth sy'n hygyrch, yn effeithlon ac yn gynaliadwy.

**THEMA – GWAHANIAETHU A CHAM-DRIN**

***Argymhelliad 13:***

Ymgyrch gydgysylltiedig i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwahaniaethu yn erbyn grwpiau o bobl ifanc ar y cyrion, a mannau dysgu i ymgorffori hynny wrth ddarparu’r Cwricwlwm i Gymru.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**
Bydd cynhwysiant yn thema allweddol yn ein Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb sydd ar ddod. Mae'n rhaid i rwydwaith trafnidiaeth Cymru gynnwys pawb sydd angen teithio. Bydd y cynllun gweithredu hefyd yn nodi camau gweithredu i helpu i wneud y diwydiant trafnidiaeth yng Nghymru yn gyflogwr delfrydol, gan wella ei gynrychiolaeth o bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, menywod, pobl LHDTC+ a phobl anabl.

Bydd y Grŵp Cynghori Plant a Phobl Ifanc yn cynnig cyfle i weithio gyda phartneriaid cyflawni i fynd i'r afael â materion mewn perthynas â chydraddoldeb a hygyrchedd.

Gwnaethom weithio gyda menter Cymru Ifanc yn ddiweddar i gynnal ymarfer ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc ynghylch eu barn, eu syniadau a'u profiad o ran teithio i'r ysgol. Mae canfyddiadau'r ymarfer ymgynghori hwn wedi llywio argymhellion adroddiad mewnol sy'n cynnwys mynd ati i ddiweddaru'r Cod Ymddygiad wrth Deithio, ac adnoddau cysylltiedig ar gyfer ysgolion, er mwyn hyrwyddo perchnogaeth a chyfrifoldeb ymhlith plant, pobl ifanc ac ysgolion mewn perthynas â'u hagweddau, eu hymddygiadau a'u gwerthoedd wrth deithio. Bydd eich ymchwil a'ch argymhelliad yn helpu i lywio'r gwaith hwn.

Unwaith eto, hoffwn ddiolch i chi gyd am eich gwaith caled, eich ymroddiad a'ch ymdrech i ddefnyddio'r llwyfan sydd gennych fel aelodau Senedd Ieuenctid Cymru i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn clywed lleisiau plant a phobl ifanc ledled Cymru, ac yn gwrando arnynt.

Bydd eich gwaith, a'r adroddiad hwn yn benodol, yn gadael gwaddol parhaol ar seilwaith a diwylliant darpariaeth trafnidiaeth yng Nghymru wrth inni gyflawni ein huchelgeisiau i greu rhwydwaith trafnidiaeth gwirioneddol integredig er mwyn helpu i gyflawni ein hymrwymiadau i fod yn Genedl Sero Net erbyn 2050.

Yn gywir



**Julie James AS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant, AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru,
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

22 Rhagfyr 2023

Annwyl Jayne,

**Gwaith sydd ar y gweill o ran Diwygio Radical ar gyfer Plant â Phrofiad o fod mewn Gofal**

Diolch am eich llythyr ar 9 Hydref yn dilyn y sesiwn graffu ar 14 Medi. Roeddwn yn falch iawn o barhau â'r drafodaeth gyda'r Pwyllgor ar ei adroddiad a'i argymhellion yn y maes pwysig iawn hwn.

Mae'r atodiad amgaeedig yn rhoi ymatebion i gwestiynau'r Pwyllgor a amlinellwyd yn eich llythyr. Byddwch yn deall bod gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar gyfer rhai o'r cwestiynau rydych chi wedi'u gofyn a byddwn yn hapus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau i'r Pwyllgor y flwyddyn nesaf.

Yn gywir

Julie

**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

Cwestiynau dilynol y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn dilyn sesiwn graffu ar 14 Medi 2023



| | Cwestiwn a chefndir | Ymateb i'r Cwestiwn |
|---|---|---|
| 1 | **Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth ysgrifenedig am y Safonau Gwasanaeth Cenedlaethol newydd ar gyfer Gwasanaethau Plant yng Nghymru.**<br><br>(Dyfyniadau trawsgrifiad perthnasol wedi'u nodi isod)<br>*"Work is firmly under way to deliver a national practice framework. The framework will be the first set of national standards for children's services in Wales, sitting alongside things like the all-Wales safeguarding procedures, and we will be delivering up to five new standards of practice by the end of 2023, with further standards being co-produced. It will address the key concerns that young people have raised about practice in your report, which I've taken very great notice of."*<br>*"[….] four draft standards have now been produced. One of those is around child-inclusive practice; children and young people who go missing; manageable workloads; and continuing care."* | Y Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol fydd y gyfres gyntaf o safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru, a bydd yn mynd law yn llaw â gweithdrefnau Cymru gyfan eraill, fel gweithdrefnau diogelu Cymru Gyfan. Bydd yn cryfhau ac yn cefnogi'r gwaith o droi bwriad polisi yn arfer beunyddiol.<br><br>Datblygwyd y Fframwaith drwy weithio gyda'n partneriaid i adolygu a chryfhau ansawdd ac ymarfer i wella'r ffordd y darperir gwasanaethau.<br><br>Bydd y safonau'n adlewyrchu dull amlasiantaethol, gan ein bod yn cydnabod bod plant sydd angen cymorth ac amddiffyniad angen cymorth yn aml gan nifer o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'i gilydd fel tîm. Bydd y safonau'n disgrifio'n well sut mae gwasanaethau i blant yn gweithio, gan sbarduno mwy o dryloywder. Rydym yn rhagweld y byddwn yn cyflwyno hyd at 6 safon newydd erbyn diwedd Mawrth 2024, gyda'r gweddill yn cael eu cyd-gynhyrchu erbyn diwedd 2024.<br><br>Y chwe safon newydd gyntaf fydd:<br>• Y safon ymarfer sy'n cynnwys plant;<br>• Y safon Oedolion y Gellir Ymddiried Ynddynt;<br>• Llygaid ar y plentyn: y safon Diogelu Plant;<br>• Y safon plant a phobl ifanc sy'n mynd ar goll;<br>• Y Safon Gofal Parhaus;<br>• Y safon llwythi gwaith y gellir ymdopi â nhw. |

| | | |
|---|---|---|
| **2** | **Siarter Rhianta Corfforaethol**<br>i. Manylion am sut y bydd cydymffurfiaeth â'r siarter yn cael ei monitro a chan bwy?<br><br>ii. Rhestr wedi'i diweddaru o ba asiantaethau sydd wedi llofnodi'r siarter gwirfoddol hyd yma<br><br>iii. Sut gall plant a phobl ifanc weld pa asiantaethau sydd wedi cofrestru? | i. Ar hyn o bryd, mae'r Siarter wedi'i gyhoeddi ar sail ymrwymiad gwirfoddol. Rydym wrthi'n archwilio ysgogiadau deddfwriaethol presennol i gefnogi'r Siarter a chreu dull cyson o ymdrin â rhianta corfforaethol yng Nghymru. Enghraifft o hyn fydd pennod bwrpasol ar Rianta Corfforaethol o fewn y Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya) o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Bydd monitro cydymffurfiaeth â'r Siarter yn cael ei gynnwys fel rhan o'r gwaith hwn. |
| | | ii. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn cwblhau cynllun ymgysylltu i annog cyrff cyhoeddus, cyrff preifat a sefydliadau'r trydydd sector i lofnodi'r siarter. Byddwn yn hapus i rannu rhestr o gyrff a sefydliadau sydd wedi llofnodi'r Siarter gyda'r pwyllgor yng Ngwanwyn 2024. Ar 1 Rhagfyr, mae 16 o gyrff wedi llofnodi'r Siarter, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Gweinidogion Cymru. |
| | | iii. Yn unol â'r ymateb uchod, byddwn yn rhannu'r rhestr ac enwau'r sefydliadau sydd wedi llofnodi'r Siarter yn y Gwanwyn ar dudalen we Siarter Rhianta Corfforaethol Llywodraeth Cymru. |
| **3** | **Gofal fel Nodwedd Warchodedig**<br>A fyddwch yn cynnwys pobl ifanc hŷn ac oedolion â phrofiad o fod mewn gofal yn eich trafodaethau?<br><br>Diolch am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y canlynol: | Diolch am rannu'r adborth a gawsoch gan bobl ifanc hŷn ynghylch profiad o fod mewn gofal fel nodwedd warchodedig. Mae tipyn o amrywiaeth yn y safbwyntiau, fel y byddwch yn sylweddoli. |

| | | |
|---|---|---|
| | *"I'm going to be working with officials across Welsh Government to explore this further with care-experienced people and children as part of the future care experience summits with Voices from Care. So, we will be exploring this, but there are different views that have been given to us, so it's not a united view."* Mae rhai pobl ifanc hŷn wedi dweud wrthym eu bod wedi newid eu meddyliau ar hyn wrth iddynt fynd yn hŷn. Pan oeddent yn blant, efallai yr oeddent yn poeni am stigma, ond wrth iddynt fynd yn hŷn, maent wedi deall sut beth yw bywyd y tu hwnt i ofal. Gofynnwyd i ni gyfleu i chi, er bod gan blant farn wahanol ar y mater hwn, ei fod yn bwysig siarad ag oedolion sydd â phrofiad o fod mewn gofal ynghylch eu safbwyntiau hefyd. | Rwy'n parhau i weithio gyda swyddogion ar draws Llywodraeth Cymru i archwilio'r mater hwn ymhellach gyda phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal a byddem yn croesawu trafodaeth gyda phobl ifanc hŷn ac oedolion a chael clywed eu barn. |
| **4** | **Eiriolaeth**<br>Eglurder ar safbwynt diweddaraf Llywodraeth Cymru ar ein hargymhelliad y dylai plant â phrofiad o fod mewn gofal gael hawl statudol i gymorth eiriolaeth annibynnol tymor hir ar sail 'optio allan'?<br><br>Yn ymateb Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2023, 'Gwrthod' oedd yr ymateb, ond yn ein cyfarfod diweddaraf, fe ddywedoch chi *"[...] my response did not outrightly reject opt-out advocacy."* | Er mwyn egluro fy ymateb i'r argymhelliad hwn, argymhellodd y Pwyllgor 3 mater: yr angen am ddeddfwriaeth, aseinio eiriolwr; a'r opsiynau i optio allan ac optio i mewn.<br><br>***Yn gyntaf, argymhellodd y Pwyllgor y "dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i ddarparu hawl statudol i blant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal i gymorth eiriolaeth annibynnol, hirdymor ar sail 'optio allan'."***<br><br>Gallaf gadarnhau bod gan blant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal hawliau statudol clir, diamwys i eiriolaeth annibynnol tymor hir o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r hawliau statudol hynny yn cael eu hategu ymhellach gan reoliadau, Codau |

| | | |
|---|---|---|
| | | Ymarfer a chanllawiau sy'n nodi'r Dull Cenedlaethol o Ymdrin ag Eiriolaeth Statudol.<br><br>Mae ein Dull Cenedlaethol yn ymestyn yr hawliau statudol hynny i eiriolaeth annibynnol tymor hir ymhellach nag argymhelliad y Pwyllgor, gan fod y Dull Cenedlaethol yn cynnwys plant sy'n cael eu cam-drin neu sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin, a phlant sy'n derbyn gofal a chymorth o dan Ddeddf 2014.<br><br>Nid oeddwn yn gallu derbyn Argymhelliad y Pwyllgor gan ei fod yn gofyn am rywbeth rydym eisoes wedi'i roi ar waith drwy Ddeddf 2014, y fframwaith statudol cysylltiedig a'r Dull Cenedlaethol o Ymdrin ag Eiriolaeth Statudol.<br><br>***Yn ail, argymhellodd y Pwyllgor y "dylid neilltuo eiriolwr i bob plentyn pan fydd yn mynd i mewn i'r system ofal i ddarparu cymorth eiriolaeth hirdymor ar draws ystod o faterion, a dylai barhau hyd nes y bydd y plentyn yn peidio â bod yn 'ymadawr gofal'."***<br><br>Gallaf gadarnhau mai dyma sut mae'r Dull Cenedlaethol wedi'i ddatblygu a'i ddarparu, gan ac mewn partneriaeth â'r darparwyr eiriolaeth, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill sy'n cynrychioli llais plant a'r rhai sydd â phrofiad bywyd. Mae'r Dull Cenedlaethol wedi'i lywio a'i siapio gan dystiolaeth a syniadau darparwyr eiriolaeth ac awdurdodau lleol.<br><br>Mae'r Dull Cenedlaethol yn eiddo i'r darparwyr eiriolaeth, yr awdurdodau lleol a'r plant y maent yn eu cefnogi. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Rôl Llywodraeth Cymru fu hwyluso, grymuso a chynghori darparwyr eiriolaeth ac awdurdodau lleol i adeiladu Dull Cenedlaethol effeithiol ar gyfer y plant y maent yn eu cefnogi.<br><br>***Yn drydydd, argymhellodd y Pwyllgor y "gallai plant a phobl ifanc optio allan (ac yna optio i mewn yn ddiweddarach) os dymunant, ond rhaid iddynt fod ag eiriolwr neu ddarparwr penodedig bob amser yn ystod eu cyfnod mewn gofal."***<br><br>Cadarnhaodd fy ymateb fod y gallu i optio allan ac optio i mewn yn elfen graidd o'r Dull Cenedlaethol. Yn fy ymateb, rhannwyd union iaith yr Adroddiad Etifeddiaeth i roi sicrwydd i'r Pwyllgor nad fy nehongliad i yw hyn, ond union iaith aelodaeth annibynnol y Grŵp hwnnw. Nododd fy ymateb i chi:-<br><br>[Nid] "yw optio allan yn golygu nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc hawl i eiriolwr mwyach. Os bydd y plentyn neu'r person ifanc yn penderfynu maes o law ei fod eisiau eiriolaeth, bydd y gweithiwr cymdeithasol yn rhoi ei fanylion i'r gwasanaeth eiriolaeth i drefnu cyfarfod cychwynnol gyda'r plentyn neu'r person ifanc."<br><br>Fel y soniais, gwnaeth y Pwyllgor argymhellion ar 3 mater: yr angen am ddeddfwriaeth, aseinio eiriolwr; a'r opsiynau i optio allan ac optio i mewn. Rydw i wedi esbonio sut mae pob elfen o argymhelliad y Pwyllgor eisoes ar waith. Gobeithio y bydd hyn yn rhoi'r sicrwydd rydych yn chwilio amdano.<br><br>Mae fy swyddogion eisoes wedi siarad â'r darparwyr a'r awdurdodau lleol i sicrhau bod fy nisgwyliadau ohonynt o ran cyflawni'r rhain yn cael eu bodloni. |

| | | |
|---|---|---|
| 5 | **Plant mewn lleoliadau anghofrestredig**<br>Beth yw nifer presennol y plant sydd yng ngofal awdurdodau lleol Cymru sy'n byw mewn llety anghofrestredig ar 11 Tachwedd 2023?<br><br>Roeddem yn arbennig o bryderus o glywed, ar 11 Medi, bod 30 o blant o dan ofal awdurdodau lleol Cymru yn gyfreithiol, ond sy'n byw mewn lleoliadau anghofrestredig. Er ein bod yn gwerthfawrogi'r pwysau sylweddol ar lety, mae cael nifer mor sylweddol o blant mewn lleoliadau sydd, yn eu hanfod, yn 'anghyfreithlon' yn amlwg yn peri pryder mawr. Byddwch yn ymwybodol, ym mis Gorffennaf 2023, gwnaethoch wrthod ein hargymhelliad i gyhoeddi cynllun gweithredu i leihau nifer y plant mewn lleoliadau anghofrestredig erbyn mis Rhagfyr 2023. | Ar 11 Tachwedd 2023, roedd 29 o leoliadau anghofrestredig ledled Cymru.<br><br>Mae gweithio tuag at ddefnyddio cyn lleied â phosibl o leoliadau anghofrestredig yn golygu lleihau'r galw am leoliadau - ystyrir yn gyffredinol fod cyfradd y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yn llawer rhy uchel - gan gynyddu capasiti a chynnwys gwydnwch mewn trefniadau ar gyfer darparu lleoliadau addas. Mae'r materion hyn yn cael eu hystyried yng nghyd-destun ein hagenda drawsnewid ehangach ar gyfer gwasanaethau plant a'r ystod o waith sydd ar y gweill ar hyn o bryd i sicrhau bod darpariaeth sefydlog ac integredig hyn cael ei datblygu sy'n atebol yn lleol.<br><br>Mae datblygu darpariaeth amgen ar gyfer plant ag ymddygiadau ac anghenion cymhleth iawn wedi bod yn ganolbwynt ar gyfer cyllid dros y blynyddoedd diwethaf, gyda £4.8 miliwn ar gael i ranbarthau yng Nghymru yn 2021/22 i ddatblygu 'llety diogel' i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth. Mae cyllid ychwanegol hefyd ar gael drwy gydol tymor y Senedd hon drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i ddarparu cymorth arbenigol ychwanegol i blant ag anghenion cymhleth a allai fod ar ffiniau gofal. Mae tua £14.5 miliwn wedi'i ddyrannu i 13 o brosiectau sy'n darparu cymorth therapiwtig i blant â phrofiad o fod mewn gofal fel y prif fodel gofal i gefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel. |
| 6 | **Plant sy'n destun gorchmynion Amddifadu o Ryddid**<br>Beth yw nifer presennol y plant sydd yng ngofal awdurdodau lleol Cymru ar 11 Tachwedd 2023? | Y ffigwr diweddaraf i gael ei gyhoeddi (ar 31 Mawrth 2022 ar wefan Stats Cymru) ar gyfer nifer y plant yng ngofal awdurdodau lleol Cymru yw: 7,080. |

<table>
<tr>
<td></td>
<td>Unwaith eto, roeddem yn bryderus o glywed bod chwech o blant yn destun gorchmynion Amddifadu o Ryddid ar 11 Medi.</td>
<td>Rwy'n deall pryder y Pwyllgor, ac fel y dywedais yn y sesiwn graffu ar 14 Medi, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cynnal ymarfer dadansoddi i sefydlu nifer y Gorchmynion Amddifadu o Ryddid a ddefnyddiwyd dros y 24 mis diwethaf. Bydd canlyniadau'r dadansoddiad yn bwydo i mewn i Raglen Drawsnewid ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Plant.</td>
</tr>
<tr>
<td>7</td>
<td>Dileu Elw<br>Er nad oedd y gwaith Dileu Elw yn uniongyrchol o fewn Cylch Gorchwyl ein hymchwiliad, rydym yn cydnabod ei fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a’ch bod wedi pwysleisio wrthym yn y sesiwn graffu ei fod yn cael ei symud ymlaen oherwydd bod pobl ifanc wedi dweud mai dyna oedden nhw eisiau.<br><br>Fel rhan o'n gwaith craffu arfaethedig ar Gyllideb Ddrafft 2024-25, byddwn yn gofyn am rywfaint o wybodaeth ariannol mewn perthynas â sut y dyrannwyd y dyraniad o £68 miliwn dros dair blynedd, fel rhan o'n cais ehangach am y gyllideb.<br>O ran cyflawni'r ymrwymiad hwn, byddem yn ddiolchgar am yr wybodaeth a ganlyn:<br><br>Yr amcangyfrif presennol o nifer y plant o awdurdodau lleol Cymru sydd wedi'u lleoli mewn lleoliadau annibynnol/preifat yng Nghymru.</td>
<td>Mae'r amcangyfrif presennol o nifer y plant sydd wedi'u lleoli gan awdurdodau lleol Cymru mewn lleoliadau annibynnol/preifat yng Nghymru fel a ganlyn:
<table>
<tr><th></th><th>Wedi'u lleoli gydag asiantaethau maethu annibynnol</th><th>Wedi'u lleoli gyda darparwyr preswyl annibynnol</th><th>Cyfanswm</th></tr>
<tr><td>Adroddwyd @30.06.23</td><td>1284</td><td>596</td><td>1880</td></tr>
</table>
<br>Mae ffrwd waith wedi'i sefydlu o dan Fwrdd y Rhaglen Dileu Elw ar gynllunio pontio ar gyfer plant a phobl ifanc unigol. Bydd y ffrwd waith yn ystyried y camau sydd eu hangen i gefnogi pontio esmwyth o drefniadau presennol y farchnad i'r trefniadau nid-er-elw newydd a ddaw i rym o fis Ebrill 2026.<br><br>Rydym wedi gwrando'n ofalus ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â</td>
</tr>
</table>

Manylion y cynllun pontio / llinellau amser i symud y plant hyn neu i drosglwyddo'r lleoliadau i awdurdodau lleol / darparwyr trydydd sector.

Faint o blant o Loegr sy'n cael eu lleoli mewn lleoliadau annibynnol/preifat yng Nghymru? Cynlluniau i liniaru canlyniadau anfwriadol pwysau ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd Cymru a allai godi pe bai mwy o blant o'r tu allan i Gymru yn symud i'r lleoliadau hyn o 2027 ymlaen pan na ellir eu defnyddio mwyach i leoli plant o Gymru.

chymhlethdodau symud o'r trefniadau presennol i'r gofynion newydd. Fy mwriad bob amser oedd rhoi ystyriaeth fanwl i'r pontio i'r trefniadau newydd er mwyn atal neu liniaru unrhyw ganlyniadau niweidiol i blant a phobl ifanc cyn belled ag y bo modd a sicrhau bod camau gweithredu yn parhau i gael eu cymryd er eu lles pennaf nhw. Bydd darpariaethau i gefnogi hyn yn cael eu cynnwys yn ein Bil Gofal Cymdeithasol sydd ar ddod.

Mae'n anoddach adrodd yn ddibynadwy ar nifer y lleoliadau trawsffiniol i Gymru gan nad oes gofyniad ar hyn o bryd i'r awdurdod lleoli yn Lloegr roi gwybod i'r awdurdod sy'n derbyn yng Nghymru. Mae data byw ar 13/11/23 isod, er ei bod yn debygol nad yw pob achos yn cael ei adrodd:

| | **Gofal Maeth** | **Gofal Preswyl** | **Byw â Chymorth** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Hysbysiadau** | 76 | 90 | 1 | 167 |

O fis Ebrill 2027, oni bai bod darparwr yn ddarparwr nid-er-elw, y sefyllfa ddiofyn yw na fydd yn gallu cael ei gofrestru yng Nghymru mwyach ac felly ni fydd yn bosibl i awdurdodau lleol Lloegr leoli plant gyda darparwyr annibynnol/preifat yng Nghymru.

| | | |
|---|---|---|
| **8** | **Data**<br>Cyn y sesiwn graffu ar 14 Medi fel rhan o gais ehangach am wybodaeth, gwnaethom ofyn am wybodaeth benodol mewn perthynas â'r data na chaiff eu casglu a'u cyhoeddi fel mater o drefn yng Nghymru ar hyn o bryd (fel y nodir ar dudalennau 50 i 52 o'n hadroddiad ac adroddiad WCPP) a rhagor o wybodaeth am y sail resymegol dros haeriad Llywodraeth Cymru nad yw hyn yn angenrheidiol / yn bosibl / yn ddefnyddiol wrth lywio ymateb polisi yng Nghymru. Nid oedd yr ymateb i'r cais penodol hwn yn mynd i lefel y manylder yr oeddem wedi gofyn amdani, a byddwn yn ddiolchgar pe gallai eich swyddogion ailedrych ar yr ymateb a roddwyd a darparu ymateb manylach. | Fel y dywedais yn fy ngohebiaeth cyn y sesiwn graffu, rydym yn derbyn y rôl bwysig sydd gan ddata o ran dangos canlyniadau i blant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal wrth ddatblygu polisi a chynllunio gwasanaethau. Mae'r Grŵp Cyflawni Trawsnewid Gwasanaethau Plant yn sefydlu rhaglen waith sy'n canolbwyntio ar gasglu data a metrigau. Bydd y gwaith hwn yn ystyried y data y cyfeiriwyd ato yn adroddiad y Pwyllgor ar dudalennau 50-52 ac yn darparu argymhellion i'r Grŵp Cyflawni. |

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@Senedd.Cymru
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Jayne Bryant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

3 Ionawr 2024

Annwyl Jayne,

Ymchwiliad dilynol i ofal plant a chyflogaeth rhieni

Mae ein gwaith diweddar ar Strategaeth Tlodi Plant Ddrafft Llywodraeth Cymru wedi elwa'n fawr o'ch cyfranogiad ac mae'n debygol bod ein dulliau o ymdrin â nifer o faterion trawsbynciol wedi'u cryfhau o ganlyniad i'n cydweithio. Roedd yr adroddiad yn nodi ein bwriad i wneud gwaith dilynol ar y mater ac rydym bellach mewn sefyllfa i roi manylion ichi.

Rydym yn bwriadu gwneud gwaith dilynol mewn perthynas â 'Gwarchod y dyfodol: y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio', ein hadroddiad yn 2022 ar ofal plant a chyflogaeth rhieni, yng ngwanwyn 2024. Yn ogystal ag archwilio'r cynnydd o ran rhoi argymhellion yr adroddiad hwnnw ar waith, byddwn yn archwilio i ba raddau y mae gofal plant yn diwallu anghenion amrywiol teuluoedd ledled Cymru. Bydd hyn yn cynnwys sut y gellir mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran mynediad at ofal plant y mae grwpiau demograffig penodol a grwpiau mewn gwahanol rannau o Gymru yn eu hwynebu. Gallwch weld y cylch gorchwyl llawn yn yr Atodiad.

Yn dibynnu ar argaeledd tystion ac ati, rydym yn bwriadu gwneud y gwaith hwn ar y dyddiadau a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 26 Chwefror 2024 | Dau banel tystiolaeth lafar |
| 4 Mawrth 2024 | Un panel tystiolaeth lafar |
| 11 Mawrth 2024 | Bore: sesiwn rhanddeiliaid yn y Senedd<br>Prynhawn: sesiwn dystiolaeth gyda'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol |

Hoffem eich gwahodd chi, ac Aelodau eraill o'ch Pwyllgor, o dan Reol Sefydlog 17.49, i fod yn bresennol yn y sesiynau tystiolaeth lafar a gweithgareddau eraill sydd wedi'u cynllunio, ar y dyddiadau uchod ac mewn unrhyw gyfarfodydd eraill lle gallai trafodaethau sylweddol gael eu cynnal fel rhan o'r ymchwiliad. Pe bai hyn o ddiddordeb i chi neu unrhyw un o'ch Aelodau, byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau erbyn 31 Ionawr 2024. Byddaf hefyd yn gofyn i'n Clerc gysylltu â'ch Clercod wrth i'r



Senedd Cymru
Welsh Parliament

trefniadau ar gyfer yr ymchwiliad fynd rhagddo ac fel y gellir gwneud yr holl ystyriaethau ymarferol angenrheidiol.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych yn fuan.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS

Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

# Atodiad: Cylch gorchwyl yr ymchwiliad

- Pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran gweithredu'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor a gyhoeddwyd ddechrau 2022, sef Gwarchod y dyfodol – Y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio.
- I ba raddau y mae'r ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru yn rhoi darpariaeth o safon uchel sy'n cefnogi datblygiad plant, yn mynd i'r afael â thlodi plant ac yn cefnogi cyflogaeth rhieni. Pa newidiadau y gallai fod eu hangen i gyflawni'r canlyniadau hyn.
- Pa gynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni ymrwymiad y Cytundeb Cydweithio i ehangu ar y 12.5 awr o ofal plant am ddim yr wythnos i bob plentyn dwy flwydd oed, a rhoi pwyslais ar gryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- I ba raddau y mae digon o ofal plant ar gael i ddiwallu anghenion amrywiol teuluoedd ledled Cymru, a sut y gellir mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran mynediad at ofal plant y mae grwpiau demograffig penodol a grwpiau mewn gwahanol rannau o Gymru yn eu hwynebu.
- Pa ddulliau sydd ar gael i integreiddio'r gwaith o ddarparu gofal plant yng Nghymru, a sut y gellir lledaenu arfer gorau yn eang.
- Sut mae pwysau costau byw wedi effeithio ar ddarparwyr a'r gweithlu gofal plant, a pha effeithiau y mae'r rhain wedi'u cael ar y sector.
- Pa wersi y gellir eu dysgu o rannau eraill o'r DU, ac o arfer gorau yn rhyngwladol i wella polisi gofal plant yng Nghymru.
- Sut y mae angen ystyried rhwystrau ariannol a rhwystrau ymarferol wrth ddatblygu polisi gofal plant yn y dyfodol.